


Adroddiad Arolygu ar gyfer Practis Meddygon Teulu (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Partneriaeth Aman Tawe - Gwaun Cae Gurwen, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.

Dyddiad yr arolygiad: 02 Mehefin 2026

Dyddiad cyhoeddi: 1 Hydref 2026



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr gan fod ieithoedd a fformatau amgen yn cael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copi o bob adroddiad, pan gaiff ei gyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu:

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-80853-415-7

© Hawlfraint y Goron 2026



Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw rheoleiddiwr ac arolygiaeth annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein Diben

Rydym yn gwirio diogelwch ac ansawdd gofal iechyd ledled Cymru.

Ein Gwerthoedd

Rydym yn rhoi pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn.

Rydym yn:

Annibynnol – rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud.

Gwrthrychol – rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth.

Pendant – rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws.

Cynhwysol – rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith.

Cymesur – rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae ei angen fwyaf.

Ein Gweledigaeth

Dyfodol lle mae gofal iechyd yng Nghymru yn ddiogel, yn effeithiol ac o ansawdd uchel i bawb.

Ein Blaenoriaethau

Rhoi Pobl yn Gyntaf – Byddwn yn canolbwyntio ar y risgiau mwyaf y mae pobl a chymunedau yn eu hwynebu wrth iddynt ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd nawr ac yn y dyfodol.

Dysgu a Gweithio Gyda'n Gilydd – Byddwn yn cydweithio â phartneriaid er mwyn rhannu gwersi a ddysgwyd ac ysgogi gwelliannau parhaus.

Buddsoddi yn Ein Pobl – Byddwn yn sicrhau bod ein pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, eu gwerthfawrogi a'u grymuso.

Cymryd Camau sydd o Bwys – Byddwn yn cymryd camau i wella ansawdd a diogelwch gofal iechyd ar gyfer dyfodol Cymru.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	12
	Ansawdd Profiad y Claf	12
	Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	22
	Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	31
4.	Y camau nesaf	38
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	39
	Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith	41
	Atodiad C – Cynllun gwella	47



1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bartneriaeth Aman Tawe – Practis Gwaun Cae Gurwen, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ar 02 Mehefin 2026.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau arolygydd gofal iechyd AGIC, dau adolygydd cymheiriaid clinigol ac un adolygydd rheolwyr practis.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn ar weithio i'r gwasanaeth i ni. Cwblhawyd cyfanswm o 531 o holiaduron gan gleifion neu eu gofalwyr a chwblhawyd 13 gan aelodau o'r staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gawsom yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Roedd yr adborth a gafwyd o'r ymatebion i holiadur cleifion Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yn nodi rhai profiadau negyddol o'r gwasanaeth, gyda phryderon yn cael eu mynegi ynghylch mynediad amserol at ofal, argaeledd apwyntiadau, parhad gofal a chyfathrebu. Cawsom 531 o ymatebion i'r holiadur gan gleifion a gofalmwr, a mynegwyd pryderon ynghylch mynediad dros y ffôn ac ar-lein, argaeledd apwyntiadau, parhad gofal, cyfranogiad mewn penderfyniadau ac addasrwydd y mathau o apwyntiadau a gynigir. Roedd ychydig dros hanner (278/527) yr ymatebwyr yn fodlon ar yr oriau agor, nododd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr eu bod yn cael anhawster cysylltu â'r practis pan oedd angen, ac wrth geisio cael apwyntiadau brys ar yr un diwrnod ac apwyntiadau cyffredinol. Soniodd cleifion â chyflyrau meddygol parhaus hefyd am anhawster wrth geisio cael cymorth rheolaidd.

Roedd y practis yn gweithredu yng nghyd-destun pwysau ehangach ar wasanaethau meddygon teulu ac roedd wedi cymryd rhai camau i gefnogi'r gallu i gael gofal, gan gynnwys defnyddio model brysbennu yn gyntaf, prosesau llywio gofal a recriwtio staff ychwanegol. Er bod hyn wedi helpu'r practis i reoli'r galw ar draws ei safleoedd, roedd llawer o'r cleifion yn anfodlon ar y math o apwyntiad a gynigir a gwnaethant nodi nad oeddent yn cael dewis. Mynegodd rhai cleifion bryderon hefyd ynghylch peidio â chael cynnig apwyntiadau wyneb yn wyneb pan oeddent yn teimlo bod angen hyn, gan gynnwys yn achos pryderon iechyd parhaus. Dywedodd rhai ymatebwyr eu bod yn teimlo eu bod wedi cael eu diystyru, heb gael eu clywed, neu heb gael digon o amser i esbonio eu hanghenion iechyd. Roedd rhai o'r sylwadau'n disgrifio profiadau unigol gwael gyda chlinigwyr. Er bod rhai sylwadau cadarnhaol wedi'u gwneud am staff nyrsio a chlinigwyr unigol, roedd canlyniadau cyffredinol arolwg profiad y claf yn wael, gyda'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn dweud bod y gwasanaeth yn wael neu'n wael iawn.

Gwelsom rai trefniadau cadarnhaol i gefnogi urddas, preifatrwydd a phrosesau cyfathrebu'r cleifion. Roedd yr ystafelloedd clinigol yn darparu preifatrwydd priodol, roedd galwadau ffôn yn cael eu hateb i ffwrdd o'r brif dderbynfa, ac roedd gwybodaeth am hebryngwyr wedi'i hysbysebu'n glir. Roedd y practis yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau hefyd i gyfathrebu â'r cleifion, gan gynnwys ei wefan, y cyfryngau cymdeithasol, ap y feddygfa a phosteri yn yr ystafell aros. Roedd trefniadau o ran y Gymraeg ar waith, gan gynnwys arwyddion dwyieithog, cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant Cymraeg a staff yn gwisgo bathodynau laith Gwaith. Fodd bynnag, nododd rhywfaint o'r adborth gan gleifion bryderon ynghylch y posibilrwydd o gael eu clywed gan bobl eraill yn y dderbynfa, diffyg ymwybyddiaeth o brosesau cwyno, a darpariaeth anghyson o ran gwybodaeth i bobl nad oeddent yn defnyddio gwasanaethau digidol.

Roedd y practis yn darparu gwybodaeth hybu iechyd drwy ymgynghoriadau, ei wefan, adnoddau wedi'u hargraffu, negeseuon testun ac arddangosfeydd yn yr ardal aros. Roedd hefyd yn gweithio gyda gwasanaethau ehangach a'r clwstwr i gefnogi dulliau atal a hyrwyddo iechyd. Fodd bynnag, roedd rhywfaint o'r wybodaeth yn yr ystafell aros wedi dyddio, heb fod yn benodol i Gymru, neu'n cynnwys codau QR nad oeddent yn gweithio. Nid oedd y wybodaeth a oedd ar gael yn yr ardal aros yn adlewyrchu'n llawn y wybodaeth fwy cynhwysfawr ar wefan y practis, a allai beri anfantais i gleifion nad oeddent yn defnyddio gwasanaethau digidol.

Materion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

- Nid oedd cortyn tynnu mewn argyfwng wedi'i osod yn y toiled i bobl anabl.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Y gallu i gael gwasanaethau meddygon teulu mewn modd amserol a theg
- Dewis o apwyntiadau a mynediad priodol at apwyntiadau wyneb yn wyneb ac apwyntiadau y gellir eu trefnu ymlaen llaw
- Cyfathrebu â chleifion a'u cynnwys yn eu gofal
- Amlygrwydd a hygyrchedd gwybodaeth i gleifion.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Gofal a chymorth dan arweiniad nyrsys
- Diogelu preifatrwydd ac urddas yn ystod gofal clinigol
- Cefnogi dulliau hybu iechyd a chysylltiadau ehangach â'r gymuned.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Ar y cyfan, gwelsom fod gan y practis nifer o systemau a phrosesau sefydledig i gefnogi gofal diogel ac effeithiol, ochr yn ochr â sawl maes yr oedd angen eu cryfhau a'u cysoni ymhellach.

Roedd y practis yn cynnal amgylchedd glân a oedd mewn cyflwr da yn gyffredinol, gyda'r staff yn dangos dealltwriaeth o drefniadau rheoli risgiau, atal a rheoli heintiau, a chyfrifoldebau diogelu. Roedd trefniadau cadarnhaol ar waith ar gyfer cynllunio parhad busnes, rhybuddion diogelwch cleifion, gwaith diogelu amlddisgyblaethol a chyfathrebu mewnol, a oedd yn cefnogi'r gwaith o ddarparu gofal cydgysylltiedig ac effeithiol. Gwelsom hefyd fod cofnodion y cleifion yn glir, yn gyfredol ac wedi'u codio'n briodol ar y cyfan. Roedd trefniadau effeithiol ar waith ar gyfer rheoli atgyfeiriadau, gan gynnwys camau gweinyddol dilynol o fewn pythefnos i atgyfeiriad brys ar gyfer amheuo'n o ganser, er mwyn cadarnhau bod y claf wedi cael cynnig apwyntiad. Nodwyd bod hyn yn arfer canmoladwy.

Fodd bynnag, gwnaethom nodi nifer o feysydd lle roedd angen atgyfnerthu'r prosesau llywodraethu diogelwch. Aethpwyd i'r afael â rhai materion yn ystod yr arolygiad neu drwy ein proses sicrwydd ar unwaith, gan gynnwys pryderon ynghylch oergell ar gyfer storio brechlynnau. Gwnaethom hefyd ddod o hyd i eitemau yr oedd eu dyddiad defnyddio wedi mynd heibio mewn ardaloedd clinigol, silindr ocsigen heb ei osod yn sownd, cofnodion anghyflawn ar gyfer gwiriadau dyfeisiau meddygol, a dim trefniadau i fonitro tymheredd amgylchynol yr ystafell lle roedd meddyginiaethau'n cael eu storio.

Roedd y trefniadau atal a rheoli heintiau wedi'u hategu gan bolisiâu priodol, arweinydd penodedig a chyflenwad o gynhyrchion hylendid dwylo. Fodd bynnag, roedd angen gwneud rhai gwelliannau.

Roedd trefniadau diogelu ar waith, ac roedd y staff yn gwybod pwy oedd yr arweinydd diogelu. Roedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant diogelu a oedd yn briodol i'w rolau, a gwelsom dystiolaeth o drefniadau gweithio amlasiantaethol. Fodd bynnag, roedd angen cryfhau'r polisiâu diogelu er mwyn cynnwys llwybrau atgyfeirio cliriach, prosesau uwchgyfeirio, manylion cyswllt lleol a chanllawiau codio. Roedd angen i'r practis adolygu'r codau amddiffyn plant hefyd, gan fod rhai cleifion sy'n oedolion yn parhau i fod wedi'u cofnodi ar y gofrestr amddiffyn plant ar ôl i'w hamgylchiadau newid.

Roedd gan y practis brosesau i gefnogi gofal effeithiol, gan gynnwys trefniadau ar gyfer atgyfeiriadau, canlyniadau profion, gohebiaeth yn ymwneud â gofal eilaidd, cyfarfodydd clinigol, sefydlu staff locwm ac adolygu marwolaethau. Roedd cofnodion cleifion yn glir, yn gyfredol ac yn gyfoes ar y cyfan, ac roedd adolygiadau o glefydau cronig yn cael eu cynnal ar gyfer cyflyrau hirdymor allweddol. Fodd bynnag, roedd y ddogfennaeth yn amrywio, ac mewn un ymgynghoriad o bell, nid oedd y cofnod yn cynnwys esboniad clir

pam nad ystyriwyd bod angen archwiliad wyneb yn wyneb nac yn dogfennu'r rhesymeg dros yr ymchwiliad y gofynnwyd amdano yn llawn.

Materion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

- Gwelwyd rhai eitemau cyfarpar brys a meddyginiaethau yr oedd eu dyddiad defnyddio wedi mynd heibio
- Roedd cyfarpar brys a meddyginiaethau'n cael eu storio mewn ystafell nyrsio glinigol a ddefnyddir yn aml.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Systemau rheoli meddyginiaethau a gwirio cyfarpar
- Agweddau ar atal a rheoli heintiau
- Atgyfnerthu'r prosesau llywodraethu a goruchwyllo.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Agwedd gadarnhaol at drefniadau gweithio amlldisgyblaethol
- Rhannu gwybodaeth allweddol gyda staff
- Trefniadau dilynol ar gyfer atgyfeiriadau brys ar gyfer amheuon o ganser.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod gan y practis drefniadau arwain a llywodraethu effeithiol ar waith ar y cyfan. Dywedodd y staff fod yr arweinwyr yn weladwy, yn hawdd mynd atynt ac yn gefnogol, ac roedd llinellau adrodd clir ac arweinwyr dynodedig ar gyfer meysydd allweddol, gan gynnwys diogelu, atal a rheoli heintiau, cwynion ac arweinyddiaeth nyrsio. Roedd y practis yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd, gan gynnwys cyfarfodydd clinigol, rheoli, addysgu, gofal lliniarol a chwynion, a oedd yn helpu i gefnogi prosesau cyfathrebu, goruchwyllo a dysgu ar y cyd ym mhob rhan o'r tîm.

Roedd yr adborth gan y staff yn gadarnhaol ar y cyfan. Ymatebodd 13 o aelodau staff i holiadur staff AGIC, a dywedodd pob un ohonynt eu bod wedi cael hyfforddiant priodol ac arfarniad neu adolygiad datblygu yn ystod y 12 mis diwethaf. Roedd y staff yn gadarnhaol ynglŷn â'r cyfarpar, y cyflenwadau, y systemau TGCh a'r cymysgedd sgiliau yn y practis. Gwnaethant hefyd siarad yn gadarnhaol am y trefniadau ar gyfer diogelu, rhoi gwybod am ddigwyddiadau a diogelwch cleifion. Fodd bynnag, pan ofynnwyd iddynt, nododd rhai o'r ymatebwyr feysydd posibl i'r practis eu cryfhau, gan gynnwys lefelau staffio, cyfranogiad mewn penderfyniadau a oedd yn effeithio ar eu gwaith, ymwybyddiaeth o gymorth i ofalwyr, cymorth iechyd galwedigaethol a llesiant.

Roedd gan y practis drefniadau recriwtio, sefydlu, arfarnu, cofrestru proffesiynol ac indemniad priodol ar waith. Roedd tystiolaeth bod rolau'r staff yn cyd-fynd â'u sgiliau a'u maes ymarfer, a bod y practis yn cefnogi'r staff i ddatblygu ac uwchsgilio. Fodd bynnag, roedd angen gwneud gwelliannau er mwyn sicrhau bod profion sgrinio iechyd cyn cyflogi yn cael eu cwblhau'n gyson a bod hunanddatganiadau blynyddol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu hystyried.

Roedd gan y practis systemau cadarnhaol ar gyfer ymgysylltu, casglu adborth a dysgu. Roedd gan y practis Swyddog Cyswllt Cleifion, roedd cwynion a phryderon yn cael eu monitro, ac roedd y practis yn gweithio yn unol â phroses "Gwranddo ar Bobl" y GIG. Roedd cwynion yn cael eu hadolygu mewn cyfarfodydd misol, roedd gwersi a ddysgwyd yn cael eu nodi a'u rhannu, ac roedd adran "Dywedoch chi, gwnaethom ni" ar gael ar y wefan. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn gallu dweud eu dweud, rhannu syniadau a mynegi pryderon. Fodd bynnag, nid oedd hyfforddiant Dyletswydd Gonestrwydd wedi'i gwblhau'n gyson yn y cofnodion hyfforddi a welsom.

Roedd gan y practis drefniadau llywodraethu gwybodaeth ar waith, gan gynnwys polisi cyfredol a swyddog diogelu data. Roedd adroddiadau ynghylch data gweithgarwch y meddygon teulu yn cael eu llunio'n fisol, ac roedd y data a'r hysbysiadau gofynnol yn cael eu cyflwyno i gyrff allanol. Roedd y practis hefyd yn ymwneud â gwella ansawdd drwy ddysgu o gŵynion, rhwydweithiau cyfoedion, cyfarfodydd clwstwr a gweithgarwch archwilio.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Agweddau ar gwblhau hyfforddiant ac ymwybyddiaeth staff
- Gwiriadau llywodraethu'r gweithlu, megis profion sgrinio iechyd y gweithlu cyn cyflogi
- Cynllunio archwiliadau.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Arweinyddiaeth weladwy a chefnogol
- Cyfathrebu strwythuredig a threfniadau cyfarfodydd
- Datblygu ac uwchsgilio staff
- Diwylliant cadarnhaol ac agored

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth cleifion (o holiadur AGIC)

Aeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ati i adolygu'r adborth gan gleifion a gasglwyd drwy holiadur cleifion a ddosbarthwyd i asesu profiadau ym Mhartneriaeth Aman Tawe – Gwaun Cae Gurwen. Cafwyd cyfanswm o 531 o ymatebion, yn dangos bod cleifion yn cael profiad negyddol yn bennaf, yn enwedig mewn perthynas â'r gallu i gael gofal, argaeledd apwyntiadau, parhad gofal a chynnwys cleifion mewn penderfyniadau.

Er bod ychydig dros hanner yr ymatebwyr (278/527) yn fodlon ar oriau agor y practis, roedd 72% (378/525) yn anghytuno eu bod yn gallu cysylltu â'r practis pan oedd angen dros y ffôn neu ar-lein. Roedd y gallu i gael apwyntiadau yn bryder sylweddol, gydag 85% (449/529) yn anghytuno eu bod yn gallu cael apwyntiad brys gyda meddyg teulu ar yr un diwrnod ac 85% (449/529) yn anghytuno eu bod yn gallu cael apwyntiadau cyffredinol pan fo angen. Ymhlith cleifion â chyflyrau meddygol parhaus, dywedodd 79% (420/530) nad oeddent yn gallu cael gafael ar gymorth rheolaidd yn hawdd.

Roedd yr ymatebion ynghylch y math o apwyntiad hefyd yn dangos anfodlonrwydd. Dywedodd 31% (162/530) o'r ymatebwyr eu bod wedi cael cynnig gwahanol fathau o apwyntiadau, ac nid oedd 72% (378/525) yn fodlon ar y math o apwyntiad a gynigiwyd. Roedd ymatebion y cleifion i'r arolwg yn cadarnhau bod y rhan fwyaf o'r apwyntiadau yn cael eu cynnal dros y ffôn, gan gyfrif am 68% (361/531) o'r ymatebion, o gymharu â 31% (165/531) wyneb yn wyneb. Ymhlith yr ymatebwyr, nodwyd apwyntiadau dros y ffôn yn amlach nag apwyntiadau wyneb yn wyneb, ac roedd llawer o'r ymatebwyr yn anfodlon ar y math o apwyntiad a gynigiwyd. Soniodd llawer o'r ymatebwyr hefyd am brofiadau gwael yn ystod apwyntiadau, gyda 64% (339/529) yn anghytuno bod eu hapwyntiad ar amser a 60% (319/531) yn anghytuno eu bod wedi cael digon o amser i esbonio eu hanghenion iechyd.

Nodwyd bod profiad y cleifion o ofal hefyd yn wael ar y cyfan. Dim ond 26% (131/526) oedd yn cytuno bod y meddyg teulu wedi egluro pethau'n dda ac wedi ateb cwestiynau, ac roedd 67% (351/526) yn anghytuno. Yn yr un modd, roedd 73% (383/527) yn anghytuno eu bod yn teimlo eu bod wedi cael eu clywed, ac roedd 67% (353/527) yn anghytuno eu bod wedi cael eu cynnwys cymaint ag yr oeddent yn dymuno mewn penderfyniadau am eu gofal iechyd. Er i 38% (201/527) gytuno eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch, roedd 56% (295/527) yn anghytuno. Ni nodwyd chwaith bod cyngor ar ffordd iach o fyw yn cael ei gynnig yn gyson, gyda 58% (305/528) yn anghytuno bod hyn wedi cael ei gynnig.

Nododd yr ymatebion ynghylch preifatrwydd, urddas a chymorth i ofalwyr bryderon pellach. O blith yr unigolion a atebodd y cwestiynau am yr amgylchedd a phreifatrwydd,

roedd 83% yn anghytuno y gallent siarad â staff y dderbynfa heb i rywun arall eu clywed. Yn fwy cadarnhaol, roedd 70% yn cytuno bod mesurau wedi'u cymryd i ddiogelu preifatrwydd yn ystod eu gofal, megis defnyddio llenni, gorchuddion neu ystafelloedd preifat. Roedd ymatebion i'r holiaduron yn awgrymu bod angen i'r practis adolygu ei brosesau ar gyfer nodi gofalwyr, rhoi gwybodaeth iddynt a'u cefnogi. O blith y 141 o ymatebwyr y nodwyd eu bod yn ofalwyr, 4% ohonynt a ddywedodd eu bod wedi cael cynnig cymorth, gan gynnwys gwybodaeth am sefydliadau neu rwydweithiau perthnasol. Ni chadarnhaodd yr holiadur a oedd ymatebwyr unigol wedi'u cofnodi ar gofrestr gofalwyr y practis.

Roedd y canfyddiadau a oedd yn ymwneud â'r amgylchedd yn fwy cadarnhaol; atebwyd y cwestiynau hyn gan 167 o ymatebwyr. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a atebodd yn cytuno bod yr adeilad yn hygyrch, bod digon o seddi ar gael, bod y cyfleusterau toiled a golchi dwylo yn diwallu eu hanghenion, a bod gwybodaeth hybu iechyd yn cael ei harddangos. Roedd yr ymatebion ynghylch glendid hefyd yn gadarnhaol, gyda 88% o'r ymatebwyr yn nodi bod y lle'n lân.

Gellid gwneud mwy i godi ymwybyddiaeth cleifion o'r trefniadau ar gyfer rhoi adborth a gwneud cwynion. Dywedodd 9% (47/527) o'r ymatebwyr fod y practis wedi gofyn iddynt o'r blaen am eu profiad o'r gwasanaeth, heb gynnwys yr holiadur hwn, a dywedodd 64% (337/529) na fyddent yn gwybod sut i gwyno am wasanaeth gwael.

Pan ofynnwyd iddynt am y gwasanaeth cyffredinol a gawsant gan y practis hwn, dywedodd 85% (450/528) o'r ymatebwyr fod y gwasanaeth yn wael, a dywedodd 15% (78/528) ei fod yn dda. Roedd yr ymatebion ynghylch cydraddoldeb hefyd yn peri pryder, gyda 73% yn dweud nad oeddent yn teimlo y gallent gael gafael ar y gofal iechyd cywir ar yr adeg gywir ni waeth a oedd ganddynt nodweddion gwarchodedig ai peidio. Er i 64% (326/508) o'r ymatebwyr ddweud nad oeddent wedi wynebu gwahaniaethu, cyfeiriodd lleiafrif nodedig at wahaniaethu yn gysylltiedig ag oedran, anabledd, rhyw, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, cyfeiriadedd rhywiol neu resymau eraill.

Mae canfyddiadau'r arolwg yn dangos anfodlonrwydd sylweddol o ran y gallu i gael gofal, cyfathrebu, cyfranogiad mewn gofal, cyfleoedd i roi adborth a'r canfyddiad o degwch o ran cael gofal, ochr yn ochr â chanfyddiadau mwy cadarnhaol ynghylch yr amgylchedd ffisegol a glendid ymhlith y grŵp llai a atebodd y cwestiynau hynny.

Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

"Allwch chi byth gael apwyntiad wyneb yn wyneb gyda meddyg teulu"

"Methu cael apwyntiad ar yr un diwrnod i'm plentyn"

"Ni allwn gael apwyntiad. Dywedwyd wrthyf am fynd i'r ysbyty neu'r fferyllydd."

"Doedd gan y meddyg ddim diddordeb yn fy mhryderon"

"Yn aml iawn byddwch yn cael eich gwthio at nyrs yn lle meddyg teulu"

“Mae'n anodd iawn cael apwyntiadau”

“Rwyf wedi ei chael yn anodd iawn cael cymorth amserol a gofal dilynol priodol ar gyfer pryderon iechyd parhaus. Rwy'n aml yn teimlo mai fi sy'n gorfod mynd ar ôl atebion o hyd, yn hytrach na chael cymorth drwy gydol y broses.”

“Mae un o'r meddygon yn anghwrtais ac yn sarhaus iawn, ac nid yw'n helpu o gwbl, gadewais mewn dagrau, wnes i erioed feddwl y gallai pethau fel hyn ddigwydd mewn meddygfa.”

“Mae gofal diabetig dan arweiniad y nyrsys yn dda iawn.”

“Roedd y nyrsys yn rhagorol wrth fy helpu. Roedd y cyfathrebu'n gyson ac yn glir, roeddent yn empathig ac yn broffesiynol bob amser.”

Dylai'r practis gynnal adolygiad strwythuredig o ganfyddiadau holiadur AGIC, gan driongli'r adborth â data am gŵynion, mynediad ac apwyntiadau, ei arolygon cleifion ei hun a gwybodaeth berthnasol arall am y gwasanaeth. Dylai ddatblygu cynllun gweithredu cymesur sy'n ymdrin â'r meysydd lle mae'r dystiolaeth gyfun yn nodi cyfle neu angen i wella, gan nodi arweinwyr cyfrifol, amserlenni a threfniadau clir ar gyfer rhoi gwybod i'r cleifion a'r staff am gynnydd. Dylai hyn gynnwys:

- adolygu opsiynau a chyfleoedd i wella mynediad amserol cyffredinol i wasanaethau meddygon teulu a'i system apwyntiadau
- adolygu adborth mewn perthynas â defnyddio ymgynghoriadau dros y ffôn a sicrhau bod cleifion yn cael cynnig apwyntiadau wyneb yn wyneb lle mae archwiliadau, anghenion cyfathrebu, cymhlethdod neu ddewis y claf yn nodi bod hyn yn briodol
- atgoffa'r staff clinigol o bwysigrwydd gwrando ar gleifion, egluro penderfyniadau'n glir, ateb cwestiynau a chynnwys cleifion mewn penderfyniadau am eu gofal.
- sicrhau bod arwyddion i'w gweld sy'n rhoi gwybod i'r cleifion bod modd cynnal sgysiau yn breifat ar gais
- adolygu'r prosesau ar gyfer nodi gofalwyr, sut y caiff y gofrestr gofalwyr ei hyrwyddo, a sut y caiff gofalwyr gynnig asesiadau a gwybodaeth am sefydliadau cymorth lleol neu sut y cânt eu cyfeirio at asesiadau a gwybodaeth o'r fath
- gwella gwelededd y broses gwyno drwy arddangos gwybodaeth glir yn yr ardal aros ac ar-lein
- adolygu'r trefniadau mynediad er mwyn sicrhau mynediad cyfartal i bob claf, gan gynnwys y rhai â phroblemau hirdymor a grwpiau agored i niwed.

Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Hybu iechyd

Roedd y practis yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw drwy amrywiaeth o bwyntiau cyswllt cleifion, gan gynnwys ymgynghoriadau cyffredinol, archwiliadau iechyd cleifion newydd ac adolygiadau o glefydau cronig. Dywedodd y staff wrthym fod y cleifion yn cael cyngor wedi'i deilwra yn ystod ymgynghoriadau a'u bod yn cael eu cyfeirio at wybodaeth benodol i'w cyflwr lle y bo'n berthnasol. Roedd hyn yn cynnwys rhannu dolenni i daflenni a gwefannau gwybodaeth i gleifion, argraffu gwybodaeth yn ystod ymgynghoriadau, ac anfon gwybodaeth drwy neges destun lle y bo'n briodol.

Roedd y practis hefyd yn defnyddio ei wefan i ddarparu gwybodaeth hybu iechyd ac i gyfeirio at ffynonellau cymorth ehangach. Gwelsom fod y wefan yn cynnwys gwybodaeth gynhwysfawr am y gwasanaethau a oedd ar gael i'r cleifion, gan gynnwys cymorth a ddarperir drwy sefydliadau allanol. Roedd y practis yn gweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe i gefnogi cleifion sy'n wynebu risg o ddatblygu diabetes drwy ddarparu gwasanaethau cyn-ddiabetes.

Roedd gwybodaeth hybu iechyd hefyd yn cael ei harddangos yn y practis. Roedd hyn yn cynnwys posteri yn yr ardal aros a gwybodaeth ar sgrin deledu. Roedd y cynnwys a oedd yn cael ei ddangos yn amrywio yn dibynnu ar ymgyrchoedd tymhorol a blaenoriaethau iechyd y cyhoedd. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd rhywfaint o'r wybodaeth a oedd yn cael ei harddangos ar sgrin yr ystafell aros yn berthnasol i gleifion yng Nghymru a bod rhywfaint o'r wybodaeth wedi dyddio. Er enghraifft, roedd gwybodaeth am sgrinio'r coluddion a oedd yn cael ei dangos ar y sgrin yn nodi bod y rhaglen yn berthnasol i bobl rhwng 60 a 75 oed. Nid yw hyn yn gyson â chanllawiau presennol Cymru, sy'n nodi bod profion sgrinio'r coluddion yn cael eu cynnig bob dwy flynedd i bobl rhwng 50 a 74 oed sydd wedi cofrestru gyda meddyg teulu yng Nghymru.

Gwnaethon hefyd ganfod bod rhywfaint o'r wybodaeth a oedd yn cael ei harddangos ar y sgrin yn cysylltu â gwefannau penodol i Loegr ac yn cynnwys gwybodaeth wedi dyddio am COVID-19. Roedd y cynnwys a welwyd ar y sgrin yn yr ystafell aros yn ystod y cyfnod a adolygwyd gan yr arolygwyr yn uniaith Saesneg. Yn dilyn hynny, cadarnhaodd y practis wrthym fod rhywfaint o ddeunydd Cymraeg i'w weld fel rhan o'r rôl teledu ehangach.

Dylai'r practis wneud y canlynol:

- **Sicrhau bod y wybodaeth berthnasol i gleifion a gaiff ei harddangos ar y sgrin yn yr ystafell aros yn gyfredol, yn berthnasol i Gymru a bod gwybodaeth ddwyieithog ar gael yn ddigon aml a'i bod yn ddigon amlwg**
- **Dileu neu ddiweddarau unrhyw wybodaeth am COVID-19 sydd wedi dyddio yn ogystal â dolenni i adnoddau penodol i Loegr lle nad yw'r rhain yn berthnasol**

i gleifion yng Nghymru.

Gwnaethon edrych ar y defnydd o godau QR ar y posteri a oedd yn cael eu harddangos yn yr ystafell aros. Roedd y codau QR ar boster Hywel Dda yn gweithio'n gywir ac yn cysylltu â'r wybodaeth a fwriadwyd. Fodd bynnag, nid oedd y rhan fwyaf o'r codau QR ar y poster mawr a oedd yn cael ei arddangos wrth ymyl y dderbynfa yn gweithio. Roedd hyn yn cyfyngu ar effeithiolrwydd y poster fel adnodd hybu iechyd a gallai atal cleifion rhag cael gafael ar wybodaeth neu gymorth perthnasol.

Roedd gan y practis brosesau ar waith i sicrhau bod pobl hŷn a chleifion nad oeddent yn defnyddio gwasanaethau digidol yn gallu defnyddio'i wasanaethau. Gallai'r cleifion ddod i'r dderbynfa, cysylltu â'r practis dros y ffôn, a defnyddio'r wybodaeth a oedd yn cael ei harddangos yn yr ystafell aros. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd y wybodaeth a oedd ar gael yn yr ystafell aros yn adlewyrchu'n llawn y wybodaeth gynhwysfawr ar wefan y practis.

Dylai'r practis wneud y canlynol:

- **gwirio pob cod QR a dolen sy'n cael eu harddangos ar bosteri yn yr ystafell aros a diweddarau neu newid unrhyw ddolenni sydd wedi torri er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio'n gywir**
- **sicrhau bod ystod resymol o wybodaeth berthnasol ar gael i'r cleifion yn yr ystafell aros, yn enwedig y rhai nad ydynt yn gallu cael gafael ar wybodaeth drwy wefan y practis.**

Roedd gan y practis drefniadau ar waith i hyrwyddo rhaglenni brechu tymhorol. Dywedodd staff wrthym fod gan y practis arweinydd enwebedig ar gyfer brechiadau. Cysylltwyd â chleifion cymwys drwy amrywiaeth o ddulliau, gan gynnwys llythyrau a anfonwyd gan y bwrdd iechyd, negeseuon testun, hysbysiadau gwrthio drwy ap symudol y feddygfa, a llythyrau dilynol at gleifion nad oeddent wedi ymateb. Roedd hyn yn gadarnhaol gan ei fod yn helpu i sicrhau bod pobl hŷn a chleifion nad oeddent yn defnyddio gwasanaethau digidol yn cael gwybod am gyfleoedd i gael eu brechu.

Roedd y practis a'r clwstwr ehangach yn gweithio gydag amrywiaeth o wasanaethau i wella mynediad, atal clefydau a hybu iechyd. Roedd y rhain yn cynnwys rhaglenni sgrinio iechyd y cyhoedd, rhaglenni brechu rhag y ffliw, COVID-19, y feirws syncytiol anadlol a'r eryr, Sefydliad Jac Lewis, gwasanaethau presgripsiynu cymdeithasol, cymorth fferyllfa'r clwstwr, ffisiotherapi drwy Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, gwasanaethau iechyd meddwl Mind a chymorth i bobl eiddil. Roedd y practis hefyd yn ariannu ac yn cyflogi dwy nyrs eiddilwch a gofal lliniarol i gefnogi cleifion hŷn a chleifion sy'n gaeth i'w cartrefi a chartrefi gofal lleol. Dywedodd y staff wrthym fod peiriant sbirometreg wedi cael ei brynu er mwyn dod â phrofion sbirometreg yn ôl i'r practis, gyda chymorth nyrs anadlol y practis.

Dywedodd y staff wrthym fod proses ar waith i ymdrin â chleifion nad oeddent yn

mynychu apwyntiadau, a bod y practis yn monitro achosion lle nad oedd cleifion wedi mynychu apwyntiadau ysbyty.

Gofal urddasol a pharchus

Gwelsom fod gan y practis drefniadau addas ar waith i gefnogi urddas, preifatrwydd a chyfrinachedd y cleifion.

Roedd yr ystafelloedd clinigol yn cynnig lefelau priodol o breifatrwydd i'r cleifion. Roedd drysau'n cael eu cadw ar gau yn ystod ymgynghoriadau, roedd llenni preifatrwydd ar gael yn yr ystafelloedd archwilio, ac roedd gorchuddion priodol ar y ffenestri allanol. Roedd yr ystafelloedd clinigol hefyd wedi'u lleoli ar wahân i'r dderbynfa a'r ardal aros, a oedd yn helpu i leihau'r risg y gallai sgysiau gael eu clywed gan eraill ac yn helpu i gynnal cyfrinachedd y cleifion.

Roedd y practis wedi cymryd camau i sicrhau cyfrinachedd galwadau ffôn yn y dderbynfa. Roedd ffonau'n cael eu hateb i ffwrdd o'r brif dderbynfa, a oedd yn helpu i atal cleifion yn yr ardal aros rhag clywed trafodaethau cyfrinachol. Roedd hyn yn dangos agwedd gadarnhaol at ddiogelu preifatrwydd cleifion.

Roedd y practis yn cynnig hebryngwyr gwrywaidd a benywaidd. Roedd gwybodaeth am y gwasanaeth hebryngwyr wedi'i hysbysebu'n glir i'r cleifion mewn modd hygyrch. Roedd polisi hebryngwyr cyfredol ar gael yn y practis hefyd. Dywedodd y staff wrthym fod hyfforddiant i hebryngwyr yn cael ei gwblhau'n fewnol, ac roedd cofnodion a oedd yn ymwneud â hebryngwyr wedi'u cynnwys ym matrices hyfforddiant y practis. Fodd bynnag, nid oedd y dystiolaeth a welsom yn rhoi sicrwydd cyson bod pob aelod perthnasol o'r staff a oedd yn gweithredu fel hebryngwyr wedi cwblhau hyfforddiant priodol.

Dylai'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff sy'n gweithredu fel hebryngwyr yn cael hyfforddiant priodol, a bod y broses o gwblhau'r hyfforddiant hwn yn cael ei chofnodi a'i monitro, a bod yr hyfforddiant yn cael ei adnewyddu ar adegau addas.

Gwnaethom edrych ar ddetholiad o gofnodion cleifion a chanfod bod y clinigwyr yn cofnodi cydsyniad llafar ar gyfer archwiliadau personol. Roedd y cofnodion hefyd yn dogfennu a oedd hebryngwr wedi cael ei gynnig a pha un a oedd y claf wedi derbyn neu wrthod hyn.

Amserol

Gofal amserol

Dywedodd staff y practis wrthym fod ystod o brosesau ar waith i gefnogi'r cleifion i gael gofal drwy lwybr priodol a chyda aelod priodol o'r tîm. Roedd gwybodaeth am yr opsiynau o ran apwyntiadau a'r gwasanaethau sydd ar gael wedi'i nodi'n glir ar wefan y

practis, ac roedd yn darparu canllawiau defnyddiol i'r cleifion ynghylch sut i gael gofal a chynghor. Fodd bynnag, nid oedd llawer o wybodaeth ar gael yn yr ardal aros.

Roedd y practis yn casglu adborth gan gleifion drwy arolwg cleifion blynyddol, ac roedd y canlyniadau'n cael eu cyhoeddi ar ei wefan. Cafwyd cyfanswm o 265 o ymatebion. Dywedodd y staff wrthym fod yr arolwg yn cael ei hysbysebu drwy'r cyfryngau cymdeithasol, gwefan y practis a chopïau papur, a oedd yn helpu i gynnwys cleifion nad oedd ganddynt ddyfeisiau digidol. Gwelsom fod y wefan yn cynnwys dolen cwynion a phryderon a thudalen "Dywedoch chi, gwnaethom ni".

Roedd y practis yn cynnig llwybrau i gleifion roi sylwadau neu adborth, gan gynnwys cyfeiriad e-bost cyffredinol ar gyfer y practis a ffurflen sylwadau neu werthfawrogiad. Fodd bynnag, nid oeddent yn cael eu hyrwyddo'n glir yn yr ardal aros fel dull cyffredinol o roi adborth neu wneud awgrymiadau. Ni welodd yr arolygwyr flwch adborth neu awgrymiadau penodol. Ni welsom wybodaeth 'Dywedoch chi, gwnaethom ni' wrth i ni edrych ar y wybodaeth a oedd yn cael ei harddangos ar y teledu yn yr ystafell aros. Yn dilyn hynny, cadarnhaodd y practis fod y wybodaeth hon i'w gweld fel rhan o'r rîl teledu ehangach.

Dylai'r practis wella gwelededd a hygyrchedd ei drefniadau adborth presennol drwy hyrwyddo sut y gall cleifion roi adborth neu awgrymiadau cyffredinol yn glir, ystyried a oes angen system hygyrch ychwanegol yn yr ardal aros, a sicrhau bod y wybodaeth 'Dywedoch chi, gwnaethom ni' yn ddigon amlwg ac yn cael ei gweld yn rheolaidd gan gleifion.

Dywedodd y staff wrthym fod mesurau wedi'u cymryd i wella'r gallu i gael gofal, gan gynnwys recriwtio staff ychwanegol ac awydd i gymryd rhan mewn gwasanaeth oriau estynedig. Roedd oriau agor estynedig mewn meddygfa gangen leol hefyd wedi'u cynyddu er mwyn cefnogi capasiti ar draws y bartneriaeth. Roedd data gweithgarwch y practis dros sawl mis yn dangos lefel wael o ran ateb galwadau, er nad oedd unrhyw alwadau'n aros ar adeg yr arolygiad. Gwnaethom nodi bod nifer y galwadau lle roedd cleifion yn rhoi'r gorau i aros yn uchel; fodd bynnag, roedd ansicrwydd ynghylch a oedd y data hyn yn cynnwys cleifion a oedd yn dewis opsiynau i ofyn am alwad yn ôl yn hytrach nag aros ar y llinell.

Dylai'r practis adolygu'r ffordd y caiff data am alwadau ffôn eu casglu a'u dehongli er mwyn sicrhau bod ganddo ddealltwriaeth gywir o allu cleifion i gysylltu â'r practis dros y ffôn a'u profiad o wneud hynny.

Roedd gan staff y dderbynfa a'r swyddogion llywio gofal lwybrau clir i'w dilyn er mwyn helpu cleifion i ddefnyddio'r gwasanaeth cywir. Gwelsom y llwybr llywio gofal, ac roedd y protocol ar gyfer cyfeirio cleifion yn y dderbynfa a dyrannu apwyntiadau ar gael. Dywedodd y staff wrthym fod hyfforddiant llywio gofal a gydnabyddir yn genedlaethol yn cael ei gwblhau fel rhan o'r broses sefydlu. Roedd cyfleoedd hefyd i'r staff anghlinigol siarad â'r staff clinigol pe baent yn ansicr ynglŷn â'r opsiwn mwyaf priodol i glaf. Nid

oedd y swyddogion llywio gofal yn ymgymryd â brysbennu clinigol. Yn dilyn yr arolygiad, darparodd y practis dystiolaeth o system Cyfeillion Clinigol, y gallai staff y dderbynfa a'r staff llywio gofal ei defnyddio i gael cyngor clinigol i gefnogi penderfyniadau cyfeirio a llwybro priodol. Pe bai angen mewnbwn clinigol ar glaf, roedd yn cael ei ychwanegu at restr glinigol a byddai'r meddygon teulu yn brysbennu eu rhestrau eu hunain.

Dywedodd y staff wrthym y byddai cleifion agored i niwed, gan gynnwys pobl hŷn eiddil, plant, oedolion sy'n wynebu risg a chleifion ag anawsterau gwybyddol neu gyfathrebu, yn cael cynnig apwyntiad yn uniongyrchol lle bo angen. Roedd rhybudd naid ar y system glinigol yn cael ei ddefnyddio i nodi cleifion agored i niwed. Roedd pobl hŷn a chleifion heb ddyfeisiau digidol yn gallu cysylltu â'r practis dros y ffôn neu ddod i'r feddygfa i drefnu apwyntiad addas.

Roedd y practis yn gweithredu model “brysbennu yn gyntaf” yn bennaf. Dywedodd y staff wrthym fod dau neu dri meddyg teulu fel arfer yn gweithio ar draws tri safle'r practis, yn dibynnu ar ba safleoedd oedd ar agor ar y diwrnod. Dywedwyd wrthym fod y nifer hwn yn cynyddu yn dilyn recriwtio meddygon teulu yn llwyddiannus, gyda chymorth ychwanegol gan Uwch-ymarferwyr Nyrsio a'r tîm amlddisgyblaethol ehangach. Roedd apwyntiadau y gellid eu trefnu ymlaen llaw ar gael, a gallai'r cleifion ofyn am adolygiad wyneb yn wyneb ar gyfer yr apwyntiadau hyn. Ar gyfer ceisiadau brys neu geisiadau am apwyntiad ar yr un diwrnod, roedd galwadau'n cael eu trafod â meddyg teulu neu Uwch-ymarferydd Nyrsio, gyda'r gallu i drefnu apwyntiad wyneb yn wyneb pan oedd angen. Dywedodd y staff wrthym fod dewis y claf yn cael ei ystyried ochr yn ochr â'r angen clinigol, fodd bynnag roedd y dystiolaeth a welsom yn awgrymu bod y rhan fwyaf o gysylltiadau â meddygon teulu yn digwydd dros y ffôn.

Roedd trefniadau ar waith yn y practis i helpu cleifion a oedd yn cyflwyno ag iechyd meddwl gwael neu mewn argyfwng iechyd meddwl. Gallai cleifion gysylltu â'r practis dros y ffôn neu ar-lein, yn unol â brys eu hanghenion a'u dewis. Dywedodd y staff clinigol wrthym fod y penderfyniad i weld claf wyneb yn wyneb yn seiliedig ar angen clinigol. Lle roedd angen atgyfeirio at wasanaethau iechyd meddwl eilaidd, dywedodd y staff wrthym mai'r meddyg teulu neu'r clinigydd oedd yn gwneud yr atgyfeiriad ac yn trefnu gofal dilynol yn unol â'r pryder clinigol. Pan oedd cleifion yn aros i gael eu derbyn neu i gael triniaeth gan wasanaethau gofal eilaidd, dywedodd y staff wrthym eu bod yn cael eu cyfeirio at wasanaethau cymorth eraill ac yn cael eu cynghori i gysylltu â'r practis pe bai eu cyflwr yn newid neu'n gwaethygu. Roedd y practis hefyd yn defnyddio amrywiaeth o wasanaethau cymorth iechyd meddwl y bwrdd iechyd a'r trydydd sector yn unol ag anghenion a dewis y claf.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Roedd y practis yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i gyfleu gwybodaeth am y gwasanaethau roedd yn eu cynnig i gleifion. Roedd gwybodaeth yn cael ei darparu drwy wefan y practis, llwyfannau cyfryngau cymdeithasol, ap symudol y feddygfa, a phosteri a oedd yn cael eu harddangos yn yr ardal aros. Roedd newidiadau pwysig i'r practis yn cael eu cyfleu drwy faneri ar y wefan, diweddariadau ar y cyfryngau cymdeithasol, ap y feddygfa a phosteri yn yr ystafell aros.

Yn achos cleifion hŷn neu gleifion heb ddyfeisiau digidol, roedd gwybodaeth am wasanaethau a newidiadau i'r practis yn cael ei chyfleu'n bennaf drwy bosteri yn yr ardal aros. Dywedodd y staff wrthym fod llythyrau'n cael eu hanfon at gleifion sy'n gaeth i'w cartrefi, a bod y nyrsys gofal lliniarol ac eiddilwch sy'n gweithio yn y gymuned hefyd yn rhannu gwybodaeth berthnasol gyda'r cleifion yn ystod eu hymweliadau.

Roedd polisi cydsyniad cleifion cyfredol ar gael yn y practis. Roedd galwadau ffôn yn cael eu recordio, ac roedd y cleifion yn cael gwybod am hyn drwy neges awtomatig wrth ffonio'r practis. Dywedodd y staff wrthym fod recordiadau o alwadau yn cael eu storio'n ddiogel yn y cwmwl, gyda diogelwch cyfrinair i leihau'r risg o fynediad heb awdurdod.

Roedd gan y practis drefniadau ar waith i ddiwallu anghenion cleifion Cymraeg eu hiaith. Roedd y staff yn ymwybodol o'r Cynnig Rhagweithiol, ac yn cael eu cefnogi i'w gyflawni. Roedd y staff yn deall pwysigrwydd cyfathrebu â'r cleifion yn eu dewis iaith mewn lleoliad gofal iechyd. Roedd hyfforddiant Cymraeg ar gael drwy'r bwrdd iechyd, ac roedd gofynion iaith yn cael eu hystyried wrth recriwtio a chynllunio'r gweithlu, gan gynnwys yr opsiwn i gynnal cyfweliadau yn y Gymraeg. Gwelsom fod arwyddion a phosteri dwyieithog ar gael yn y practis. Gwelsom hefyd staff yn gwisgo bathodynau iaith Gwaith er mwyn dangos i gleifion, staff ac ymwelwyr eu bod yn siarad Cymraeg.

Hawliau a chydaddoldeb

Gwelsom fod y practis yn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy bolisi cydraddoldeb cyfredol. Roedd adnoddau hyfforddiant perthnasol ar gael i'r staff, gan gynnwys y rhaglen Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, "Trin Fi'n Deg". Roedd y practis yn cadw matrices hyfforddiant ac roedd llawer o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth. Fodd bynnag, yn y sampl a welwyd, nodwyd bod hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth rhai aelodau o'r staff yn anghyflawn neu fod angen ei ddiweddarau. Nid oedd tystiolaeth o hyfforddiant ymwybyddiaeth o awtistiaeth i'w gweld yn y cofnodion a oedd yn rhan o'r sampl, ac nid oedd hyfforddiant anabledau dysgu wedi cael ei gynnwys fel rhan gyson o raglen hyfforddiant y practis.

Dylai'r practis adolygu'r hyfforddiant hawliau a chydraddoldeb sydd ei angen ar gyfer pob grŵp staff, sicrhau y caiff hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth, hyfforddiant ymwybyddiaeth o awtistiaeth a hyfforddiant anabledau dysgu perthnasol eu cwblhau, a chadw cofnodion cywir at ddibenion monitro ac adnewyddu.

Roedd gan y practis fesurau ar waith i sicrhau hygrychedd i gleifion. Roedd ramp ar gyfer cadeiriau olwyn ar gael yng nghefn yr adeilad i ddarparu mynediad i ystafell drin. Roedd gan y practis hefyd ardal newid cewynnau, toiled i bobl anabl, dolen sain a darpariaeth gwasanaethau cyfieithu. Fodd bynnag, gwnaethom nodi rhai meysydd lle gellid gwella hygrychedd. Nid oedd drws y fynedfa flaen yn awtomatig, a allai ei gwneud hi'n anos i gleifion sy'n defnyddio cadair olwyn, cleifion â symudedd cyfyngedig, neu gleifion â phlant mewn cadeiriau gwthio, ddod i mewn i'r adeilad. Gallai staff y dderbynfa weld y fynedfa, a dywedodd y practis wrthym fod y staff yn rhoi cymorth i gleifion pan fyddai angen. Fodd bynnag, gallai fod angen i'r staff roi cymorth i rai cleifion o hyd i ddod i mewn i'r adeilad. Gwelsom hefyd fod y drysau dwbl rhwng yr ystafell aros a'r ystafelloedd ymgynghori yn gul pan mai dim ond un drws oedd ar agor. Roedd angen agor y ddau ddrws i ganiatáu digon o le i gleifion sy'n defnyddio cadair olwyn, cymhorthion cerdded neu faglau fynd drwodd yn ddiogel ac yn gyfforddus.

Dylai'r practis adolygu hygrychedd ffisegol y safle er mwyn nodi rhwystrau ac ymdrin â nhw, er mwyn gwella hygrychedd i bob claf.

Nid oedd cloch alw mewn argyfwng wedi'i gosod yn y toiled i bobl anabl. Ymdriniwyd â hyn o dan ein proses sicrwydd ar unwaith, fel y disgrifir yn [Atodiad B](#).

Disgrifiodd y staff enghreifftiau o addasiadau rhesymol a wnaed ar gyfer cleifion yr oedd arnynt eu hangen. Roedd cleifion ag anabledau dysgu yn cael cynnig apwyntiadau dwbl er mwyn caniatáu amser ychwanegol. Dywedodd y staff wrthym hefyd y gellid cynnig apwyntiadau i gleifion niwroamrywiol ar adegau tawelach, pe bai hynny'n diwallu eu hanghenion yn well.

Roedd trefniadau ar waith yn y practis i gynnal hawliau cleifion trawsryweddol. Dywedodd y staff wrthym fod y practis wedi cofrestru i ddarparu gwasanaethau ychwanegol i gleifion trawsryweddol. Roedd rhagenwau a ffefrir yn cael eu cofnodi ar y system glinigol, a disgrifiodd y staff ddull gweithredu a oedd yn seiliedig ar urddas a pharch.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli risg

Roedd safle'r practis, gan gynnwys yr ystafelloedd clinigol, yn lân ac yn daclus, ac nid oedd unrhyw annibendod. Yn gyffredinol, roedd yr adeilad mewn cyflwr da. Fodd bynnag, roedd golwg ddi-raen ar rywfaent o'r gwaith paent ac roedd angen ei adnewyddu. Gwnaethom hefyd ddod o hyd i sgrîw yn ymwthio allan drwy'r teils uwchben y sinc yn y toiled i ddynion wrth ymyl yr ardal aros.

Dylai'r practis wneud y canlynol:

- **anelu at adnewyddu gwaith paent sydd â golwg ddi-raen arno ar y safle lle bo angen**
- **tynnu'r sgrîw sy'n ymwthio allan uwchben y sinc yn y toiled i ddynion ger yr ardal aros, neu ei gwneud yn ddiogel**

Roedd gan y practis Gynllun Parhad Busnes cyfredol ar waith, a oedd ar gael i bob aelod o'r staff. Roedd y cynllun yn ymdrin yn ddigonol â risgiau partneriaeth busnes ac yn cynnwys trefniadau ar gyfer ymateb i argyfwng iechyd sylweddol.

Roedd y tîm rheoli yn ymwybodol o'r fframwaith cynaliadwyedd a'r lefelau uwchgyfeirio cysylltiedig. Dywedodd y staff wrthym fod rheolwr y practis yn cwblhau'r camau gweithredu cysylltiedig ac yn cael y negeseuon e-bost perthnasol, a bod y tîm uwch-reolwyr hefyd yn gallu eu gweld.

Roedd gan y practis aelod penodedig o staff a oedd yn gyfrifol am dderbyn rhybuddion diogelwch cleifion. Gallai sawl aelod o'r staff ddefnyddio'r system rhybuddion, a oedd yn sicrhau bod rhywun ar gael i ymdrin â'r rhybuddion yn achos absenoldeb ac yn lleihau'r risg y byddai rhybuddion yn cael eu methu.

Roedd gan y practis drefniadau ar waith i adolygu a thrafod digwyddiadau o bwys, gan gynnwys digwyddiadau diogelwch cleifion. Roedd y broses ar gyfer digwyddiadau o bwys yn cofnodi'r gwersi a nodwyd, y camau gweithredu a'r unigolion cyfrifol. Fodd bynnag, nid oedd yn cynnwys adolygiad diweddarach wedi'i ddogfennu i gadarnhau bod y camau gweithredu wedi cael eu cwblhau a bod y gwelliannau a nodwyd wedi cael eu rhoi ar waith a'u hymgorffori.

Dylai'r practis atgyfnerthu ei broses bresennol ar gyfer digwyddiadau o bwys drwy gyflwyno adolygiad dilynol wedi'i ddogfennu i gadarnhau bod y camau gweithredu y cytunwyd arnynt wedi cael eu cwblhau a bod y gwelliannau a nodwyd wedi cael eu rhoi ar waith a'u hymgorffori.

Roedd gan y practis raglen sefydlu ar waith ar gyfer staff newydd a staff locwm. Roedd

mecanwaith hefyd i'r staff gael cymorth brys yn y practis pe bai angen. Roedd y staff yn gwybod ble i ddod o hyd i gyffuriau a chyfarpar brys a sut i gael mynediad i'r ardal lle'r oeddent yn cael eu storio. Roedd gan y practis hefyd asesiad risg cyfredol yn ymwneud ag ymweliadau â chartrefi.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd gan y practis arweinydd atal a rheoli heintiau penodedig. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau mewn perthynas â chynnal safonau atal a rheoli heintiau. Roedd gan y practis Bolisi Atal a Rheoli Heintiau penodol i'r safle, polisi cyfredol ar gyfer firysau a gludir yn y gwaed a pholisi cyfredol ar gyfer nodwyddau ac offer miniog.

Roedd gan y practis weithdrefnau rheoli gwastraff priodol, gan gynnwys polisi rheoli gwastraff a oedd yn cwmpasu gwaredu, cludo a chasglu gwastraff gofal iechyd yn ddiogel.

Gwelsom fod sebon a gel dwylo ar gael, a bod modd sychu'r gwelyau a'r cyfarpar clinigol. Roedd llenni tafladwy yn cael eu defnyddio, roedd dyddiad arnynt, ac roeddent yn lân yr olwg. Fodd bynnag, nid oedd tapiau y gellir eu gweithredu â'r penelin ar gael ym mhob ystafell glinigol. Gwnaethom hefyd ddod o hyd i blygiau mewn sinciau golchi dwylo.

Rhaid i'r practis wneud y canlynol:

- **adolygu a diweddarau'r cyfleusterau golchi dwylo o fewn amserlen resymol a, lle y bo'n ymarferol, sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau atal heintiau presennol**
- **cael gwared ar unrhyw blygiau er mwyn sicrhau eu bod yn gweithredu fel sinciau hylendid dwylo pwrpasol.**

Roedd amserlenni glanhau ar gael ar gyfer pob rhan o'r practis. Fodd bynnag, ni welsom unrhyw restrau gwirio wedi'u llofnodi i gadarnhau pryd roedd y gwaith glanhau wedi'i gwblhau.

Dylai'r practis gyflwyno rhestrau gwirio glanhau wedi'u llofnodi er mwyn rhoi sicrwydd bod y gwaith glanhau'n cael ei gwblhau'n gyson ac yn unol â'r amserlen.

Ni chafodd y tîm arolygu gopi o archwiliad atal a rheoli heintiau wedi'i gwblhau yn ystod yr arolygiad na chyfle i edrych ar archwiliad o'r fath. Wedi hynny, darparodd y practis archwiliad wedi'i ddyddio a'i llofnodi ar 25 Mai 2026, gan gadarnhau bod archwiliad wedi cael ei gwblhau cyn yr arolygiad.

Roedd pob aelod perthnasol o'r staff clinigol perthnasol wedi cael ei imiweiddio rhag Hepatitis B. Roedd posterï ynghylch anafiadau a achosir gan nodwydd wedi'u

harddangos yn yr ystafelloedd ymgynghori a thrin, gan roi canllawiau cyfyngedig i'r staff pe bai rhywun yn cael anaf offer miniog.

Dylai'r practis ddiweddarau'r posteri ar anafiadau a achosir gan nodwydd er mwyn cynnwys pwy y dylai staff roi gwybod iddynt am ddigwyddiadau a ble y dylent fynd i gael cyngor neu driniaeth frys, gan gynnwys rhifau ffôn a chyfeiriadau perthnasol, megis yr adran achosion brys leol.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd gan y practis drefniadau ar waith i gefnogi'r broses o reoli meddyginiaethau a phresgripsiynu'n ddiogel. Roedd padiau presgripsiynau yn cael eu storio'n ddiogel. Roedd llwybr archwilio ar waith ar gyfer padiau presgripsiwn, gan gynnwys cofnodion i dangos pryd roeddent yn cael eu casglu a chan bwy. Fodd bynnag, nid oedd y practis yn cadw cofnodlyfr ar gyfer bocsys o ffurflenni presgripsiwn.

Dylai'r practis gyflwyno cofnodlyfr ar gyfer bocsys o ffurflenni presgripsiwn er mwyn darparu llwybr archwilio clir a chryfhau diogelwch presgripsiynau.

Roedd gan y practis bolisi presgripsiynu cyfredol yn ogystal â phroses ar waith i reoli presgripsiynau rheolaidd. Fodd bynnag, wrth adolygu mwy nag 20 o gofnodion cleifion, ni allem ddod o hyd i dystiolaeth o adolygiadau o feddyginiaethau ffurfiol diweddar, er bod llawer o gleifion yn cael sawl math o feddyginiaeth ar bresgripsiwn.

Dylai'r practis sicrhau y caiff adolygiadau ffurfiol o feddyginiaethau eu cynnal ar adegau rheolaidd a'u dogfennu'n glir, yn enwedig ar gyfer cleifion sy'n cymryd sawl math gwahanol o feddyginiaeth neu gleifion ag anghenion iechyd cymhleth.

Dywedodd y staff wrthym fod y gadwyn oer ar gyfer brechlynnau ac imiwneiddiadau'n cael ei chynnal, ac roedd y cofnodion a welsom yn nodi hyn hefyd. Roedd gan y practis un oergell bwrpasol ar gyfer brechlynnau, a oedd wedi'i chloi ac yn destun monitro tymheredd dyddiol a chalibradu blyneddol. Fodd bynnag, gwelsom fod sampl wrin yn cael ei storio ar silff ganol yn yr oergell ar gyfer brechlynnau, a bod yr oergell yn orlawn ac yn anhrefnus, gyda brechlynnau a chyffuriau wedi'u storio ar y silff waelod. Nid oedd hyn yn cyd-fynd â Pholisi Storio Meddyginiaethau a Chadwyn Oer y practis. Ymdriniwyd â'r materion hyn yn ystod yr arolygiad, fel y disgrifir yn [Atodiad A](#).

Dylai'r practis ystyried a oes angen oergell ychwanegol i gefnogi trefniadau storio diogel, yn enwedig lle gallai gorlenwi rwystro ffan yr oergell ac effeithio ar y gallu i reoli'r tymheredd.

Roedd gan y practis broses ar waith ar gyfer gwirio cyffuriau, ac roedd y gwiriadau'n cael eu cofnodi mewn cofnodlyfr. Roedd y rhan fwyaf o'r cyffuriau a welsom yn gyfredol. Fodd bynnag, ni welsom thermomedr ystafell er mwyn monitro'r tymhereddau storio amgylchynol.

Dylai'r practis gynnal a chofnodi gwiriadau o dymheredd amgylchynol yr ystafell er mwyn sicrhau bod meddyginiaethau'n cael eu storio o dan yr amodau a argymhellir.

Roedd gan y practis broses ar waith ar gyfer gwirio'r cyffuriau a'r cyfarpar brys, gan gynnwys y diffibriliwr allanol awtomataidd. Fodd bynnag, gwelsom fod rhai eitemau cyfarpar brys a meddyginiaethau yr oedd eu dyddiad defnyddio wedi mynd heibio. Ymdriniwyd â hyn o dan ein proses sicrwydd ar unwaith, fel y disgrifir yn [Atodiad B](#).

Gwelsom ddau silindr ocsigen yn y practis: silindr ocsigen mawr nad oedd wedi'i osod yn sownd a silindr ocsigen falf integredig BOC CD. Nid oedd y silindr mawr wedi'i osod yn sownd, a oedd yn peri risg y byddai'n cwmpo drosodd. Nid oedd y staff wedi cael hyfforddiant chwaith ar sut i ddefnyddio silindr ocsigen falf integredig BOC CD.

Dylai'r practis wneud y canlynol:

- **gosod y silindr ocsigen mawr yn sownd i'w atal rhag cwmpo drosodd**
- **sicrhau bod yr aelodau perthnasol o'r staff yn cwblhau hyfforddiant ar-lein priodol ar sut i ddefnyddio silindr ocsigen falf integredig BOC CD.**

Roedd diffibriliwr ar gael ac yn barod i'w ddefnyddio. Fodd bynnag, nodwyd gennym fod cyfarpar a meddyginiaethau brys yn cael eu storio mewn ystafell nyrsio glinigol a ddefnyddir yn aml, ac a oedd hefyd yn cael ei defnyddio ar gyfer archwiliadau personol. Gallai'r trefniant hwn achosi oedi wrth gael gafael ar gyfarpar brys a pheryglu urddas y cleifion. Ymdriniwyd â'r mater hwn o dan y broses sicrwydd ar unwaith, fel y disgrifir yn [Atodiad B](#).

Nid oedd y practis yn cadw cyffuriau a reolir ar y safle.

Diogelu plant ac oedolion

Roedd gan y practis arweinydd diogelu enwebedig, a chadarnhaodd y staff eu bod yn gwybod pwy oedd yr unigolyn hwn. Roedd gan y practis bolisiâu diogelu cyfredol ar gyfer oedolion ac ar gyfer plant a phobl ifanc. Fodd bynnag, nid oedd y polisi diogelu ar gyfer oedolion yn cynnwys prosesau digon manwl i arwain y staff ynghylch pryd i wneud atgyfeiriad, at bwy y dylid atgyfeirio, na sut i geisio cyngor priodol. Nid oedd y polisi ar gyfer plant a phobl ifanc yn cynnwys gwybodaeth gyswllt hanfodol chwaith a dylid ei ddiweddarau i adlewyrchu llwybrau diogelu lleol.

Rhaid i'r practis sicrhau bod y polisiâu diogelu yn cael eu diwygio er mwyn cynnwys prosesau atgyfeirio clir, llwybrau uwchgyfeirio, llwybrau diogelu lleol a gwybodaeth gyswllt hanfodol.

Gwelsom dystiolaeth bod achosion amddiffyn plant yn cael eu codio'n glinigol. Fodd bynnag, gwelsom fod nifer o gleifion sy'n oedolion yn parhau i fod wedi'u cofnodi ar y

gofrestr amddiffyn plant ac nad oeddent wedi cael eu dileu ar ôl i'w hamgylchiadau newid.

Dylai'r practis gyflwyno proses ffurfiol i adolygu codau amddiffyn plant yn rheolaidd, diweddar cofnodion yn briodol a chymhwyso cod clinigol penodol i nodi pan fydd marciwr amddiffyn plant wedi'i ddileu.

Roedd codau clinigol priodol yn cael eu defnyddio ar gyfer plant sy'n wynebu risg a phlant sy'n derbyn gofal. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd y polisi diogelu yn cynnwys cod perthnasol ar gyfer aelod o'r teulu.

Dylai'r practis ddiweddar'u polisi er mwyn cynnwys canllawiau codio diogelu perthnasol, gan gynnwys codio ar gyfer aelodau o'r teulu lle y bo'n briodol.

Roedd gan y practis broses ar waith i fonitro presenoldeb mewn adrannau damweiniau ac achosion brys ac apwyntiadau a gollwyd dro ar ôl tro, gan gynnwys achosion lle nad oedd unigolyn yn mynychu apwyntiad neu le na ddaethpwyd â'r unigolyn i apwyntiad. Fodd bynnag, dylid ychwanegu'r disgrifiad o'r broses hon at y polisi llif gwaith newydd a argymhellwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, er mwyn sicrhau bod gan y staff ganllawiau clir a chyson ynghylch sut mae'r pryderon hyn yn cael eu nodi, eu huwchgyfeirio a sut mae gweithredu arnynt.

Gwelsom dystiolaeth o waith amlasiantaethol ac amlbroffesiynol i gefnogi prosesau diogelu. Roedd hyn yn cynnwys cyfarfodydd tîm amlldisgyblaethol rheolaidd, a oedd yn rhoi cyfleoedd i rannu gwybodaeth, trafod pryderon a chydgysylltu cymorth i gleifion sy'n wynebu risg.

Gwnaethom edrych ar gofnodion hyfforddiant y staff a gwelsom dystiolaeth bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant diogelu ar lefel briodol i'w rôl.

Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol

Roedd rhai prosesau ar waith yn y practis i helpu i ddefnyddio a rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol yn ddiogel. Dywedodd y staff wrthym fod y practis yn defnyddio cyfarpar untro lle bynnag y bo'n bosibl ac nad oedd yn defnyddio cyfarpar amlldro.

Roedd gan y practis gontractau ar waith ar gyfer gwasanaethu a chynnal a chadw dyfeisiau a chyfarpar meddygol. Roedd y cofnodion yn dangos bod gwaith gwasanaethu wedi'i gwblhau'n fwyaf diweddar ym mis Mawrth 2026. Roedd y dyfeisiau a'r cyfarpar meddygol a welsom yn ystod yr arolygiad yn ymddangos yn lân, mewn cyflwr da ac yn gweithio'n iawn. Dywedodd y staff wrthym fod y cyfrifoldeb am wirio dyfeisiau a chyfarpar meddygol yn cael ei rannu, a bod y staff yn gwirio eitemau wrth iddynt gael eu defnyddio. Fodd bynnag, ni welsom unrhyw gofnodion ffurfiol yn dogfennu bod y gwiriadau hyn wedi'u cwblhau.

Dylai'r practis gynnal cofnod ffurfiol o wiriadau ar ddyfeisiau a chyfarpar meddygol.

Yn ystod yr arolygiad, daethpwyd o hyd i eitemau mewn ardaloedd clinigol yr oedd eu dyddiad defnyddio wedi mynd heibio ond nad oeddent wedi cael eu gwaredu. Roedd y rhain yn cynnwys poteli casglu gwaed, nodwyddau a swabiau. Mae presenoldeb eitemau y mae eu dyddiad defnyddio wedi mynd heibio yn peri risg bosibl i ddiogelwch cleifion a staff, oherwydd ei bod yn bosibl na fyddai'r eitemau hyn yn effeithiol nac yn ddiogel i'w defnyddio mwyach.

Dylai'r practis adolygu a chryfhau'r system sydd ar waith ar gyfer gwirio a gwaredu eitemau y mae eu dyddiad defnyddio wedi mynd heibio o'r ardaloedd clinigol, er mwyn sicrhau mai dim ond cyfarpar cyfredol a diogel sydd ar gael i'w ddefnyddio.

Effeithiol

Gofal effeithiol

Roedd prosesau cyfathrebu mewnol ar waith i helpu i rannu gwybodaeth mewn modd effeithiol ymhlith staff. Roedd negeseuon anghlinigol yn cael eu rhannu drwy e-bost a thrwy ddefnyddio Microsoft Teams ar gyfer swyddogaethau sgwrsio. Roedd negeseuon clinigol yn cael eu rhannu drwy'r system glinigol ac yn parhau i fod yn weladwy nes iddynt gael eu gweld gan yr aelod perthnasol o'r staff.

Roedd prosesau ar waith yn y practis i reoli gohebiaeth a oedd yn cyrraedd y practis. Roedd llythyrau a oedd yn cyrraedd y practis, boed ar ffurf papur neu ar ffurf electronig, yn cael eu sganio, eu codio a'u hanfon ymlaen i'r staff clinigol eu darllen. Fodd bynnag, ni welsom bolisi llif gwaith a oedd yn nodi'n glir sut y dylid dirprwyo gohebiaeth, pa staff oedd yn gyfrifol am fathau gwahanol o lythyrau, pa lythyrau yr oedd angen i feddyg eu hadolygu, a pha lythyrau y gellid eu ffeilio heb gamau clinigol pellach.

Dylai'r practis ddatblygu polisi llif gwaith ysgrifenedig i gefnogi'r gwaith o reoli gohebiaeth sy'n dod i law mewn modd cyson a diogel.

Roedd proses ar waith ar gyfer rheoli a gweithredu ar wybodaeth a oedd yn dod i law gan ofal eilaidd, gan gynnwys camau gweithredu yn dilyn rhyddhau cleifion o'r ysbyty. Dywedodd y staff wrthym fod y meddygon yn adolygu pob canlyniad prawf ac yn gofyn i'r staff gweinyddol gymryd camau dilynol a chysylltu â chleifion lle bo angen. Fodd bynnag, ni welsom broses ffurfiol i sicrhau bod profion yr oedd angen eu hailadrodd neu eu haildrefnu yn cael eu monitro er mwyn cadarnhau bod apwyntiadau wedi'u trefnu neu fod y profion wedi'u cwblhau.

Dylai'r practis atgyfnerthu a dogfennu ei broses bresennol ar gyfer canlyniadau profion a chamau dilynol er mwyn sicrhau y caiff profion y mae angen eu hailadrodd neu eu haildrefnu eu holrhain i sicrhau bod apwyntiadau wedi'u trefnu a bod y broses wedi'i chwblhau, gan uwchgyfeirio achosion lle na fydd cleifion yn ymateb neu'n mynychu mewn ffordd gymesur.

Ar gyfer cleifion sy'n cael gofal diwedd oes, roedd gan y practis broses ar waith ar gyfer rhoi gwybod am farwolaethau ac roedd yn defnyddio'r gwasanaeth NHS mail i rannu'r wybodaeth hon.

Roedd gan y practis brosesau ar waith i roi gwybod i'r staff am arferion gorau, canllawiau cenedlaethol a diweddariadau proffesiynol. Dywedodd y staff wrthym fod y practis yn cael gwybodaeth newydd ac yna'n ei rhannu ag aelodau perthnasol o'r staff drwy e-bost neu Microsoft Teams. Gellid rhannu gwybodaeth hefyd yn y cyfarfodydd a gynhelir ddwywaith y dydd neu yn ystod y cyfarfod wythnosol. Roedd y practis hefyd yn defnyddio bwrdd hysbysiadau staff i rannu gwybodaeth bwysig.

Roedd gan y practis sawl llwybr ar gyfer cadw i fyny â datblygiadau ehangach ym maes gofal sylfaenol. Roedd y staff yn mynychu cyfarfodydd grŵp rheolwyr practis lleol a chyfarfodydd cydweithredol meddygon teulu, a oedd weithiau'n cynnwys siaradwyr allanol. Roedd y practis hefyd yn aelod o grŵp y Sefydliad Rheoli Practisau Cyffredinol ac yn defnyddio Primary Care IT a grwpiau cyfryngau cymdeithasol rheolwyr practis i rannu a chael gwybodaeth. Dywedodd y staff wrthym eu bod hefyd yn archwilio'r posibilrwydd o ddefnyddio adnoddau deallusrwydd artiffisial.

Roedd proses ar waith yn y practis ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau. Dywedodd y staff wrthym, pan fyddai digwyddiad yn cael ei nodi, y byddai ffurflen yn cael ei chwblhau, yr ymchwilir i'r digwyddiad, ac y byddai'r digwyddiad yn cael ei drafod yn y cyfarfod misol. Roedd canllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) yn cael eu trafod mewn cyfarfod wythnosol pan oedd angen, gan gefnogi ymwybyddiaeth o'r safonau clinigol diweddaraf.

Roedd prosesau ar waith ar gyfer atgyfeiriadau brys, atgyfeiriadau cyffredin ac atgyfeiriadau brys lle'r amheuir achos o ganser. Dywedodd y staff wrthym, pan fyddai atgyfeiriadau brys lle'r amheuir achos o ganser yn cael eu gwneud, y byddai'r staff gweinyddol yn gwirio o fewn pythefnos i gadarnhau bod y cleifion wedi cael cynnig apwyntiad. **Nodwyd bod hyn yn arfer canmoladwy**

Roedd gweithgarwch atgyfeirio yn cael ei adolygu mewn cyfarfodydd rheoli, lle roedd y ffigurau misol yn cael eu cymharu. Lle roedd y cyfraddau atgyfeirio yn ymddangos yn uwch neu'n is na'r disgwyl, roeddent yn cael eu trafod â'r clinigwyr a, lle y bo'n briodol, yn cael eu cyflwyno mewn cyfarfodydd clinigol er mwyn archwilio'r rhesymau posibl.

Roedd meddygon teulu sesiynol a locwm yn cael eu helpu i ddeall prosesau atgyfeirio drwy fframwaith atgyfeirio cenedlaethol, gwybodaeth ym mhecyn sefydlu y staff locwm, a rhaglen sefydlu strwythuredig, gan gynnwys cyfarfod ag aelod o'r tîm uwch-reolwyr.

Roedd trefniadau ar waith yn y practis i adolygu marwolaethau yn y gymuned a'r ysbyty lle roedd elfen gofal sylfaenol. Roedd marwolaethau mewn cartrefi gofal yn cael eu trafod â'r nyrs gofal lliniarol mewn cyfarfodydd wythnosol. Lle'r oedd pryderon yn cael eu nodi, roedd y broses digwyddiadau o bwys yn cael ei dilyn.

Roedd proses glir ar waith ar gyfer trefnu profion a rhoi'r canlyniadau i gleifion. Roedd canlyniadau'n cael eu cyfleu wyneb yn wyneb neu dros y ffôn, gan sicrhau bod cleifion hŷn a'r rhai heb ddyfeisiau digidol yn gallu cael eu canlyniadau. Roedd gan y practis hefyd broses sefydledig ar gyfer mynd ar drywydd canlyniadau profion a'u rhoi i gleifion pan nad oedd y clinigydd a ofynnodd am y profion ar gael.

Roedd gan y practis drefniadau i ymateb yn briodol pan fyddai cleifion yn cysylltu â'r practis i gael gofal mewn argyfwng yn hytrach na ffonio 999. Roedd neges ffôn wedi'i recordio yn hysbysu'r cleifion y dylent ffonio 999 mewn argyfwng meddygol. Dywedodd y staff wrthym hefyd eu bod yn holi'r galwyr am eu symptomau, megis poen yn y frest, a lle nodwyd bod cleifion yn brin o anadl, byddent yn cael eu cynghori i ffonio'r gwasanaethau brys. Roedd y cofnodion hyfforddiant a welsom yn dangos bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant ar adfywio.

Cofnodion cleifion

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion cleifion a gwelsom, ar y cyfan, fod y cofnodion yn glir, yn rhesymegol, a bod modd eu dilyn. Roedd y rhan fwyaf o'r cofnodion yn gyfoes, yn gyfredol ac yn cynnwys codau clinigol priodol, yn enwedig o ystyried y newid diweddar o ran y system glinigol. Ar y cyfan, roedd ansawdd cofnodion y cleifion yn foddhaol, a byddai'r wybodaeth a gofnodwyd yn gyffredinol yn galluogi clinigydd nad oedd yn gyfarwydd â'r practis i ddeall y cofnodion a'u defnyddio'n ddiogel wrth ddarparu gofal. Fodd bynnag, roedd lefel manylder y naratif yn amrywio. Roedd rhai cofnodion yn gryno ac yn brin o gyd-destun, er enghraifft lle gallai fod angen i glinigydd nad yw'n gyfarwydd â'r claf ddeall y rhesymeg y tu ôl i benderfyniadau clinigol.

Gwnaethom edrych ar gofnod claf lle'r oedd meddyg teulu wedi gofyn am belydr-X yn dilyn ymgynghoriad o bell heb i asesiad wyneb yn wyneb gael ei gynnal. Yn seiliedig ar y wybodaeth a oedd ar gael, ni wnaeth y tîm arolygu nodi pryderon ynghylch priodoldeb clinigol y penderfyniad i ofyn am yr ymchwiliad. Fodd bynnag, gwnaeth y tîm gydnabod nad yw ymgynghoriadau o bell o bosibl yn addas ar gyfer pob cyflwyniad clinigol, a gallant gyflwyno risg na chaiff arwyddion clinigol perthnasol eu nodi heb gynnal archwiliad corfforol. Nid oedd y cofnod yn dogfennu'n glir pam na chafodd asesiad wyneb yn wyneb ei ystyried yn angenrheidiol yn yr achos hwn. O dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) (IR(ME)R), mae'n ofynnol i atgyfeirwyr ddarparu digon o wybodaeth glinigol i gefnogi'r cyfiawnhad dros gysylltiad. Lle y gofynnir am asesiad delweddu diagnostig yn dilyn ymgynghoriad o bell, dylai'r cofnod clinigol ddogfennu'n glir yr asesiad a gynhaliwyd, y rhesymeg dros yr atgyfeiriad a, lle y bo'n berthnasol, pam nad ystyriwyd bod angen archwiliad wyneb yn wyneb.

Dylai'r practis gryfhau'r trefniadau ar gyfer cofnodi atgyfeiriadau am ddelweddu diagnostig sy'n deillio o ymgynghoriadau o bell. Dylai'r cofnodion clinigol ddangos yn glir yr asesiad a gynhaliwyd, y rhesymeg dros yr atgyfeiriad, a pham nad

ystyriwyd bod archwiliad wyneb yn wyneb yn angenrheidiol. Bydd hyn yn cefnogi parhad gofal, yn rhoi sicrwydd bod y cleifion yn cael eu hasesu gan ddefnyddio'r dull ymgynghori mwyaf priodol ar gyfer eu cyflwyniad, ac yn sicrhau bod atgyfeiriadau'n cynnwys digon o wybodaeth glinigol i gefnogi cyfiawnhad o dan IR(ME)R.

Prin oedd y dystiolaeth yn y cofnodion a welsom fod dewis iaith y cleifion yn cael ei chofnodi.

Dylai'r practis sicrhau bod dewis iaith y cleifion yn cael ei chofnodi'n gyson er mwyn cefnogi prosesau cyfathrebu effeithiol a chyflawni'r Cynnig Rhagweithiol.

Roedd yn ymddangos bod adolygiadau o glefydau cronig yn cael eu cynnal ar gyfer y cyflyrau hirdymor pwysicaf. Roedd hyn yn cynnwys cleifion o dan drefniadau rhannu gofal, megis y rhai a oedd yn cael presgripsiwn am wrthgeulydd uniongyrchol drwy'r geg a chleifion â ffibriliad atrïaidd. Roedd adolygiadau hefyd i'w gweld ar gyfer cleifion â chyflyrau megis diabetes, cyflyrau anadlol a dementia.

Lle'r oedd staff anghlinigol yn cael eu defnyddio i grynhoi gwybodaeth, roeddent wedi cael hyfforddiant i adnabod yr hyn yr oedd angen ei ychwanegu at y cofnod a sut y dylid codio gwybodaeth. Fodd bynnag, nid oedd gan y practis broses ar waith ar hyn o bryd i adolygu ansawdd cofnodion a chrynodebau achosion.

Dylai'r practis gyflwyno archwiliad rheolaidd o grynodedau cofnodion er mwyn rhoi sicrwydd bod cofnodion yn gywir, yn gyflawn, wedi'u codio'n briodol ac yn cynnwys cyd-destun clinigol digonol.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Adborth Staff (o holiadur AGIC)

Ymatebodd 13 o aelodau o'r staff i holiadur staff AGIC. Ar y cyfan, roedd yr ymatebion yn gadarnhaol ac yn dangos bod y staff yn teimlo eu bod wedi cael yr hyfforddiant priodol, eu bod yn cael eu cefnogi, a'u bod yn gallu darparu gofal diogel. Dywedodd pob un o'r ymatebwyr eu bod wedi cael hyfforddiant gorfodol a hyfforddiant penodol i'r rôl briodol, a'u bod wedi cael arfarniad, adolygiad blynyddol neu adolygiad datblygu yn ystod y 12 mis diwethaf. Roedd y staff hefyd yn gadarnhaol ynglŷn â'r cyfarpar, y cyflenwadau, y systemau TGCh a'r cymysgedd sgiliau yn y practis.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn gadarnhaol ynglŷn â'r gofal a ddarperir i gleifion, preifatrwydd ac urddas. Roedd 11 o blith y 13 a ymatebodd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod y cleifion yn gallu cael gwasanaethau mewn modd amserol, ac roedd pob un o'r ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod hebryngwyr yn cael eu cynnig pan oedd hynny'n briodol. Dangosodd ymatebion y staff hefyd ymwybyddiaeth gref o anghenion cyfathrebu, hybu iechyd a phwysigrwydd cynnwys cleifion yn eu gofal. Fodd bynnag, roedd tri ymatebydd yn anghytuno bod digon staff i'w galluogi i wneud eu gwaith yn iawn, ac roedd tri yn anghytuno eu bod yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau am newidiadau a oedd yn effeithio ar eu gwaith.

Dangosodd yr arolwg ganfyddiadau cadarnhaol mewn perthynas â diogelu, rhoi gwybod am ddigwyddiadau a diogelwch cleifion. Roedd pob un o'r ymatebwyr yn gwybod pwy oedd yr arweinydd diogelu, yn gwybod sut i roi gwybod am bryderon diogelu, ac yn dweud eu bod wedi cael hyfforddiant diogelu cyfredol. Roedd pawb a ymatebodd hefyd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf fod y practis yn annog y staff i roi gwybod am wallau, camgymeriadau a fu bron â digwydd a digwyddiadau, ei fod yn trin staff yn deg, a'i fod yn cymryd camau i atal sefyllfaoedd rhag codi eto. Fodd bynnag, roedd tri ymatebydd yn anghytuno eu bod wedi cael adborth am newidiadau a wnaed yn dilyn digwyddiadau, gan awgrymu y gallai'r practis gryfhau'r ffordd y mae gwersi a ddysgwyd yn cael eu rhannu.

Gellid gwella ymwybyddiaeth staff mewn rhai meysydd. Roedd yr ymatebion am gymorth i ofalwyr yn gymysg, gyda nifer o'r ymatebwyr yn ansicr a oedd y practis yn cadw cofrestr gofalwyr, a oedd ganddo hyrwyddwr gofalwyr, a oedd yn cynnig asesiadau i ofalwyr neu'n cyfeirio gofalwyr at gymorth. Nid oedd tri ymatebydd yn ymwybodol o'r cymorth iechyd galwedigaethol a llesiant a oedd ar gael, ac roedd tri yn anghytuno eu bod yn gwybod am y Ddyletswydd Gonestrwydd ac yn ei deall, neu eu bod yn deall eu rôl o ran bodloni'r safonau. Roedd yr ymatebion ynghylch atal a rheoli heintiau yn gadarnhaol ar y cyfan, fodd bynnag roedd dau ymatebydd yn anghytuno bod amserlen lanhau effeithiol ar waith.

Dylai'r practis wneud y canlynol:

- **gwella ymwybyddiaeth y staff o'r trefniadau cymorth i ofalwyr**
- **cynyddu ymwybyddiaeth o gymorth iechyd galwedigaethol a llesiant**
- **adolygu'r ffordd y mae'r trefniadau glanhau ar gyfer atal a rheoli heintiau yn cael eu cyfleu i'r staff.**

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Dywedodd y staff a'r rheolwyr wrthym eu bod yn glir o ran eu rolau, eu cyfrifoldebau a'u llinellau adrodd, a'u bod yn deall pwysigrwydd gweithio o fewn eu maes ymarfer. Roedd arweinwyr dynodedig ar gyfer meysydd ymarfer penodol, gan gynnwys diogelu, atal a rheoli heintiau, cwynion ac arweinyddiaeth nyrsio. Roedd hyn yn rhoi pwyntiau cyswllt dynodedig i'r staff ar gyfer cael cyngor a chymorth.

Roedd yr arweinwyr yn weladwy ac roedd yn hawdd i aelodau ehangach tîm y practis fynd atynt. Disgrifiodd y staff ddull drws agored, ac roedd uwch-aelodau'r tîm yn defnyddio Microsoft Teams bob dydd i roi gwybod i'r staff pa aelodau o'r tîm arwain oedd ar gael.

Roedd y practis yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd i gefnogi prosesau cyfathrebu, goruchwyllo a dysgu ar y cyd. Roedd y rhain yn cynnwys cyfarfodydd rheoli wythnosol, cyfarfodydd wythnosol rhwng uwch-aelodau o'r staff, cyfarfodydd gweinyddol misol â'r tîm rheoli, cyfarfodydd clinigol ddwywaith y dydd, sesiynau addysgu wythnosol ar ddydd Gwener, cyfarfodydd gofal lliniarol misol a chyfarfodydd cwynion. Roedd cofnodion yn cael eu rhannu fel y bo'n briodol ac yn cael eu hanfon drwy e-bost at yr uwch-aelodau o'r staff. Gwelsom dystiolaeth o gyfarfodydd clinigol a lledaenu gwybodaeth i staff. Roedd gwybodaeth glinigol yn cael ei rhannu drwy gyfarfodydd wythnosol a chyfarfodydd uwchgyfeirio dyddiol, gan helpu i sicrhau y gellid trafod materion clinigol perthnasol mewn modd amserol.

Roedd proses glir ar waith ar gyfer rhannu gwybodaeth â'r staff, gan gynnwys newidiadau i bolisiâu a gweithdrefnau. Roedd rheolwr y practis a'r dirprwyon yn gallu defnyddio ffolder e-bost ar gyfer hysbysiadau diogelwch, gan gynnwys y rhai gan gyrff megis yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd a Llywodraeth Cymru, ac roedd y rhain yn cael eu hanfon ymlaen at aelodau perthnasol o'r staff fel y bo'n briodol. Roedd polisiâu a gweithdrefnau'r practis wedi'u henwi'n glir, yn hygyrch i'r staff, ac yn cael eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd lle bo angen.

Yn hanesyddol, yr uwch-bartner oedd yn arwain y prosesau goruchwyllo clinigol, ond dywedodd y staff fod pob partner bellach yn rhannu cyfrifoldeb am hyn. Rheolwr y

practis oedd yn gyfrifol am y Fframwaith Gwella Ansawdd. Roedd rhaglenni llesiant ar gael i'r staff hefyd.

Roedd trefniadau ar waith hefyd gan y practis ar gyfer llywodraethu prosiectau a mentrau'r clwstwr. Roedd dogfen llywodraethu ar waith ar gyfer y clwstwr. Dywedodd y staff wrthym fod prosiectau'n cael eu trafod, eu cyflwyno i'r clwstwr a'u cytuno arnynt cyn eu rhoi ar waith. Roedd prosiectau'n cael eu monitro drwy gyfarfodydd a gynhelir o leiaf bedair gwaith y flwyddyn, ac roeddent hefyd yn cael eu trafod yn ystod cyfarfodydd rheolwyr y practis a gynhelir bob pythefnos.

Y Gweithlu

Gweithlu medrus a galluog

Roedd proses recriwtio ar waith yn y practis, gan gynnwys trefniadau ar gyfer cwblhau gwiriadau cyn cyflogi. Roedd gan y practis hefyd bolisi recriwtio cyfredol, yn ogystal â pholisi a rhaglen sefydlu gyfredol. Gwelsom fod system ar waith i wirio bod cofrestriad y gweithwyr gofal iechyd proffesiynol gyda'u corff rheoleiddio yn parhau i fod yn gyfredol, ac roedd gwiriadau blynyddol yn cael eu cynnal.

Roedd gan y practis brosesau i wirio bod y staff yn parhau i fod yn addas i weithio i'r gwasanaeth. Gwelsom dystiolaeth o arfarniadau blynyddol a gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Dywedodd y staff wrthym fod y practis yn ailadrodd gwiriadau DBS bob tair blynedd.

Dylai'r practis ystyried cyflwyno hunanddatganiad DBS dros dro blynyddol fel rhan o'r broses arfarnu, er mwyn rhoi sicrwydd parhaus bod y staff yn parhau i fod yn addas i weithio i'r gwasanaeth.

Er i ni weld dystiolaeth o hanesion brechu ac imiwneiddio y staff clinigol, ni welsom dystiolaeth o brofion sgrinio iechyd cyn cyflogi.

Dylai'r practis sicrhau bod profion sgrinio iechyd cyn cyflogi yn cael eu cwblhau ar gyfer pob aelod newydd o staff, a bod asesiadau risg priodol yn cael eu cynnal lle y caiff materion iechyd eu nodi.

Roedd gan y practis gynllun gweithlu ar waith i sicrhau bod nifer digonol o staff â'r gallu a'r cymysgedd sgiliau priodol ar gael pan fo angen. Ar adeg yr arolygiad, dywedodd y staff wrthym fod aelodau ychwanegol o staff y dderbynfa yn cael eu recriwtio a'u sefydlu er mwyn cefnogi'r capasiti cyffredinol.

Roedd pob brechwr wedi cwblhau hyfforddiant diweddar blynyddol ar imiwneiddio a brechu.

Roedd dystiolaeth bod rolau'r staff yn cyd-fynd â'u cymwysterau, eu sgiliau cyfredol, eu gwybodaeth a'u profiad. Roedd clinigau nyrsys yn cael eu dyrannu yn ôl maes ymarfer a

chymhwysedd unigol, gan gynnwys clinigau diabetes ac anadlol a dyletswyddau yn yr ystafell drin.

Roedd y practis yn cefnogi'r staff i ddatblygu ac uwchsgilio yn unol â'u rolau a'u cyfrifoldebau. Roedd enghreifftiau'n cynnwys nyrs practis a oedd wedi hyfforddi fel uwch-ymarferydd nyrsio ac wedi dod yn bartner, dwy nyrs practis a oedd wedi uwchsgilio i ymgymryd â rolau nyrs mân afiechydon, un nyrs a oedd yn ymgymryd â hyfforddiant ar osod coiliau a mewnbhaniadau ac yn bwriadu cwblhau hyfforddiant ar bresgripsiynu annibynnol, a nyrs eiddilwch a oedd ar fin cwblhau cwrs archwiliadau estynedig.

Roedd tystiolaeth o oruchwyliaeth glinigol briodol. Rhoddodd y staff yr enghraifft o'r cyfarfodydd cymorth clinigol a gynhelir ddwywaith y dydd, a oedd yn rhoi cyfleoedd i'r staff geisio cyngor, trafod materion clinigol a chael cymorth.

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Roedd trefniadau ar waith yn y practis i helpu cleifion, perthnasau a gofalwyr i roi adborth am y gwasanaeth. Roedd Swyddog Cyswllt Cleifion yn cael ei gyflogi ac ef oedd yr aelod penodol o'r staff a oedd yn gyfrifol am ymdrin â chwynion a phryderon.

Gwelsom fod y practis yn cynnal taenlen i fonitro cwynion a phryderon. Roedd hyn yn cynnwys cwynion ffurfiol ac anffurfiol, gyda materion yn cael eu cyfeirio at y Swyddog Cyswllt Cleifion ac aelodau perthnasol o dîm rheoli neu dîm clinigol y practis fel y bo'n briodol. Roedd y daenlen yn olrhain cynnydd a datrysiadau, gan gynnwys dyddiadau perthnasol, a oedd yn helpu i ddangos goruchwyliaeth o'r broses o ymdrin â chwynion.

Roedd y practis yn gweithio o fewn proses newydd "Gwrandio ar Bobl" y GIG. Gwelsom fod y broses flaenorol, sef "Gweithio i Wella", wedi'i chadw ar ffeil ar gyfer 2025/26, a bod y broses gyfredol, sef "Gwrandio ar Bobl", ynghyd â gwybodaeth am gŵynion cleifion, wedi'u gosod ar flaen y ffeil gŵynion ar gyfer 2026/27. Roedd gan y practis bolisi cwynion cyfredol a oedd yn cyd-fynd â gweithdrefnau Gwrandio ar Bobl y GIG. Gwelsom fod gwybodaeth am weithdrefn yn cael ei harddangos yn yr ardal aros i gleifion.

Roedd tystiolaeth bod y practis yn croesawu adborth gan gleifion ac yn gweithredu arno. Roedd adran "Dywedoch chi, gwnaethom ni" ar gael ar wefan y practis. Er gwaethaf lefel isel o ymwybyddiaeth ymhlith yr ymatebwyr i arolwg AGIC, roedd y practis yn cwblhau arolwg cleifion blynyddol hefyd. Roedd canmoliaethau'n cael eu cofnodi a'u â'r staff.

Roedd proses ar waith yn y practis ar gyfer ystyried a gweithredu gwersi a ddysgwyd o gŵynion, pryderon ac adborth. Roedd y llythyrau ymateb a anfonwyd at achwynwyr yn

nodi'r hyn a ddysgwyd o'r cwynion. Roedd cwynion hefyd yn cael eu trafod mewn cyfarfodydd misol, lle roedd y themâu'n cael eu hadolygu a'r gwersi a ddysgwyd yn cael eu hystyried. Lle roedd y gwersi a ddysgwyd yn berthnasol i grwpiau staff ehangach, roedd hyn yn cael ei rannu â'r tîm.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn gallu dweud eu dweud a rhannu syniadau. Dywedodd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw fod y practis yn agored a chyfeillgar, a bod gan yr uwch-aelodau o'r staff ymagwedd drws agored. Roedd y staff yn cael eu hannog i fynegi pryderon i'r rheolwyr, ac roedd gweithdrefnau perthnasol ar gael ar y gyriant a rennir ac yn cael eu trafod trwy gyfarfodydd tîm rheolaidd. Roedd polisi chwythu'r chwiban cyfredol ar waith yn y practis.

Roedd polisi cyfredol ar gael yn y practis mewn perthynas â'r Ddyletswydd Gonestrwydd. Fodd bynnag, dim ond un o'r pum cofnod hyfforddiant staff a welsom a oedd yn dangos bod hyfforddiant ar y Ddyletswydd Gonestrwydd wedi cael ei gwblhau.

Dylai'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cwblhau hyfforddiant ar y Ddyletswydd Gonestrwydd sy'n briodol i'w rôl.

Gwybodaeth

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg ddigidol

Roedd gan y practis drefniadau ar waith i gefnogi'r broses o lywodraethu gwybodaeth a thrin data cleifion yn ddiogel. Roedd polisi llywodraethu gwybodaeth cyfredol ar waith ar gyfer gwybodaeth a oedd yn cael ei phrosesu gan y practis. Roedd gan y practis swyddog diogelu data hefyd, gan ddarparu pwynt cyfrifoldeb clir ar gyfer materion yn ymwneud â diogelu data.

Roedd yn ymddangos bod gan y practis brosesau ar waith ar gyfer trin data yn briodol. Roedd hysbysiad preifatrwydd ar gael ar wefan y practis. Fodd bynnag, nid oedd hwn wedi'i arddangos yn yr ystafell aros ar adeg yr arolygiad. Roedd hyn yn golygu ei bod yn bosibl nad oedd cleifion nad oeddent yn defnyddio gwasanaethau digidol, neu nad oeddent yn ymwybodol o'r wefan, yn gallu cael gwybodaeth yn hawdd am sut roedd eu data personol yn cael eu defnyddio. Ymdriniwyd â hyn fel rhan o'r pryderon a ddatryswyd yn ystod y broses arolygu, fel y disgrifir yn [Atodiad A](#).

Roedd gan y practis drefniadau ar waith i fonitro gwybodaeth am berfformiad. Roedd adroddiadau ar ddata gweithgarwch y meddygon teulu yn cael eu llunio'n fisol, a oedd yn cefnogi'r broses o oruchwylio gweithgarwch y gwasanaeth ac yn helpu'r practis i fonitro'r galw a sicrhau bod gwasanaethau ar gael i gleifion. Roedd trefniadau effeithiol ar waith yn y practis hefyd i sicrhau bod data a hysbysiadau yn cael eu cyflwyno i gyrrff allanol yn ôl y gofyn.

Dysgu, gwella ac ymchwil

Gweithgareddau gwella ansawdd

Roedd gan y practis drefniadau ar waith i ddefnyddio pryderon a chwynion fel cyfleoedd i ddysgu a gwella. Roedd cwynion yn cael eu trafod mewn cyfarfodydd misol, lle roedd gwersi a ddysgwyd ac unrhyw themâu a oedd yn dod i'r amlwg yn cael eu hystyried. Roedd y tîm uwch-reolwyr yn gyfrifol am nodi themâu a dwyn materion perthnasol i sylw'r cyfarfodydd wythnosol pan oedd angen trafodaeth neu gamau gweithredu pellach. Roedd hyn yn helpu i gefnogi dull strwythuredig o ddysgu o adborth a phryderon cleifion.

Roedd y practis yn cymryd rhan mewn gweithgarwch gwella drwy gyswllt rheolaidd â chyfoedion allanol a rhwydweithiau gofal sylfaenol ehangach. Roedd rheolwyr y practis yn cwrdd yn rheolaidd â'u cyfoedion, ac roedd cyfarfodydd clwstwr y meddygon teulu yn rhoi cyfleoedd i siaradwyr drafod datblygiadau arloesol a ffyrdd newydd o ddarparu gofal. Roedd y practis hefyd wedi cyflwyno gwasanaeth adnoddau dynol newydd yn ddiweddar er mwyn cefnogi'r gwaith o reoli'r practis, gan ddangos parodrwydd i gryfhau systemau mewnol a gwella'r cymorth a ddarperir gan y sefydliad.

Roedd y practis yn ymgymryd â rhywfaint o weithgarwch archwilio i fonitro ansawdd a pherfformiad. Roedd hyn yn cynnwys archwiliadau'n ymwneud â lefelau staffio a llwyth gwaith. Roedd y fferyllydd yn cynnal archwiliadau presgripsiynu, ac roedd y meddygon teulu yn cynnal archwiliadau achlysurol. Fodd bynnag, ni welsom dystiolaeth o raglen archwilio flynyddol systematig ar gyfer gweithgarwch archwilio clinigol a mewnol ar draws y practis.

Dylai'r practis ystyried datblygu amserlen archwilio flynyddol, ynghyd â phroses glir ar gyfer cofnodi canfyddiadau'r archwiliadau, rhannu'r gwersi a ddysgwyd, a sicrhau bod camau gweithredu'n cael eu cwblhau lle bo angen.

Roedd y practis yn dysgu gwersi o adolygiadau mewnol ac allanol, gan gynnwys adolygiadau o farwolaethau, digwyddiadau a chwynion. Roedd gwersi a ddysgwyd yn cael eu trafod yn ystod cyfarfodydd misol ac yna eu rhannu â'r timau perthnasol. Dywedodd y staff wrthym fod gwersi a ddysgwyd yn cael eu rhannu ar draws y practis drwy gyfarfodydd, a bod cofnodion ar gael i'r staff.

Dull systemau cyfan

Gweithio mewn partneriaeth a datblygu

Dangosodd y practis ymwybyddiaeth o'i rôl o fewn y system iechyd a gofal ehangach ac roedd yn cymryd camau i sicrhau bod y cleifion yn cael eu cyfeirio at wasanaethau priodol. Disgrifiodd y staff sut roeddent yn cyfeirio cleifion at wasanaethau eraill lle'r

oedd hyn yn addas ac yn gwneud atgyfeiriadau at ofal eilaidd yn unol ag anghenion clinigol a llwybrau'r bwrdd iechyd.

Roedd y practis yn ymgysylltu ag amrywiaeth o bartneriaid system. Dywedodd y staff wrthym fod y practis yn cael cyllid gan ddau fwrdd iechyd ac yn destun trefniadau adolygu gan y ddau sefydliad. Roedd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r practis weithio ar draws prosesau byrddau iechyd gwahanol a chynnal ymwybyddiaeth o'r disgwyliadau a'r llwybrau sy'n berthnasol i bob un ohonynt. Roedd y practis hefyd yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd cydweithredol a chyfarfodydd ar gyfer rheolwyr practisau, gan gefnogi prosesau cyfathrebu, dysgu ar y cyd a'r gallu i drafod materion gweithredol ar draws y system. Disgrifiodd y staff hefyd gydberthnasau gwaith da â fferyllfeydd lleol. Roedd y practis hefyd yn cymryd rhan mewn trefniadau cydweithredol ar gyfer meddygon teulu, lle roedd anghenion cleifion a heriau ehangach i wasanaethau yn cael eu trafod.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen ymdrin â'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Gwelsom fod sampl wrin yn cael ei storio ar silff ganol yn yr oergell ar gyfer brechlynnau, a bod yr oergell yn orlawn ac yn anhrefnus, gyda brechlynnau a chyffuriau wedi'u storio ar y silff waelod.	Roedd storio sampl wrin yn yr oergell ar gyfer brechlynnau, ynghyd â'r ffaith bod yr oergell yn orlawn ac yn anhrefnus, yn peri risg i ddiogelwch cleifion. Roedd hyn yn peri risg o groes-halogi, a allai beryglu cyfanrwydd ac effeithiolrwydd y brechlynnau a'r meddyginiaethau. Roedd gorlenwi'r oergell hefyd yn cynyddu'r risg nad oedd tymereddau priodol yn cael eu cynnal, a allai effeithio ar y gadwyn oer a lleihau effeithiolrwydd y brechlynnau.	Cafodd hyn ei godi gyda chlinigydd cyfrifol.	Cafodd y sampl wrin ei symud o'r oergell ar gyfer brechlynnau. Aildrefnwyd cynnwys yr oergell er mwyn sicrhau bod digon o le rhwng eitemau.

Roedd hysbysiad preifatrwydd ar gael ar wefan y practis. Fodd bynnag, nid oedd hwn wedi'i arddangos yn yr ystafell aros ar adeg yr arolygiad.	Roedd yn bosibl nad oedd cleifion nad oeddent yn defnyddio gwasanaethau digidol, neu nad oeddent yn ymwybodol o'r wefan, yn gallu cael gwybodaeth yn hawdd am sut roedd eu data personol yn cael eu defnyddio	Cafodd hyn ei godi gyda rheolwr y practis.	Roedd hysbysiad preifatrwydd wedi'i osod yn yr ardal aros.
---	---	--	--

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Partneriaeth Aman Tawe – Gwaun Cae Gurwen

Dyddiad yr arolygiad: 02 Mehefin 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Canfyddiadau		Ni chawsom sicrwydd bod systemau effeithiol ar waith i sicrhau bod cyfarpar brys yn cael ei gynnal yn ddiogel. Gwelsom rai eitemau cyfarpar brys a meddyginiaethau yr oedd eu dyddiad defnyddio wedi mynd heibio, gan awgrymu diffygion o ran y gwiriadau diogelwch arferol a'r trefniadau llywodraethu.	
		Gwelsom hefyd fod cyfarpar brys a meddyginiaethau'n cael eu storio mewn ystafell nyrsio glinigol a ddefnyddir yn aml. Defnyddir yr ystafell hon ar gyfer archwiliadau personol. Gallai'r trefniant hwn achosi oedi cyn y gellid cael gafael ar gyfarpar brys mewn argyfwng a gallai beryglu urddas cleifion sy'n defnyddio'r ystafell ar y pryd.	
Yr hyn sydd angen ei wella		Safon / Rheoliad	
1.	Rhaid i'r gwasanaeth gymryd camau ar unwaith er mwyn: • sicrhau bod yr holl gyfarpar a meddyginiaethau brys yn cael eu gwirio a'u cofnodi'n wythnosol, nad yw eu dyddiad defnyddio wedi mynd heibio, a'u bod yn ddiogel i'w defnyddio • asesu lleoliad y cyfarpar brys i sicrhau y gellir ei gyrraedd yn rhwydd bob amser heb effeithio ar urddas y cleifion nac arwain at oedi yn yr ymateb brys.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) – Diogel, Amserol, Yn canolbwyntio ar yr unigolyn. Cyngor Adfywio y DU – Safonau Ansawdd: Cyfarpar gofal sylfaenol a rhestrau cyffuriau.	
Camau Gweithredu gan y Gwasanaeth:		Swyddog cyfrifol	Amserlen

Yn dilyn yr arolygiad, mae'r practis wedi adolygu a chryfhau ei broses ar gyfer gwirio cyffuriau a chyfarpar brys. Dim ond dyddiadau dod i ben a llofnodion wythnosol a oedd yn cael eu cofnodi yn y templed archwilio blaenorol. Mae 'Adnodd Archwilio Wythnosol Cyffuriau a Chyfarpar Brys' diwygiedig bellach wedi'i roi ar waith i roi mwy o sicrwydd, atebolrwydd a thryloywder. Mae'r adnodd archwilio newydd yn cynnwys meysydd ychwanegol i gofnodi'r canlynol: ➤ Faint o stoc a wiriwyd. ➤ Dyddiadau dod i ben. ➤ Y camau a gymerwyd lle nodwyd problemau. ➤ Cwblhau a llofnodi'n wythnosol. Er mwyn gwella prosesau goruchwyllo, mae'r adnodd archwilio wedi'i ailgynllunio i gwmpasu cyfnod o bythefnos ar y tro. Mae ffolder archwilio cyffuriau a chyfarpar brys bwrpasol wedi'i rhoi ar waith yn yr ystafell drin. Mae'r ffolder hon yn cynnwys y canlynol: ➤ Y ddogfennaeth archwilio ddiwygiedig ➤ Copi o bolisi'r practis sy'n ymwneud â gwiriadau cyffuriau a chyfarpar brys. Mae'r Uwch-nyrs wedi cael cyfrifoldeb am oruchwyllo'r broses, a bydd yn sganio'r taflenni archwilio gorffenedig yn fisol i mewn i ffolder electronig diogel, er mwyn darparu cofnod archwiliadwy a sicrhau y gellir ei hadolygu a'i monitro yn y dyfodol. Mae pob aelod o'r staff clinigol wedi cael gwybod am y broses ddiwygiedig drwy e-bost. Roedd y cyfathrebiad yn amlinellu'r gofynion dogfennu newydd, y cyfrifoldebau o ran cynnal gwiriadau wythnosol, a'r disgwyliad y dylid cofnodi unrhyw anghysondebau, prinderau neu eitemau y mae eu dyddiad defnyddio wedi mynd heibio, a gweithredu arnynt ar unwaith. Mae'r practis yn fodlon bod y broses ddiwygiedig hon yn rhoi sicrwydd bod cyffuriau a chyfarpar brys yn cael eu gwirio'n wythnosol, nad yw eu dyddiad defnyddio wedi mynd heibio, eu bod yn cael eu cynnal mewn cyflwr diogel, a'u bod ar gael i'w defnyddio pan fo angen.	Rheolwr Practis	Wedi'i gwblhau
--	------------------------	-----------------------

Mae asesiad risg ffurfiol wedi'i gynnal i adolygu lleoliad a hygyrchedd y diffibriliwr ac i sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofyniad y gellir cael gafael ar gyfarpar brys yn brydlon mewn argyfwng meddygol. Rhoddodd yr asesiad sylw i hygyrchedd, amseroedd ymateb, urddas cleifion, cyfrinachedd a diogelwch. Yn dilyn yr adolygiad hwn, penderfynwyd nad ystafell glinigol ac ardal y dderbynfa oedd y lleoliad mwyaf priodol, gan y gallai fod oedi wrth gael gafael ar y cyfarpar oherwydd yr angen i fynd drwy ddrws wedi'i ddiogelu â chod allwedd. O ganlyniad, gwnaed penderfyniad i adleoli'r cyfarpar brys i'r prif goridor, sy'n ei gwneud yn haws i bob aelod o'r staff gyrraedd y cyfarpar mewn argyfwng, gan leihau unrhyw effaith bosibl ar urddas cleifion a'r risg o oedi wrth ymateb ar yr un pryd. Er mwyn hwyluso'r adleoliad, mae braced wal pwrpasol ar gyfer y diffibriliwr wedi'i archebu a disgwylir iddo gyrraedd yn ystod yr wythnos sy'n dechrau 8 Mehefin 2026. Mae'r gwaith gosod wedi'i drefnu i'w gwblhau erbyn 12 Mehefin 2026. Hyd nes y bydd y gwaith gosod wedi'i gwblhau, mae'r staff wedi cael eu hatgoffa o leoliad presennol y cyfarpar brys a'r adleoliad arfaethedig. Mae'r practis yn fodlon bod y trefniadau dros dro yn sicrhau bod modd cyrraedd y cyfarpar brys yn ddiogel nes bod y datrysiad parhaol yn cael ei roi ar waith.	Rheolwr Practis	1 wythnos
--	-----------------	-----------

Canfyddiadau	Ni chawsom sicrwydd bod y toiled hygyrch yn y practis yn ddiogel a bod y cyfarpar priodol ar gael ynddo i ddiwallu anghenion cleifion ag anableddau. Yn ystod yr arolygiad, gwelsom nad oedd cortyn tynnu mewn argyfwng wedi'i osod, sy'n nodwedd ddiogelwch allweddol i alluogi cleifion i alw am gymorth os oes angen.		
	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	
2.	Rhaid i'r practis sicrhau bod y toiled hygyrch yn ddiogel a bod y cyfarpar priodol ar gael ynddo ar gyfer cleifion ag anableddau, drwy fynd ati ar unwaith i osod cortyn tynnu mewn argyfwng. Dylid cynnal gwiriadau rheolaidd hefyd i sicrhau bod y nodwedd ddiogelwch hon yn parhau i fod ar waith ac yn gweithio'n iawn.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) – Diogel, yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn. Hysbysiad Adeiladu Iechyd Cymru: 36	
	Camau Gweithredu gan y Gwasanaeth:	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	Aeth y practis ati yn syth ar ôl yr arolygiad i fynd i'r afael â'r mater hwn. Mae cortyn tynnu mewn argyfwng sy'n addas i'w ddefnyddio yn y toiled hygyrch wedi'i archebu, a chafwyd cadarnhad y bydd yn cyrraedd ar 8 Mehefin 2026. Mae'r gwaith gosod wedi'i flaenoriaethu a bydd wedi'i gwblhau erbyn 12 Mehefin 2026 fan bellaf. Bydd gosod y cortyn tynnu yn sicrhau bod cleifion y mae angen cymorth arnynt yn gallu galw am gymorth mewn argyfwng, a thrwy hynny bydd yn gwella diogelwch cleifion ac yn cefnogi anghenion cleifion ag anableddau. Yn ogystal, mae'r practis wedi ymgorffori'r cortyn tynnu mewn argyfwng yn ei wiriadau rheolaidd o'r safle. Bydd archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal i sicrhau bod y cortyn tynnu yn parhau i fod yn bresennol, yn hygyrch, heb ei ddifrodi ac yn gwbl weithredol. Bydd unrhyw ddiffygion a ganfyddir yn cael eu cofnodi a'u hunioni ar unwaith drwy weithdrefnau cynnal a chadw y practis. Mae'r practis yn fodlon y bydd y camau gweithredu hyn yn sicrhau bod y toiled hygyrch yn ddiogel, bod y cyfarpar priodol ar gael ynddo, a'i fod yn cael ei gynnal a'i gadw yn unol â gofynion diogelwch cleifion.	Rheolwr Practis	Wedi'i gwblhau ar 19 Mehefin 2026

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau): Cerys Preston

Swydd: Partner Rheoli **Dyddiad:** 05/06/2026

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Partneriaeth Aman Tawe – Gwaun Cae Gurwen

Dyddiad yr arolygiad: 02 Mehefin 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Cafwyd cyfanswm o 531 o ymatebion i arolwg cleifion AGIC, gan ddangos profiad negyddol gan gleifion yn bennaf, yn enwedig mewn perthynas â'r gallu i gael gofal, argaeledd apwyntiadau, parhad gofal a chyfranogiad cleifion mewn penderfyniadau.	Dylai'r practis gynnal adolygiad strwythuredig o ganfyddiadau holiadur AGIC, gan driongli'r adborth â data am gŵynion, mynediad ac apwyntiadau, ei arolygon cleifion ei hun a gwybodaeth berthnasol arall am y gwasanaeth. Dylai ddatblygu cynllun gweithredu cymesur sy'n ymdrin â'r meysydd lle mae'r dystiolaeth gyfun yn nodi cyfle neu angen i wella, gan nodi	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) – Amserol, Yn canolbwyntio ar yr unigolyn, Effeithiol, Teg, Arweinyddiaeth, Gwybodaeth, Dysgu, gwella ac ymchwil.	Mae'r Practis wedi bwrw golwg dros ganfyddiadau arolwg cleifion AGIC a'r meysydd a nodwyd fel meysydd i'w gwella. Roedd nifer o drefniadau perthnasol eisoes ar waith ar adeg yr arolygiad; bydd y trefniadau hyn yn parhau, a chaiff y camau gweithredu ychwanegol canlynol eu cymryd i'w hatgyfnerthu. 1. Mynediad ac apwyntiadau amserol Mae'r Practis eisoes yn darparu apwyntiadau ar yr un diwrnod,	Y Partner Rheoli , gyda chymorth y Dirprwy Reolwyr, y Partneriaid Clinigol, y Swyddog Cyswllt Cleifion a'r Arweinydd Gofalwyr.	Wedi'i gwblhau: Arwyddion am sgysiau preifat – 14 Gorffennaf 2026. Adolygiad o'r wybodaeth i ofalwyr – Gorffennaf 2026 Y ffurflen adborth gan gleifion – Gorffennaf 2026 Adolygiad o'r trefniadau cwyno/hygyrchedd – Gorffennaf 2026

		arweinwyr cyfrifol, amserlenni a threfniadau clir ar gyfer rhoi gwybod i'r cleifion a'r staff am gynnydd. Dylai hyn gynnwys: • ystyried opsiynau a chyfleoedd i wella mynediad amserol cyffredinol i wasanaethau meddygon teulu a'r system apwyntiadau • adolygu adborth mewn perthynas â defnyddio ymgynghoriadau dros y ffôn a sicrhau bod cleifion yn cael cynnig apwyntiadau wyneb yn wyneb lle mae archwiliadau, anghenion cyfathrebu, cymhlethdod neu ddewis y claf yn nodi bod hyn yn briodol		apwyntiadau y gellir eu trefnu ymlaen llaw ac apwyntiadau dilynol â chlinigwyr, a gall cleifion ofyn i gael gofal dros y ffôn, ar-lein neu wyneb yn wyneb. Mae system Cyfeillion Clinigol hefyd ar gael i staff y dderbynfa er mwyn iddynt allu cael cyngor clinigol ar unwaith i'w helpu i wneud penderfyniadau llywio gofal a chyfeirio priodol. Caiff argaeledd apwyntiadau, y galw am apwyntiadau a gweithgarwch ffôn eu hadolygu er mwyn nodi unrhyw gyfleoedd pellach i wella mynediad amserol a'r dewis o apwyntiadau. Caiff y canfyddiadau ac unrhyw gamau gweithredu a nodir eu dogfennu a'u hadolygu gan y tîm rheoli. 2. Ymgynghoriadau dros y ffôn ac wyneb yn		Erbyn 30 Medi 2026: Cwblhau a chofnodi'r negeseuon atgoffa i'r staff clinigol/staff llywio gofal. Cwblhau'r adolygiadau o apwyntiadau, y galw dros y ffôn a mynediad teg, a dogfennu'r camau gweithredu sy'n deillio ohonynt. Erbyn 14 Hydref 2026: Staff y dderbynfa i gwblhau hyfforddiant i ofalwyr. Erbyn 19 Tachwedd 2026: Yr Arweinydd Gofalwyr/uwch-aelodau perthnasol o'r staff i gwblhau'r hyfforddiant.
--	--	---	--	--	--	---

	• atgoffa'r staff clinigol o bwysigrwydd gwranddo ar gleifion, egluro penderfyniadau'n glir, ateb cwestiynau a chynnwys cleifion mewn penderfyniadau am eu gofal. • sicrhau bod arwyddion i'w gweld sy'n rhoi gwybod i'r cleifion bod modd cynnal sgysiau yn breifat ar gais • adolygu'r prosesau ar gyfer nodi gofaluwr, sut y caiff y gofrestr gofaluwr ei hyrwyddo, a sut y caiff gofaluwr gynnig asesiadau a gwybodaeth am sefydliadau cymorth lleol neu sut y cânt eu cyfeirio at asesiadau a gwybodaeth o'r fath • gwella gwelededd y broses gwyno drwy arddangos		wyneb Mae'r trefniadau presennol yn cynnig apwyntiadau wyneb yn wyneb lle mae'r math o archwiliad, anghenion cyfathrebu, cymhlethdod clinigol neu ddewis y claf yn nodi bod hyn yn briodol. Caiff y staff clinigol a'r staff llywio gofal perthnasol eu hatgoffa o'r trefniadau hyn, gan gynnwys pwysigrwydd cofnodi dewis cleifion a'r dull ymgynghori y cytunwyd arno. 3. Gwranddo ar gleifion a'u cynnwys Caiff y staff clinigol eu hatgoffa o bwysigrwydd gwranddo ar gleifion, egluro penderfyniadau'n glir, ateb cwestiynau a chynnwys cleifion mewn penderfyniadau am eu gofal. Caiff hyn ei gyfleu drwy gyfarfod clinigol a'i gofnodi yng nghofnodion y cyfarfod. Byddwn yn		
--	--	--	---	--	--

		gwybodaeth glir yn yr ardal aros • adolygu'r trefniadau mynediad er mwyn sicrhau mynediad cyfartal i bob claf, gan gynnwys y rhai â phroblemau hirdymor a grwpiau agored i niwed.		parhau i adolygu adborth gan gleifion drwy drefniadau cwynion, arolygon cleifion a threfniadau dysgu sefydledig y Practis. 4. Sgyrsiau preifat Cafodd hysbysiad yn rhoi gwybod i gleifion y gallent ofyn am gael siarad yn breifat â staff y dderbynfa ei rhoi yn yr ardal aros ar 14 Gorffennaf 2026. Gofynnwyd am fersiwn Gymraeg a chaiff y fersiwn hon hefyd ei harddangos. Bydd gwiriadau rheolaidd o'r ardal aros yn cadarnhau bod yr arwyddion hyn i'w gweld ac yn eu lle o hyd. 5. Nodi gofalwyr a'u cefnogi Roedd gan y Practis Arweinydd Gofalwyr, cofrestr gofalwyr, bwrdd gwybodaeth i ofalwyr a phrosesau i gleifion nodi eu bod yn ofalwyr yn	
--	--	--	--	---	--

				barod. Yn dilyn yr arolygiad, cafodd y bwrdd gwybodaeth i ofalwyr ei adolygu gyda chymorth gan y Bwrdd Iechyd a chafodd ei ddiweddarau yn ystod yr wythnos yn dechrau 13 Gorffennaf 2026. Trefnwyd hyfforddiant allanol ychwanegol ar ofalwyr i bob aelod o staff y dderbynfa, a chaiff yr hyfforddiant hwn ei gwblhau erbyn 14 Hydref 2026. Trefnwyd hyfforddiant pellach ar Ddeall Anghenion Gofalwyr i'r Arweinydd Gofalwyr ac uwch-aelodau perthnasol o'r staff ar gyfer 19 Tachwedd 2026. Bydd cofnodion hyfforddiant a matrices hyfforddiant y Practis yn dangos bod yr hyfforddiant hwn wedi'i gwblhau. 6. Cwynion ac adborth gan gleifion Cyn yr arolygiad, roedd		
--	--	--	--	--	--	--

				gwybodaeth am broses gwyno GIG Cymru Gwranddo ar Bobl eisoes i'w gweld yn yr ardal aros, ac roedd taflenni gwybodaeth ar gael i gleifion. Roedd gan y Practis hefyd lwybrau i gleifion godi pryderon a rhoi adborth. Yn dilyn yr arolygiad, atgyfnerthwyd y trefniadau hyn ymhellach drwy gyflwyno ffurflen adborth gyffredinol benodol i gleifion, sydd ar gael ar-lein ac yn yr ardal aros. Byddwn yn parhau i adolygu adborth a chwynion drwy drefniadau llywodraethu sefydledig y Practis, a chaiff y gwersi a nodir a'r gwelliannau sy'n deillio o hynny eu cyfleu i'r cleifion drwy drefniadau "Dywedoch Chi, Gwnaethom Ni" y practis.		
--	--	--	--	--	--	--

				7. Mynediad teg Adolygwyd y trefniadau mynediad sy'n bodoli eisoes ar gyfer cleifion ag anableddau, cyflyrau hirdymor, anghenion synhwyrdd neu gyfathrebu a gwendidau eraill. Mae'r trefniadau hyn yn cynnwys mynedfeydd hygyrch, cymorth gan staff, darparu dolen sain, apwyntiadau hirach lle y bo'n briodol, cymorth dehongli neu gyfieithu ac addasiadau rhesymol yn ôl anghenion unigolion. Caiff y trefniadau hyn eu cyfleu i'r aelodau perthnasol o staff a'u hadolygu er mwyn nodi unrhyw welliannau rhesymol ychwanegol sydd eu hangen. Caiff manylion yr adolygiad a gwblheir ac unrhyw gamau gweithredu dilynol eu dogfennu.		
--	--	--	--	---	--	--

2.	Gwelsom nad oedd rhywfaint o'r wybodaeth a oedd yn cael ei harddangos ar sgrin yr ystafell aros yn berthnasol i gleifion yng Nghymru a bod rhywfaint o'r wybodaeth wedi dyddio. Gwnaethon hefyd ganfod bod rhywfaint o'r wybodaeth a oedd yn cael ei harddangos ar y sgrin yn cysylltu â gwefannau penodol i Loegr ac yn cynnwys gwybodaeth wedi dyddio am COVID-19.	Dylai'r practis wneud y canlynol: - Sicrhau bod y wybodaeth berthnasol i gleifion a gaiff ei harddangos ar y sgrin yn yr ystafell aros yn gyfredol, yn berthnasol i Gymru a bod gwybodaeth ddwyieithog ar gael yn ddigon aml a'i bod yn ddigon amlwg - Dileu neu ddiweddarau unrhyw wybodaeth am COVID-19 sydd wedi dyddio yn ogystal â dolenni i adnoddau penodol i Loegr lle nad yw'r rhain yn berthnasol i gleifion yng Nghymru.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) – Gwybodaeth, Yn canolbwyntio ar yr unigolyn, Teg, Diwylliant, Arweinyddiaeth, Dysgu, gwella ac ymchwil.	Y trefniadau presennol Roedd y Practis eisoes yn darparu gwybodaeth hybu iechyd a gwybodaeth i gleifion drwy'r teledu yn yr ystafell aros, byrddau gwybodaeth, taflenni, y wefan a deunyddiau cyfathrebu uniongyrchol i gleifion. Roedd gwybodaeth Gymraeg a Saesneg i'w gweld yn yr ardal aros ac ar y teledu yn yr ystafell aros. Cam gweithredu wedi'i gwblhau Cwblhawyd adolygiad llawn o'r cynnwys a oedd yn cael ei arddangos ar y set deledu a'r wybodaeth i gleifion a oedd i'w gweld yn yr ystafell aros yn ystod yr wythnos yn dechrau 6 Gorffennaf 2026. Roedd hyn yn cynnwys:	Y Rheolwr Gweithredol Gyda chymorth: Y Goruchwylydd Gweithredol	Wedi'i gwblhau: Adolygiad llawn – yr wythnos yn dechrau 6 Gorffennaf 2026. Sicrwydd parhaus: Adolygiad ffurfiol bob chwarter, disgwylir i'r adolygiad nesaf gael ei gynnal ym mis Hydref 2026.
----	---	---	---	---	---	--

				• cael gwared ar hen wybodaeth am COVID-19; • dileu neu newid gwybodaeth a oedd yn benodol i Loegr lle nad oedd yn berthnasol i gleifion yng Nghymru; • cadarnhau bod dolenni ac adnoddau yn berthnasol i gleifion yng Nghymru; • diweddarau gwybodaeth y nodwyd ei bod wedi dyddio; • adolygu hygyrchedd y wybodaeth a oedd yn cael ei harddangos a sicrhau bod cynnwys Cymraeg/Saesneg ar gael.		
--	--	--	--	---	--	--

				Cadarnhaodd yr adolygiad hwn fod y wybodaeth i gleifion yn gywir, yn berthnasol i Gymru ac yn cael ei chyflwyno'n briodol. Bydd tystiolaeth o'r broses i'w gweld yn y cynnwys diwygiedig ar y teledu yn yr ystafell aros ac yn yr arddangosiadau gwybodaeth i gleifion. Sicrwydd parhaus Caiff y wybodaeth i gleifion sydd wedi'i harddangos ei hadolygu bob chwarter gan y Rheolwr Gweithredol. Caiff yr adolygiad ei gofnodi, a chaiff unrhyw wybodaeth y nodir ei bod wedi dyddio, ei bod yn anghywir neu nad yw'n berthnasol i gleifion yng Nghymru ei diweddaru neu ei dileu.		
3.	Nid oedd y codau QR ar y poster mawr a oedd yn cael ei arddangos wrth	Dylai'r practis wneud y canlynol: • gwirio pob cod QR a dolen sy'n	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) – Gwybodaeth,	Y trefniadau presennol Roedd y Practis eisoes yn darparu gwybodaeth i gleifion yn yr ardal aros	Y Rheolwr Gweithredol Gyda chymorth: Y	Wedi'i gwblhau: Adolygiad cychwynnol – yr wythnos yn

	ymyl y dderbynfa yn gweithio. Gwelsom nad oedd y wybodaeth a oedd ar gael yn yr ystafell aros yn adlewyrchu'n llawn y wybodaeth gynhwysfawr ar wefan y practis.	cael eu harddangos ar bosteri yn yr ystafell aros a diweddarau neu newid unrhyw ddolenni sydd wedi torri er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio'n gywir • sicrhau bod ystod resymol o wybodaeth gyfredol a pherthnasol ar gael i'r cleifion yn yr ystafell aros, yn enwedig y rhai nad ydynt yn gallu cael gafael ar wybodaeth drwy wefan y practis.	Yn canolbwyntio ar yr unigolyn, Amserol, Teg, Arweinyddiaeth, Dysgu, gwella ac ymchwil.	drwy'r teledu yn yr ystafell aros, byrddau gwybodaeth, posterï a thaflenni wedi'u hargraffu, ochr yn ochr â'r wybodaeth sydd ar gael ar wefan y Practis. Roedd gwybodaeth wedi'i hargraffu a chymorth/cyfeiriadau gan y staff ar gael i gleifion nad oeddent yn gallu cael gafael ar wybodaeth ddigidol. Cam gweithredu wedi'i gwblhau Cwblhawyd adolygiad o godau QR, dolenni a'r wybodaeth i gleifion i'w gweld yn yr ardal aros yn ystod yr wythnos yn dechrau 6 Gorffennaf 2026. Cafodd codau QR nad oeddent yn gweithio neu nad oeddent yn gyfredol eu tynnu i lawr neu eu gorchuddio i'w hatal rhag cael eu defnyddio, a nodwyd dolenni yr effeithiwyd arnynt er	Goruchwylydd Gweithredol a'r staff gweinyddol perthnasol	dechrau 6 Gorffennaf 2026. Sicrwydd parhaus: Adolygiad chwarterol gan ddechrau ym mis Hydref 2026.
--	--	---	--	---	--	---

				mwyn gallu eu diweddarau neu er mwyn gallu rhoi dolenni newydd yn eu lle. Cafodd yr amrywiaeth o bosteri, taflenni a gwybodaeth arall annigidol hefyd ei hadolygu er mwyn sicrhau bod amrywiaeth resymol o wybodaeth gyfredol a pherthnasol ar gael i gleifion nad oeddent yn edrych ar wefan y Practis. Lle defnyddir codau QR, bydd gwybodaeth allweddol neu ffordd amgen o gael gafael ar y wybodaeth honno hefyd ar gael i gleifion nad ydynt yn defnyddio ffonau clyfar neu wasanaethau digidol. Bydd tystiolaeth o'r broses i'w gweld yn yr arddangosiadau diwygiedig yn yr ystafell aros, y ffaith bod y codau QR/dolenni yn gweithio a'r amrywiaeth o		
--	--	--	--	--	--	--

				wybodaeth i gleifion sydd ar gael wedi'i hargraffu. Sicrwydd parhaus Caiff codau QR, dolenni a gwybodaeth yn yr ystafell aros eu cynnwys fel rhan o adolygiad chwarterol y Practis o wybodaeth i gleifion, a chaiff unrhyw wybodaeth nad yw'n gweithio, sydd wedi dyddio neu sy'n amherthnasol ei dileu neu ei diweddarau ar unwaith.		
4.	Dywedodd y staff wrthym fod hyfforddiant i hebryngwyr yn cael ei ddarparu'n fewnol, ac roedd cofnodion a oedd yn ymwneud â hebryngwyr wedi'u cynnwys ym matrices hyfforddiant y practis. Fodd bynnag, nid oedd y dystiolaeth a welsom yn rhoi	Dylai'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff sy'n gweithredu fel hebryngwyr yn cael hyfforddiant priodol, a bod y broses o gwblhau'r hyfforddiant hwn yn cael ei chofnodi a'i monitro, a bod yr hyfforddiant yn cael ei adnewyddu ar adegau addas.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) – Y Gweithlu, Diogel, Arweinyddiaeth, Dysgu, gwella ac ymchwil.	Y trefniadau presennol Roedd gan y Practis bolisi hebryngwyr yn barod ac roedd yn darparu hyfforddiant mewnol i hebryngwyr i'r staff sy'n ymgymryd â'r rôl. Roedd dyddiadau'r hyfforddiant yn cael eu cofnodi ar fatrics hyfforddiant y Practis. Cam gweithredu a gymerwyd	Y Dirprwy Reolwr	Erbyn mis Hydref 2026: Bydd pob aelod o'r staff a fydd o bosibl yn ymgymryd â'r rôl wedi cwblhau'r hyfforddiant i hebryngwyr a bydd y manylion wedi'u cofnodi. Sicrwydd parhaus: Caiff statws hyfforddiant a'r gofynion ar gyfer hyfforddiant gloywi eu

	sicrwydd cyson bod pob aelod perthnasol o'r staff a oedd yn gweithredu fel hebryngwyr wedi cwblhau hyfforddiant priodol.			Yn dilyn yr arolygiad, aeth y Practis ati i adolygu ei drefniadau o ran hyfforddiant i hebryngwyr er mwyn atgyfnerthu'r broses o ddangos bod yr hyfforddiant wedi'i gwblhau. Bydd pob aelod o'r staff sy'n gweithredu fel hebryngwyr yn cwblhau hyfforddiant priodol i hebryngwyr, a bydd manylion cwblhau'r hyfforddiant yn cael eu cofnodi'n ffurfiol ar fatrics hyfforddiant y Practis. Caiff y matrices hyfforddiant ei fonitro i nodi pan fydd angen cynnal hyfforddiant gloywi ac i sicrhau bod yr hyfforddiant yn parhau'n gyfredol. Bydd cofnodion/tystysgrifau hyfforddiant a matrices hyfforddiant y Practis yn dangos bod yr hyfforddiant hwn wedi'i gwblhau.		monitro drwy fatrics hyfforddiant y Practis.
--	---	--	--	--	--	---

5.	Roedd y practis yn cynnig llwybrau i gleifion roi sylwadau neu adborth, gan gynnwys cyfeiriad e-bost cyffredinol ar gyfer y practis a ffurflen sylwadau neu werthfawrogiad. Fodd bynnag, nid oeddent yn cael eu hyrwyddo'n glir yn yr ardal aros fel dull cyffredinol o roi adborth neu wneud awgrymiadau. Ni welodd yr arolygwyr flwch adborth neu awgrymiadau penodol. Ni welodd yr arolygwyr wybodaeth "Dywedoch chi, gwnaethom ni" wrth iddynt edrych ar y wybodaeth a oedd yn cael ei harddangos ar y teledu yn yr ystafell aros.	Dylai'r practis wella gwelededd a hygyrchedd ei drefniadau adborth presennol drwy hyrwyddo sut y gall cleifion roi adborth neu awgrymiadau cyffredinol yn glir, ystyried a oes angen system hygyrch ychwanegol yn yr ardal aros, a sicrhau bod y wybodaeth 'Dywedoch chi, gwnaethom ni' yn ddigon amlwg ac yn cael ei gweld yn rheolaidd gan gleifion.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) – Teg, Yn canolbwyntio ar yr unigolyn, Gwybodaeth, Arweinyddiaeth, Dysgu, gwella ac ymchwil.	Y trefniadau presennol Cyn yr arolygiad, roedd y Practis eisoes yn cynnig sawl llwybr i gleifion roi adborth, gan gynnwys holiaduron blynyddol i gleifion, adborth llafar ac ysgrifenedig, system ganmol a phroses Gwranddo ar Bobl GIG Cymru. Roedd gwybodaeth "Dywedoch Chi, Gwnaethom Ni" hefyd ar gael i'r cleifion ei gweld ar y teledu yn yr ystafell aros ac ar wefan y Practis. Cam gweithredu a gymerwyd Yn dilyn yr arolygiad, atgyfnerthodd y Practis ei drefniadau adborth drwy gyflwyno ffurflen adborth benodol i gleifion, sydd ar gael ar wefan y Practis ac ar ffurf fersiwn bapur yn yr ardal aros.	Y Swyddog Cyswllt Cleifion Gyda chymorth: Y Dirprwy Reolwyr a'r Goruchwylydd Gweithredol	Amserlen Wedi'i gwblhau: Cyflwynwyd ffurflen adborth benodol – yr wythnos yn dechrau 13 Gorffennaf 2026. Blwch adborth/awgrymiadau: Medi 2026 Sicrwydd parhaus: Adolygu adborth a diweddaru'r wybodaeth "Dywedoch Chi, Gwnaethom Ni" pan gaiff gwelliannau yn deillio o'r broses honno eu nodi.
----	---	---	---	--	--	--

				Caiff blwch adborth/awgrymiadau ei roi yn yr ardal aros, gan gynnig llwybr clir nad yw'n ddigidol i gleifion gyflwyno adborth ac awgrymiadau. Bydd gwybodaeth "Dywedoch Chi, Gwnaethom Ni" yn cael ei harddangos yn yr ardal aros o hyd ac yn cael ei diweddarau i ddangos i'r cleifion sut mae adborth wedi llywio newidiadau a gwelliannau. Bydd y ffurflenni adborth ar y wefan a'r fersiynau papur, y blwch adborth/awgrymiadau a'r wybodaeth "Dywedoch Chi, Gwnaethom Ni" a fydd i'w gweld yn dangos bod y cam hwn wedi'i gwblhau. Sicrwydd parhaus Byddwn yn parhau i adolygu adborth drwy drefniadau llywodraethu sefydledig y Practis. Caiff		
--	--	--	--	--	--	--

				y gwersi i'w dysgu a'r gwelliannau a nodir eu cofnodi a'u cyfleu i'r cleifion drwy ddiweddarau'r wybodaeth "Dywedoch Chi, Gwnaethom Ni".		
6.	Roedd data gweithgarwch y practis yn dangos lefel wael o ran ateb galwadau, er nad oedd unrhyw alwadau'n aros ar adeg yr arolygiad.	Dylai'r practis adolygu'r ffordd y caiff data am alwadau ffôn eu casglu a'u dehongli er mwyn sicrhau bod ganddo ddealltwriaeth gywir o allu cleifion i gysylltu â'r practis dros y ffôn a'u profiad o wneud hynny.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) – Amserol, Teg, Yn canolbwyntio ar yr unigolyn, Gwybodaeth, Arweinyddiaeth.	Y trefniadau presennol Roedd y Practis eisoes yn monitro'r system galwadau ffôn drwy fwrdd galwadau ffôn byw ar y wal a oedd yn dangos nifer y galwadau, lefelau'r ciw ac amseroedd aros. Caiff hyn ei fonitro drwy gydol y diwrnod gwaith, ochr yn ochr ag adolygiad misol o weithgarwch a pherfformiad mewn perthynas â galwadau ffôn. Mae cyfleuster ffonio'n ôl hefyd ar gael i gleifion. Cam gweithredu wedi'i gwblhau Yn dilyn yr arolygiad, cysylltodd y Practis â darparwr ei system ffôn i	Y Rheolwr Gweithredol Gyda chymorth: Y Goruchwylydd Gweithredol, yr Uwch-Dderbynnnydd a darparwr y system ffôn	Wedi'i gwblhau: Adolygiad gan y darparwr ac esboniad o'r gwall adrodd – Gorffennaf 2026. Sicrwydd parhaus: Gwaith monitro byw bob dydd ac adolygiad misol wedi'i ddogfennu o'r gweithgarwch ffôn.

				adolygu'r data gweithgarwch a gyflwynwyd yn ystod yr arolygiad. Nododd y darparwr wall yn y wybodaeth a gofnodwyd ac eglurodd sut y dylid adrodd ar y data a'u dehongli. Mae'r Practis wedi adolygu ei drefniadau adrodd ar gyfer data am alwadau ffôn ers cael yr esboniad hwn er mwyn sicrhau bod data gweithgarwch yn y dyfodol yn darparu dealltwriaeth gywir a chyson o allu cleifion i gysylltu â'r practis dros y ffôn a'u profiad o wneud hynny. Bydd gohebiaeth/eglurhad gan y darparwr ac adroddiadau dilynol ar weithgarwch y system ffôn yn dangos bod y cam hwn wedi'i gwblhau. Sicrwydd parhaus		
--	--	--	--	--	--	--

				Byddwn yn parhau i fonitro'r galw byw dros y system ffôn a pherfformiad y ciw bob dydd. Caiff data am weithgarwch galwadau ffôn eu hadolygu'n ffurfiol bob mis gan y tîm rheoli, gan gynnwys nifer y galwadau, amseroedd ciwio/ros, perfformiad ateb galwadau a'r defnydd o'r cyfleuster ffonio'n ôl. Ymchwilir i unrhyw dueddiadau anarferol neu faterion adrodd a nodir a chaiff camau gweithredu dilynol eu cofnodi.		
7.	Roedd y practis yn cadw matrices hyfforddiant ac roedd llawer o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth. Fodd bynnag, yn y sampl a welwyd, nodwyd bod hyfforddiant	Dylai'r practis adolygu'r hyfforddiant hawliau a chydaddoldeb sydd ei angen ar gyfer pob grŵp staff, sicrhau y caiff hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth, hyfforddiant ymwybyddiaeth o awtistiaeth a	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) – Y Gweithlu, Teg, Yn canolbwyntio ar yr unigolyn, Diwylliant, Arweinyddiaeth.	Y trefniadau presennol Roedd gan y Practis raglen hyfforddiant gorfodol sefydledig eisoes a oedd yn cynnwys hyfforddiant Trin Fi'n Deg (Cydraddoldeb), ac roedd y gofynion cwblhau ac adnewyddu	Y Rheolwr Adnoddau Dynol Gyda chymorth: Y Goruchwylydd Gweithredol a'r arweinwyr clinigol perthnasol	Wedi'i gwblhau: Cafodd y gofynion o ran hyfforddiant hawliau a chydaddoldeb eu hadolygu ac ehangwyd y rhaglen ar ôl yr arolygiad. Yn mynd rhagddo:

	cydraddoldeb ac amrywiaeth rhai aelodau o'r staff yn anghyflawn neu fod angen ei ddiweddarau. Nid oedd tystiolaeth o hyfforddiant ymwybyddiaeth o awtistiaeth i'w gweld yn y cofnodion a oedd yn rhan o'r sampl, ac nid oedd hyfforddiant anableddau dysgu wedi cael ei gynnwys fel rhan gyson o raglen hyfforddiant y practis.	hyfforddiant anableddau dysgu perthnasol eu cwblhau, a chadw cofnodion cywir at ddibenion monitro ac adnewyddu.		yn cael eu monitro drwy fatrics hyfforddiant y Practis. Ar adeg yr arolygiad, roedd hyfforddiant 80% o'r staff yn gyfredol, ac roedd yr aelodau o'r staff roedd angen iddynt adnewyddu eu hyfforddiant wedi cael eu nodi. Cam Gweithredu Yn dilyn yr arolygiad, aeth y Practis ati i adolygu ei ofynion hyfforddiant hawliau a chydraddoldeb ac ehangodd y rhaglen i gynnwys hyfforddiant ymwybyddiaeth o awtistiaeth a hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Anableddau Dysgu Paul Ridd i aelodau perthnasol o'r staff. Mae'r broses o adnewyddu hyfforddiant cydraddoldeb ac ymgymryd â'r		Mae 65% o'r staff perthnasol wedi cwblhau'r hyfforddiant ychwanegol a nodwyd. Mae 93% wedi cwblhau'r hyfforddiant cydraddoldeb. Dyddiad cwblhau targed: Hydref 2026 Sicrwydd parhaus: Caiff y cyfraddau cwblhau a'r gofynion ar gyfer hyfforddiant gloywi yn y dyfodol eu monitro drwy fatrics hyfforddiant y Practis.
--	--	--	--	--	--	--

				hyfforddiant ychwanegol a nodwyd wrthi'n cael ei chwblhau a chaiff y manylion eu cwblhau a'u cofnodi ar fatrics hyfforddiant y Practis. Bydd cofnodion/tystysgrifau hyfforddiant a'r matrices hyfforddiant diwygiedig, a gaiff hefyd ei ddefnyddio i fonitro gofynion gloywi yn y dyfodol, yn dangos bod y cam hwn wedi'i gwblhau.		
8.	Nid oedd drws y fynedfa flaen yn awtomatig ac ni allai'r cleifion alw am gymorth wrth y drws ffrynt na'r ramp mynediad (h.y. drwy ddefnyddio cloch). Gwelsom hefyd fod y drysau dwbl rhwng yr ystafell aros a'r ystafelloedd ymgynghori yn gul	Dylai'r practis adolygu hygyrchedd ffisegol y safle er mwyn nodi rhwystrau ac ymdrin â nhw, er mwyn gwella hygyrchedd i bob claf.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) – Teg, Yn canolbwyntio ar yr unigolyn, Diogel, Arweinyddiaeth. Hysbysiad Adeiladu Iechyd Cymru 36	Y trefniadau presennol Roedd gan y Practis drefniadau eisoes i helpu cleifion ag anghenion symudedd a hygyrchedd. Roedd y trefniadau hyn yn cynnwys mynediad blaen hygyrch, mynedfa gefn heb risiau a ramp, cymorth gan y staff lle bo angen a chadair olwyn ar y safle. Gellir agor y drysau dwbl mewnol rhwng yr ardal aros a'r ystafelloedd	Y Partner Rheoli a'r Rheolwr Gweithredol Gyda chymorth: Y Goruchwylydd Gweithredol	Wedi'i gwblhau: Adolygiad o hygyrchedd ffisegol – Gorffennaf 2026. Unrhyw gamau gweithredu a nodwyd: I'w cwblhau erbyn 1 Hydref.

	pan oedd un drws yn unig ar agor.		ymgynggori yn llawn ac mae dalwyr drysau magnetig wedi'u gosod arnynt er mwyn darparu mynediad mwy llydan. Bydd y clinigwyr yn casglu cleifion o'r ardal aros ac yn rhoi cymorth lle bo angen. Cam Gweithredu Yn dilyn yr arolygiad, cwblhaodd y Practis adolygiad o hygyrchedd ffisegol y safle, gan gynnwys y fynedfa flaen, y fynedfa gefn hygyrch a'r ramp, y llwybrau mynediad mewnol a'r trefniadau ar gyfer cleifion y mae angen cymorth arnynt. Ystyriodd yr adolygiad y rhwystrau a nodwyd yn ystod yr arolygiad, ochr yn ochr â'r trefniadau hygyrchedd presennol, a nododd unrhyw welliannau rhesymol ac ymarferol ychwanegol sydd eu hangen.		
--	-----------------------------------	--	--	--	--

				Caiff unrhyw gamau gweithredu sy'n deillio o'r adolygiad eu dogfennu, eu neilltuo i arweinydd cyfrifol a'u monitro hyd nes y cânt eu cwblhau. Bydd y cofnod o'r adolygiad hygyrchedd a'r cofnodion o unrhyw gamau gweithredu yn deillio o'r adolygiad hwnnw yn dangos bod y cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau. Sicrwydd parhaus Byddwn yn parhau i ystyried hygyrchedd ffisegol drwy wiriadau rheolaidd o'r safle ac adborth gan gleifion, staff ac ymwelwyr, ac ymdrinnir ag unrhyw rwysrau newydd a nodir drwy drefniadau'r Practis ar gyfer rheoli'r safle.		
9.	Roedd golwg ddi-raen ar rywfaint o'r gwaith paent ac roedd angen ei adnewyddu.	Dylai'r practis wneud y canlynol: • anelu at adnewyddu gwaith paent sydd â golwg ddi-	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) – Diogel, Effeithiol,	Y trefniadau presennol Roedd y rhaglen baentio fewnol eisoes wedi'i nodi fel rhan o gynllun gwella ystadau 2026 y Practis	Y Partner Rheoli Gyda chymorth: Y Dirprwy Reolwyr	Wedi'i gwblhau: Tynnwyd y sgrîw a oedd yn ymwithio allan a gwnaed y gwaith

	Gwnaethom hefyd ddod o hyd i sgrifw yn ymwthio allan drwy'r teils uwchben y sinc yn y toiled i ddynion wrth ymyl yr ardal aros.	raen arno ar y safle lle bo angen • tynnu'r sgrifw sy'n ymwthio allan uwchben y sinc yn y toiled i ddynion ger yr ardal aros, neu ei gwneud yn ddiogel.	Arweinyddiaeth, Dysgu, gwella ac ymchwil.	cyn yr arolygiad. Roedd dyfynbris wedi'i gael ac roedd contractwr wedi'i benodi. Cam Gweithredu Cafodd y sgrifw a oedd yn ymwthio allan a welwyd uwchben y sinc yn nhoiled y dynion ei dynnu o fewn diwrnodau i'r arolygiad. Cafodd y tyllau a adawyd eu llenwi a gwnaed y gwaith unioni gofynnol. Mae'r rhaglen baentio arfaethedig bellach wedi'i threfnu ar gyfer mis Hydref 2026 ac mae'n cynnwys yr ardaloedd a nodwyd yn ystod yr arolygiad yn ogystal ag ardaloedd eraill a oedd eisoes wedi'u nodi drwy raglen gwella ystadau'r Practis. Bydd y cofnodion cynnal a chadw a'r cadarnhad bod y gwaith paentio wedi'i gwblhau yn dangos bod y cam		unioni gofynnol – Mehefin 2026. Wedi'i drefnu: Caiff y rhaglen baentio ei chwblhau erbyn 31 Hydref 2026.
--	--	--	--	--	--	---

				gweithredu hwn wedi'i gwblhau.		
10	Roedd y broses ar gyfer digwyddiadau o bwys yn nodi gwersi i'w dysgu, camau gweithredu ac unigolion cyfrifol. Fodd bynnag, nid oedd yn cynnwys yn glir adolygiad diweddarach wedi'i ddogfennu i gadarnhau bod y camau gweithredu a nodwyd wedi cael eu cwblhau a bod y gwersi i'w dysgu a'r gwelliannau wedi cael eu rhoi ar waith a'u hymgorffori.	Dylai'r practis atgyfnerthu ei broses bresennol ar gyfer digwyddiadau o bwys drwy gyflwyno adolygiad dilynol wedi'i ddogfennu i gadarnhau bod y camau gweithredu y cytunwyd arnynt wedi cael eu cwblhau a bod y gwelliannau a nodwyd wedi cael eu rhoi ar waith a'u hymgorffori.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) – Diogel, Effeithiol, Arweinyddiaeth, Diwylliant, Dysgu, gwella ac ymchwil.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) – Diogel, Effeithiol, Arweinyddiaeth, Diwylliant, Dysgu, gwella ac ymchwil.	Y trefniadau presennol Roedd gan y Practis broses sefydledig ar gyfer Dadansoddi Digwyddiadau o Bwys eisoes i adolygu digwyddiadau o bwys, nodi gwersi i'w dysgu, cytuno ar gamau gweithredu a chofnodi arweinwyr cyfrifol ac amserlenni. Cam gweithredu wedi'i gwblhau Yn dilyn yr arolygiad, atgyfnerthwyd y broses ar gyfer Dadansoddi Digwyddiadau o Bwys ym mis Mehefin 2026 drwy gyflwyno matrices canolog ar gyfer digwyddiadau o bwys ac adolygiad dilynol wedi'i ddogfennu ar gyfer pob digwyddiad o bwys.	Yr Arweinydd Llywodraethu Clinigol Gyda chymorth: Y Partner Rheoli, y Dirprwy Reolwyr a'r arweinwyr gweithredu perthnasol

					Mae'r adolygiad dilynol yn cadarnhau bod y camau gweithredu a nodwyd wedi'u cwblhau, bod y camau i'w dysgu wedi'u rhoi ar waith a bod unrhyw welliannau yn deillio o hynny wedi cael eu hymgorffori. Mae'r matrices canolog yn cofnodi digwyddiadau o bwys, gwersi i'w dysgu a chamau gweithredu a nodwyd, arweinwyr cyfrifol, dyddiadau targed a chynnydd hyd at gwblhau'r camau gweithredu hynny. Bydd y broses ddiwygiedig ar gyfer Dadansoddi Digwyddiadau o Bwys, y matrices ar gyfer digwyddiadau o bwys a'r adolygiadau dilynol a gaiff eu cwblhau yn dangos bod y cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau.	
--	--	--	--	--	--	--

					Sicrwydd parhaus Caiff y matrices ar gyfer digwyddiad o bwys a'r adolygiadau dilynol eu monitro drwy drefniadau llywodraethu clinigol y Practis. Bydd camau gweithredu yn parhau ar agor hyd nes y cânt eu cwblhau ac y ceir cadarnhad bod y gwersi i'w dysgu a nodwyd wedi'u rhoi ar waith a'u cofnodi.	
11	Nid oedd tapiau y gellir eu gweithredu â'r penelin ar gael ym mhob ystafell glinigol. Gwnaethom hefyd ddod o hyd i blygiau mewn sincipiau golchi dwylo.	Rhaid i'r practis wneud y canlynol: - adolygu a diweddarau'r cyfleusterau golchi dwylo o fewn amserlen resymol a, lle y bo'n ymarferol, sincipiau cydymffurfiaeth â'r safonau atal heintiau presennol - cael gwared ar unrhyw blygiau er mwyn sincipiau eu bod yn gweithredu fel	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) – Diogel, Effeithiol, Arweinyddiaeth, Gwybodaeth, Dysgu, gwella ac ymchwil.	Cam gweithredu wedi'i gwblhau Cafodd pob plwg ei dynnu o'r sincipiau golchi dwylo clinigol ar y diwrnod ar ôl yr arolygiad. Archebwyd tapiau newydd y gellir eu gweithredu â'r penelin a phenodwyd contractwr addas i gwblhau'r gwaith gosod.	Y Partner Rheoli Gyda chymorth: Y Dirprwy Reolwyr a'r Arweinydd Atal a Rheoli Heintiau	Wedi'i gwblhau: Cafodd y plygiau eu tynnu o'r sincipiau golchi dwylo clinigol ar y diwrnod ar ôl yr arolygiad. Yn mynd rhagddo: Archebwyd tapiau newydd y gellir eu gweithredu â'r penelin a phenodwyd contractwr.

		sinciau hylendid dwylo pwrpasol.		Camau gweithredu pellach Caiff tapiau newydd y gellir eu gweithredu â'r penelin eu gosod yn yr ystafelloedd clinigol a nodwyd erbyn 30 Medi 2026. Bydd y cadarnhad bod y gwaith wedi'i gwblhau a chofnodion y contractwr cysylltiedig/cofnodion cynnal a chadw yn dangos bod y cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau. Sicrwydd parhaus Bydd y cyfleusterau golchi dwylo yn yr ystafelloedd clinigol yn parhau i gael eu monitro drwy drefniadau cyffredinol ar gyfer y safle ac ar gyfer atal a rheoli heintiau. Caiff unrhyw ofynion cynnal a chadw pellach eu nodi ac ymdrinnir â nhw fel y bo'n ofynnol.		Dyddiad cwblhau targed: 30 Medi 2026.
--	--	----------------------------------	--	--	--	---

12	Ni welsom unrhyw restrau gwirio wedi'u llofnodi i gadarnhau pryd roedd y gwaith glanhau wedi'i gwblhau.	Dylai'r practis gyflwyno rhestrau gwirio glanhau wedi'u llofnodi er mwyn rhoi sicrwydd bod y gwaith glanhau'n cael ei gwblhau'n gyson ac yn unol â'r amserlen.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) – Diogel, Gwybodaeth, Arweinyddiaeth, Dysgu, gwella ac ymchwil.	Y trefniadau presennol Roedd gan y Practis amserlen lanhau sefydledig, ac roedd gwaith glanhau rheolaidd yn cael ei gynnal drwy gontract â darparwr gwasanaeth glanhau. Cam Gweithredu Yn dilyn yr arolygiad, cyflwynwyd rhestrau gwirio glanhau i'w llofnodi er mwyn darparu cofnod clir bod y gwaith glanhau sy'n rhan o'r amserlen wedi'i gwblhau. Mae'r rhestrau gwirio yn nodi'r gwaith glanhau a wnaed, y dyddiad cwblhau a chadarnhad gan yr unigolyn a gwblhaodd y gwaith. Bydd y Practis yn cadw'r rhestrau gwirio wedi'u cwblhau ac yn eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn rhoi sicrwydd bod gwaith glanhau yn cael ei gwblhau'n gyson yn unol	Y Rheolwr Gweithredol Gyda chymorth: Y Goruchwylydd Gweithredol a'r darparwr glanhau ar gontract	Wedi'i gwblhau: Cyflwynwyd rhestrau gwirio glanhau i'w llofnodi – Gorffennaf 2026. Sicrwydd parhaus: Caiff rhestrau gwirio eu cwblhau ar ôl cynnal y gwaith glanhau sydd wedi'i nodi ar yr amserlen a chânt eu hadolygu'n rheolaidd gan y Practis.
----	--	---	---	---	--	--

				â'r amserlen y cytunwyd arni. Bydd y rhestrau gwirio glanhau wedi'u cwblhau a'u llofnodi yn dangos bod y cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau.		
13	Roedd posteri ynghylch anafiadau a achosir gan nodwydd wedi'u harddangos yn yr ystafelloedd ymgynghori a thrin, gan roi canllawiau cyfyngedig i'r staff pe bai rhywun yn cael anaf offer miniog.	Dylai'r practis ddiweddarau'r posteri ar anafiadau a achosir gan nodwydd er mwyn cynnwys pwy y dylai staff roi gwybod iddynt am ddigwyddiadau a ble y dylent fynd i gael cyngor neu driniaeth frys, gan gynnwys rhifau ffôn a chyfeiriadau perthnasol, megis yr adran achosion brys leol.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) – Diogel, Y Gweithlu, Gwybodaeth, Arweinyddiaeth.	Y trefniadau presennol Roedd gan y Practis weithdrefn sefydledig eisoes ar gyfer anafiadau a achosir gan nodwydd/offer miniog a oedd yn nodi'r camau gweithredu, y gofynion adrodd a'r gofynion uwchgyfeirio yn dilyn anaf a achosir gan offer miniog. Roedd posteri yn cyfeirio at anafiadau a achosir gan nodwydd hefyd i'w gweld yn yr ystafelloedd ymgynghori a'r ystafelloedd trin. Cam gweithredu wedi'i gwblhau Yn dilyn yr arolygiad, cafodd y posteri anafiadau a achosir gan	Yr Arweinydd Atal a Rheoli Heintiau Gyda chymorth: Y Dirprwy Reolwyr	Wedi'i gwblhau: Cafodd y posteri am anafiadau a achosir gan nodwydd eu diweddarau a'u harddangos – Gorffennaf 2026. Sicrwydd parhaus: Caiff y posteri eu gwirio drwy'r trefniadau atal a rheoli heintiau arferol a'u diweddarau pan fydd y manylion cyswllt neu'r manylion uwchgyfeirio yn newid.

				nodwydd eu diweddaru i roi arweiniad cliriach i'r staff ei ddefnyddio ar unwaith. Mae'r posteri diwygiedig yn cynnwys pwy y dylai staff roi gwybod iddynt am ddigwyddiadau, ble y dylent fynd i gael cyngor neu driniaeth frys, a'r rhifau ffôn a'r cyfeiriadau perthnasol. Cafodd y posteri wedi'u diweddaru eu harddangos ym mhob un o'r ardaloedd clinigol a'r ardaloedd trin perthnasol. Bydd y posteri diwygiedig a'r cadarnhad eu bod wedi'u harddangos yn yr ardaloedd perthnasol yn dangos bod y cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau. Sicrwydd parhaus Caiff gwybodaeth am anafiadau a achosir gan nodwydd ei chynnwys fel rhan o wiriadau atal a		
--	--	--	--	---	--	--

				rheoli heintiau arferol er mwyn sicrhau bod y posteri i'w gweld o hyd, eu bod yn gyfredol ac yn cyd-fynd â gweithdrefn y Practis.		
14	Nid oedd y practis yn cadw cofnodlyfr ar gyfer bocsys o ffurflenni presgripsiwn.	Dylai'r practis gyflwyno cofnodlyfr ar gyfer bocsys o ffurflenni presgripsiwn er mwyn darparu llwybr archwilio clir a chryfhau diogelwch presgripsiynau.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) – Diogel, Gwybodaeth, Arweinyddiaeth.	Cam gweithredu wedi'i gwblhau Yn dilyn yr arolygiad, cyflwynwyd cofnodlyfr ar gyfer ffurflenni presgripsiwn er mwyn gwella diogelwch ffurflenni presgripsiwn a'r llwybr archwilio ar eu cyfer. Mae'r cofnodlyfr yn cofnodi pan gaiff bocsys o ffurflenni presgripsiwn eu derbyn a'u symud a chaiff ei gadw gan aelodau dynodedig o staff. Caiff y cofnodion wedi'u cwblhau eu cadw gan y Practis a'u hadolygu fel rhan o'r gwiriadau arferol o ffurflenni presgripsiwn. Bydd y cofnodlyfr ffurflenni presgripsiwn	Y Dirprwy Reolwr Gyda chymorth: Y tîm presgripsiynu/tîm gweinyddol	Wedi'i gwblhau: Cyflwynwyd cofnodlyfr ar gyfer ffurflenni presgripsiwn – Gorffennaf 2026. Sicrwydd parhaus: Caiff y cofnodlyfr ei gadw a'i adolygu drwy'r gwiriadau arferol o ffurflenni presgripsiwn.

				a'r cofnodion a gwblheir yn dangos bod y cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau ac yn dangos cydymffurfiaeth barhaus.		
15	Ni allem ddod o hyd i dystiolaeth o adolygiadau o feddyginiaethau ffurfiol diweddar, er bod llawer o gleifion yn cael sawl math o feddyginiaeth ar bresgripsiwn.	Dylai'r practis sicrhau y caiff adolygiadau ffurfiol o feddyginiaethau eu cynnal ar adegau rheolaidd a'u dogfennu'n glir, yn enwedig ar gyfer cleifion sy'n cymryd sawl math gwahanol o feddyginiaeth neu gleifion ag anghenion iechyd cymhleth.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) – Effeithiol, Diogel, Yn canolbwyntio ar yr unigolyn, Gwybodaeth, Arweinyddiaeth.	Y trefniadau presennol Roedd gan y Practis drefniadau ar waith eisoes i'r clinigwyr adolygu meddyginiaeth cleifion fel rhan o'u gofal clinigol parhaus, gan gynnwys cleifion sy'n cael sawl gwahanol fath o feddyginiaeth ar bresgripsiwn a chleifion ag anghenion iechyd cymhleth. Cam Gweithredu Yn dilyn yr arolygiad, mae'r Practis wedi adolygu ac wedi atgyfnerthu ei broses adolygu meddyginiaethau er mwyn sicrhau y caiff adolygiadau o feddyginiaethau ffurfiol eu dogfennu'n glir ac yn	Yr Arweinydd Llywodraethu Clinigol Gyda chymorth: Meddygon Teulu a'r clinigwyr presgripsiynu priodol	Wedi'i gwblhau: Cafodd y broses ar gyfer cynnal adolygiadau o feddyginiaethau a'u dogfennu ei hadolygu a'i hatgyfnerthu – Awst 2026. Monitro: Caiff archwiliad sampl o'r adolygiadau o feddyginiaethau ei gwblhau erbyn mis Tachwedd 2026, ac ymdrinnir ag unrhyw gamau gweithredu a nodir drwy brosesau llywodraethu clinigol.

				gyson yng nghofnod y claf. Mae'r broses wedi'i hatgyfnerthu yn cynnwys nodi cleifion y mae angen adolygiad o'u meddyginiaeth, cwblhau'r adolygiad gan glinigydd priodol a chofnodi'r adolygiad ac unrhyw gamau sy'n deillio ohono yn glir yn y cofnod clinigol. Caiff cydymffurfiaeth ei monitro drwy archwilio sampl o gofnodion cleifion i gadarnhau bod adolygiadau o feddyginiaethau yn cael eu cwblhau a'u dogfennu'n briodol. Bydd tystiolaeth yn cynnwys y broses y cytunir arni ar gyfer cynnal adolygiadau o feddyginiaethau a chanlyniadau'r archwiliad o gofnodion a gwblheir.		
--	--	--	--	---	--	--

16	Dim ond un oergell ar gyfer brechlynnau a welsom yn cael ei defnyddio. Roedd yr oergell wedi'i chloi, ond roedd yn orlawn ac yn anhrefnus, ac roedd brechlynnau a chyffuriau wedi'u storio ar y silff waelod.	Dylai'r practis ystyried a oes angen oergell ychwanegol i gefnogi trefniadau storio diogel, yn enwedig lle gallai gorlenwi rwystro ffan yr oergell ac effeithio ar y gallu i reoli'r tymheredd.	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal (2023) – Diogel, Effeithiol, Gwybodaeth, Arweinyddiaeth.	Y trefniadau presennol Mae gan y Practis bum oergell ar gyfer brechlynnau ar ei safleoedd, gan gynnwys tair sy'n cefnogi'r contract perthnasol. Mae tymheredd pob un o'r oergelloedd ar gyfer brechlynnau yn cael ei fonitro bob dydd. Cadarnhaodd y cofnodion a oedd ar gael ar adeg yr arolygiad fod y tymereddau yn gyson o fewn yr amrediad gofynnol ac ni nodwyd unrhyw achosion diweddar o dorri'r gadwyn oer. Cam gweithredu wedi'i gwblhau Yn dilyn yr arolygiad, cafodd stoc yr oergell a archwiliwyd ei hadolygu ar unwaith a'i had-drefnu i sicrhau bod digon o le rhwng yr eitemau, llif aer priodol a phrosesau	Yr Uwch-nyrs Gyda chymorth: Y Dirprwy Reolwyr a'r staff nyrsio perthnasol	Wedi'i gwblhau: Cafodd yr oergell a archwiliwyd ei had-drefnu yn dilyn yr arolygiad. Wedi'i gwblhau: Cafodd y capasiti ar gyfer storio brechlynnau ei adolygu a chadarnhawyd bod y capasiti presennol yn ddigonol. Wedi'i gwblhau: Cynhaliodd Adran Fferylliaeth y Bwrdd lechyd adolygiad 13 Gorffennaf 2026. Sicrwydd parhaus: Bydd gwiriadau monitro dyddiol o'r tymheredd a gwiriadau arferol o'r gadwyn oer yn parhau, a chaiff y capasiti storio ei adolygu os bydd y gofynion yn newid.
----	--	--	---	--	---	---

				priodol ar gyfer cylchdroi'r stoc. Aeth y Practis hefyd ati i adolygu ei gapasiti presennol ar gyfer storio brechlynnau a chadarnhaodd fod digon o gapasiti yn yr oergelloedd ar draws ei safleoedd i allu storio brechlynnau yn ddiogel heb fod angen oergell ychwanegol ar hyn o bryd. Ar 13 Gorffennaf 2026, daeth Adran Fferylliaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe i'r Practis i adolygu'r trefniadau cadwyn oer ac i roi rhagor o arweiniad a sicrwydd. Bydd cofnodion monitro tymheredd, yr adolygiad wedi'i ddogfennu o gapasiti oergelloedd ac adolygiad Adran Fferylliaeth y Bwrdd Iechyd yn dangos bod y		
--	--	--	--	--	--	--

				cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau. Sicrwydd parhaus Bydd tymereddau oergelloedd, lefelau stoc, y broses o gylchdroi stoc, dyddiadau darfod a threfn yr oergelloedd yn parhau i gael eu monitro drwy drefniadau sefydledig y Practis ar gyfer y gadwyn oer. Caiff y capasiti ar gyfer storio brechlynnau ei adolygu os bydd lefelau stoc neu ofynion y gwasanaeth yn newid.		
17	Ni welsom thermomedr ystafell er mwyn monitro'r tymereddau storio amgylchynol.	Dylai'r practis gynnal a chofnodi gwiriadau o dymheredd amgylchynol yr ystafell er mwyn sicrhau bod meddyginiaethau'n cael eu storio o dan yr amodau a argymhellir.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) – Diogel, Effeithiol, Gwybodaeth, Dysgu, gwella ac ymchwil.	Cam gweithredu wedi'i gwblhau Yn dilyn yr arolygiad, gosodwyd thermomedrau ystafell yn yr ardaloedd perthnasol lle caiff meddyginiaethau clinigol eu storio a chyflwynwyd proses monitro	Yr Uwch-nyrs Gyda chymorth: Y Dirprwy Reolwyr a'r staff nyrsio perthnasol	Wedi'i gwblhau: Cafodd thermomedrau ystafell eu gosod a chyflwynwyd proses ar gyfer monitro tymereddau amgylchynol – Mehefin 2026. Sicrwydd parhaus: Caiff tymereddau amgylchynol eu

				tymheredd amgylchynol a gaiff ei dogfennu. Caiff tymereddau amgylchynol yr ystafelloedd eu cofnodi er mwyn rhoi sicrwydd bod meddyginiaethau yn cael eu storio yn unol â'r amodau tymheredd a argymhellir. Pan fydd tymheredd y tu allan i'r amrediad a argymhellir, caiff y mater ei uwchgyfeirio a chaiff camau gweithredu priodol eu cymryd a'u cofnodi. Bydd y cofnodion monitro tymheredd amgylchynol yn dangos bod y cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau ac yn dangos cydymffurfiaeth barhaus.		cofnodi a'u hadolygu'n rheolaidd, a chaiff unrhyw ddarlleniadau y tu allan i'r amodau storio a argymhellir eu huwchgyfeirio a chaiff y camau gweithredu a gymerir eu dogfennu.
18	Gwelsom ddau silindr ocsigen yn y practis: silindr ocsigen mawr nad oedd wedi'i osod yn sownd a silindr	Dylai'r practis wneud y canlynol: • gosod y silindr ocsigen mawr yn	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) – Diogel, Y Gweithlu, Gwybodaeth,	Y trefniadau presennol Roedd gan y Practis eisoes drefniadau sefydledig ar gyfer y cyfarpar brys, gan gynnwys gwiriadau	Yr Uwch-nyrs Gyda chymorth: Y Dirprwy Reolwyr a'r	Wedi'i gwblhau: Cafodd y silindr ocsigen mawr ei atodi'n gadarn – 30 Gorffennaf 2026.

	ocsigen falf integredig BOC CD. Nid oedd y silindr mawr wedi'i osod yn sownd. Nid oedd y staff wedi cael hyfforddiant ar sut i ddefnyddio silindr ocsigen falf integredig BOC CD.	sownd i'w atal rhag cwmpo drosodd • sicrhau bod yr aelodau perthnasol o'r staff yn cwblhau hyfforddiant ar-lein priodol ar sut i ddefnyddio silindr ocsigen falf integredig BOC CD.	Dysgu, gwella ac ymchwil.	rheolaidd o'r cyfarpar ocsigen brys. Cam gweithredu wedi'i gwblhau Cafwyd teclyn wedi'i gynllunio'n benodol i atodi'r silindr ocsigen mawr a oedd yn sefyll yn rhydd yn sownd a chafodd ei osod ar 30 Gorffennaf 2026. Mae'r silindr bellach wedi'i ddal yn sownd yn ei safle storio dynodedig. Yn dilyn yr arolygiad, cysylltodd y Practis â BOC a threfnodd hyfforddiant ar-lein penodol ar gyfer silindr ocsigen falf integredig CD BOC i'r aelodau perthnasol o staff. Camau gweithredu pellach Bydd yr aelodau perthnasol o'r staff yn cwblhau hyfforddiant BOC ar gyfer y model penodol erbyn 30 Medi 2026. Caiff yr	staff clinigol perthnasol	Yn mynd rhagddo: Trefnwyd hyfforddiant ar-lein BOC ar gyfer y model penodol i'r aelodau perthnasol o staff. Dyddiad cwblhau targed: Yr aelodau perthnasol o staff i gwblhau'r hyfforddiant erbyn 30 Medi 2026. Sicrwydd parhaus: Caiff y broses o gwblhau'r hyfforddiant a'r gofynion ar gyfer hyfforddiant gloywi eu monitro drwy fatrics hyfforddiant y Practis, a chaiff y trefniadau ar gyfer storio ocsigen eu monitro drwy wiriadau rheolaidd o'r cyfarpar brys.
--	--	--	----------------------------------	---	---	--

				hyfforddiant a gwblheir ei gofnodi ar fatrics hyfforddiant y Practis a'i fonitro drwy'r trefniadau hyfforddiant sefydledig. Bydd y cofnodion/tystysgrifau ar gyfer yr hyfforddiant ar y silindr wedi'i atodi a'r hyfforddiant staff yn dangos bod y cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau.		
19	Nid oedd y polisi diogelu ar gyfer oedolion yn cynnwys prosesau digon manwl i arwain y staff ynghylch pryd i wneud atgyfeiriad, at bwy y dylid atgyfeirio, na sut i geisio cyngor priodol. Nid oedd y polisi ar gyfer plant a phobl ifanc yn cynnwys gwybodaeth gyswllt hanfodol chwaith.	Rhaid i'r practis sicrhau bod y polisiâu diogelu yn cael eu diwygio er mwyn cynnwys prosesau atgyfeirio clir, llwybrau uwchgyfeirio, llwybrau diogelu lleol a gwybodaeth gyswllt hanfodol.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) – Diogel, Gwybodaeth, Effeithiol, Dysgu, gwella ac ymchwil.	Y trefniadau presennol Roedd gan y Practis eisoes bolisiâu diogelu sefydledig ar gyfer oedolion a phlant a phobl ifanc, gan gynnwys trefniadau ar gyfer rhoi gwybod am bryderon diogelu, eu huwchgyfeirio a'u hatgyfeirio. Cam gweithredu wedi'i gwblhau Yn dilyn yr arolygiad, aeth y Practis ati i adolygu a diweddarau'r	Arweinydd Diogelu'r Practis Gyda chymorth: Yr Arweinydd Llywodraethu Clinigol a'r Tîm Rheoli	Wedi'i gwblhau: Cafodd y polisiâu diogelu oedolion a phlant a phobl ifanc eu hadolygu a'u diweddarau – Gorffennaf 2026. Wedi'i gwblhau: Cafodd y polisiâu diwygiedig eu cyfleu i'r staff – Gorffennaf 2026. Sicrwydd parhaus: Caiff y polisiâu, y llwybrau a'r wybodaeth gyswllt ar gyfer materion diogelu

				ddau bolisi diogelu er mwyn gwella'r wybodaeth sydd ar gael i'r staff. Mae'r polisïau diwygiedig bellach yn nodi'r canlynol: • pryd a sut y dylid atgyfeirio pryderon diogelu; • llwybrau uwchgyfeirio mewnol ac allanol; • y llwybrau a'r trefniadau diogelu lleol perthnasol ar gyfer gofyn am gyngor; • manylion cyswllt cyfredol ar gyfer gwasanaethau diogelu perthnasol. Mae'r polisïau diwygiedig ar gael i'r staff ac mae tîm y Practis wedi cael gwybod am y newidiadau a wnaed.		eu hadolygu'n rheolaidd a'u diweddarau pan gaiff newidiadau eu nodi.
--	--	--	--	--	--	---

				Bydd y polisïau diogelu diwygiedig a'r cofnodion sy'n cadarnhau bod y staff wedi cael gwybod am y newidiadau yn dangos bod y cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau. Sicrwydd parhaus Bydd y polisïau diogelu yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ac yn dilyn unrhyw newidiadau i lwybrau diogelu lleol neu wybodaeth gyswllt.		
20	Gwelsom fod nifer o gleifion sy'n oedolion yn parhau i fod wedi'u cofnodi ar y gofrestr amddiffyn plant ac nad oeddent wedi cael eu dileu ar ôl i'w hamgylchiadau newid.	Dylai'r practis gyflwyno proses ffurfiol i adolygu codau amddiffyn plant yn rheolaidd, diweddar cofnodion yn briodol a chymhwyso cod clinigol penodol i nodi pan fydd marciwr amddiffyn plant wedi'i ddileu.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) – Diogel, Gwybodaeth, Effeithiol, Dysgu, gwella ac ymchwil.	Y trefniadau presennol Mae'r Practis yn cadw gwybodaeth ddiogelu hanesyddol fel rhan o'r cofnod clinigol er mwyn sicrhau bod hanes diogelu perthnasol ar gael o hyd i'r clinigwyr. Cam gweithredu wedi'i gwblhau Cafodd y broses ddiogelu ei hadolygu ar 16 Gorffennaf 2026 a'i hatgyfnerthu i sicrhau	Arweinydd Diogelu'r Practis Gyda chymorth: Yr Arweinydd Llywodraethu Clinigol, y Tîm Rheoli a'r staff gweinyddol perthnasol	Wedi'i gwblhau: Cafodd y broses ddiogelu ei hadolygu a chadarnhawyd y cod priodol ar gyfer marcwyr amddiffyn plant anweithredol – 16 Gorffennaf 2026. Yn mynd rhagddo: Adolygiad o'r cofnodion oedolion a nodwyd sy'n cynnwys codau amddiffyn plant hanesyddol.

				bod y broses codio sy'n gysylltiedig ag amddiffyn plant yn gwahaniaethu'n glir rhwng statws diogelu hanesyddol a chyfredol. Nodwyd cod clinigol penodol i'w ddefnyddio pan na fydd marciwr amddiffyn plant yn weithredol mwyach. O ganlyniad, gellir cofnodi statws cyfredol y claf yn glir, gan gadw'r wybodaeth ddiogelu hanesyddol berthnasol ar yr un pryd. Camau gweithredu pellach Mae'r cofnodon oedolion presennol sy'n cynnwys codau amddiffyn plant hanesyddol wrthi'n cael eu hadolygu. Lle nad oes marciwr amddiffyn plant yn weithredol mwyach, caiff y cod statws priodol ei ychwanegu ond gan gadw'r wybodaeth ddiogelu hanesyddol.		Dyddiad cwblhau targed: Cwblhau'r adolygiad o gofnodion erbyn 30 Medi 2026. Sicrwydd parhaus: Caiff codau diogelu eu hadolygu pan fydd cleifion yn dod yn oedolion, ar ôl cael hysbysiad o newid mewn statws diogelu a phan gaiff materion eu nodi drwy adolygiad o gofnodion.
--	--	--	--	---	--	--

				Caiff codau diogelu hefyd eu hadolygu pan fydd claf yn dod yn oedolyn, pan gaiff y Practis ei hysbysu o newid mewn amgylchiadau diogelu, a phan fydd adolygiad o gofnod yn nodi nad yw'r statws cyfredol wedi'i gofnodi'n glir. Bydd y broses ddiogelu ddiwygiedig a'r adolygiad o'r cofnodion a nodwyd a gwblheir yn dangos bod y cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau.		
21	Gwelsom nad oedd y polisi diogelu plant yn cynnwys cod perthnasol ar gyfer aelod o'r teulu.	Dylai'r practis ddiweddarau'r polisi er mwyn cynnwys canllawiau codio diogelu perthnasol, gan gynnwys codio ar gyfer aelodau o'r teulu lle y bo'n briodol.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) – Arweinyddiaeth, Diogel, Gwybodaeth, Dysgu, gwella ac ymchwil.	Cam gweithredu wedi'i gwblhau Fel rhan o'r adolygiad o'r polisi diogelu a gwblhawyd ar 16 Gorffennaf 2026, cafodd y polisi diogelu plant a phobl ifanc ei ddiweddarau i roi canllawiau cliriach ar godau diogelu, gan gynnwys y drefn briodol ar gyfer codio aelodau	Arweinydd Diogelu'r Practis Gyda chymorth: Yr Arweinydd Llywodraethu Clinigol a'r staff clinigol/gweinyddol perthnasol	Wedi'i gwblhau: Cafodd y polisi diogelu a'r canllawiau codio eu diweddarau – 16 Gorffennaf 2026. Sicrwydd parhaus: Caiff y canllawiau codio eu hadolygu drwy drefniadau sefydledig y Practis ar gyfer adolygu'r polisi diogelu.

				perthnasol o'r teulu lle bo angen. Mae'r canllawiau diwygiedig wedi'u cynnwys yn y polisi diogelu ac wedi'u cyfleu i'r aelodau perthnasol o'r staff. Bydd y polisi diogelu diwygiedig a'r canllawiau codio cysylltiedig yn dangos bod y cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau. Sicrwydd parhaus Caiff y canllawiau codio diogelu eu hadolygu fel rhan o adolygiad rheolaidd y Practis o'r polisi diogelu a'u diweddarau pan fydd y gofynion codio neu'r canllawiau diogelu yn newid.		
22	Ni welsom unrhyw gofnodion ffurfiol yn dogfennu bod gwiriadau o ddyfeisiau a	Dylai'r practis gynnal cofnod ffurfiol o wiriadau o ddyfeisiau a chyfarpar meddygol.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) – Arweinyddiaeth, Diogel,	Y trefniadau presennol Roedd prosesau sefydledig eisoes ar waith gan y Practis i wirio a chynnal a chadw	Y Dirprwy Reolwr Gyda chymorth: Yr Uwch-nyrs a'r Tîm Nyrsio	Trefniant presennol: Roedd gwiriadau o ddyfeisiau meddygol a chyfarpar a chofnodion

	chyfarpar meddygol wedi'u cwblhau.		Gwybodaeth, Dysgu, gwella ac ymchwil. dyfeisiau a chyfarpar meddygol. Roedd arweinydd rheoli dynodedig yn gyfrifol am oruchwyllo'r broses, ac roedd cofnodion yn cael eu cadw gan gynnwys tystysgrifau gwasanaethu, cofnodion cynnal a chadw a'r gwiriadau o gyfarpar a gwblhawyd. Sicrwydd ychwanegol yn dilyn yr arolygiad Yn dilyn yr arolygiad, aeth y Practis ati i adolygu'r ffordd y caiff gwiriadau a gwblheir o gyfarpar eu cofnodi a'u cadw er mwyn sicrhau bod llwybr archwilio clir y gellir ei adnabod yn hawdd sy'n dangos pryd y cafodd gwiriadau eu cynnal. Bydd y trefniadau cofnodi presennol yn parhau i ddogfennu dyddiad y gwiriad, y cyfarpar a adolygwyd, unrhyw gamau		cysylltiedig ar waith cyn yr arolygiad. Wedi'i adolygu: Cafodd y trefniadau cofnodi a goruchwyllo eu hadolygu yn dilyn yr arolygiad – Gorffennaf 2026. Sicrwydd parhaus: Bydd cofnodon o'r gwiriadau cyfarpar a gwblheir yn dal i gael eu cadw a'u monitro, gydag unrhyw gamau gweithredu a nodwyd yn cael eu holrhain hyd nes y cânt eu cwblhau.
--	------------------------------------	--	---	--	---

				gweithredu a nodwyd a chadarnhad eu bod wedi'u cwblhau. Bydd y dystiolaeth yn cynnwys cofnodion o'r gwiriadau cyfarpar a gwblhawyd ynghyd â'r ddogfennaeth gwasanaethu a chynnal a chadw berthnasol. Sicrwydd parhaus Bydd gwiriadau o ddyfeisiau meddygol a chyfarpar yn parhau i gael eu cynnal mor aml ag sy'n ofynnol, caiff cofnodion eu cadw a chaiff unrhyw gamau cynnal a chadw neu gamau unioni a nodir eu monitro hyd nes iddynt gael eu cwblhau.		
23	Daethpwyd o hyd i eitemau mewn ardaloedd clinigol yr oedd eu dyddiad defnyddio wedi mynd heibio ond nad oeddent wedi cael eu gwaredu.	Dylai'r practis adolygu a chryfhau ei system bresennol ar gyfer gwirio a gwaredu eitemau y mae eu dyddiad defnyddio wedi mynd heibio o'r ardaloedd clinigol, er	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) – Diogel, Effeithiol, Arweinyddiaeth, Gwybodaeth.	Y trefniadau presennol Roedd gan y Practis system sefydledig a oedd yn cael ei dogfennu ar waith ar gyfer gwirio stoc cyn yr arolygiad, ac roedd y tîm nyrsio yn cael	Yr Uwch-nyrs Gyda chymorth: Y Dirprwy Reolwr a'r Tîm Nyrsio	Trefniant presennol: Roedd system wedi'i dogfennu ar waith ar gyfer gwirio stoc a dyddiadau defnyddio cyn yr arolygiad.

	Roedd y rhain yn cynnwys poteli casglu gwaed, nodwyddau a swabiau.	mwyn sicrhau mai dim ond eitemau cyfredol a diogel sydd ar gael i'w ddefnyddio.	amser gwarchodedig i wirio stoc glinigol a dyddiadau defnyddio. Rhoddir y gorau i ddefnyddio unrhyw eitemau y mae'r dyddiad defnyddio arnynt wedi mynd heibio, eitemau sydd wedi'u difrodi neu eitemau anaddas a nodir. Cafwyd gwared ar unwaith ar yr eitemau y nodwyd yn ystod yr arolygiad bod y dyddiad defnyddio arnynt wedi mynd heibio. Sicrwydd ychwanegol yn dilyn yr arolygiad Yn dilyn yr arolygiad, cafodd y trefniadau presennol eu cryfhau drwy atgyfnerthu gwiriadau wythnosol o eitemau traul clinigol a diwygio'r ffurflen gwirio stoc ym mis Mehefin 2026. Mae'r ffurflen ddiwygiedig yn darparu		Wedi'i gwblhau: Cafwyd gwared ar unwaith ar yr eitemau y nodwyd yn ystod yr arolygiad fod y dyddiad defnyddio arnynt wedi mynd heibio. Wedi'i gwblhau: Atgyfnerthwyd y gofynion ar gyfer gwiriadau wythnosol a chyflwynwyd ffurflen gwirio stoc ddiwygiedig – Mehefin 2026. Yn mynd rhagddo: Mae storfa ganolog ar gyfer cyflenwadau clinigol wrthi'n cael ei datblygu. Dyddiad cwblhau targed: Disgwylir i'r storfa ganolog ar gyfer cyflenwadau clinigol fod yn weithredol erbyn mis Tachwedd 2026. Sicrwydd parhaus: Bydd y gwiriadau
--	---	--	--	--	--

				llwybr archwilio cliriach, gan gofnodi dyddiad a lleoliad y gwiriad, yr ardaloedd/eitemau a adolygwyd, yr eitemau a nodwyd lle roedd y dyddiad defnyddio arnynt wedi mynd heibio, unrhyw gamau gweithredu yr oedd eu hangen ac a gymerwyd, a'r aelod o staff a gwblhaodd y gwiriad. Bydd y cofnodion o'r gwiriadau stoc a gwblhawyd yn darparu tystiolaeth o gydymffurfiaeth barhaus. Gwelliant pellach Rydym hefyd yn datblygu storfa ganolog ar gyfer cyflenwadau clinigol er mwyn gwella'r broses o drefnu, cylchdroi a goruchwyllo stoc ar draws safleoedd y Practis. Bydd y storfa yn weithredol erbyn mis Tachwedd 2026 ac yn		wythnosol o'r stoc glinigol yn parhau, gyda'r cofnodion a gwblheir yn cael eu cadw ac eitemau y mae eu dyddiad defnyddio wedi mynd heibio neu eitemau anaddas yn cael eu gwaredu.
--	--	--	--	--	--	--

				cael ei gwirio bob wythnos gan y tîm nyrsio. Bydd gwiriadau wythnosol o'r cyflenwadau yn yr ystafelloedd clinigol unigol yn parhau, a chaiff unrhyw eitemau y mae'r dyddiad defnyddio arnynt wedi mynd heibio neu eitemau anaddas eu gwaredu ar unwaith a chaiff y camau gweithredu eu cofnodi.		
24	Ni welsom bolisi llif gwaith a oedd yn nodi'n glir sut y dylid dirprwyo gohebiaeth.	Dylai'r practis ddatblygu polisi llif gwaith ysgrifenedig i gefnogi'r gwaith o reoli gohebiaeth sy'n dod i law mewn modd cyson a diogel.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) – Arweinyddiaeth, Effeithiol, Diogel, Gwybodaeth.	Cam gweithredu wedi'i gwblhau Aeth y Practis ati i ddatblygu polisi llif gwaith ysgrifenedig a'i roi ar waith ym mis Mehefin 2026, gan nodi'r trefniadau ar gyfer rheoli gohebiaeth sy'n dod i law mewn modd cyson a diogel. Mae'r polisi yn diffinio'r canlynol yn glir: derbyn gohebiaeth a'r	Y Dirprwy Reolwyr Gyda chymorth: Y Partneriaid Clinigol a'r arweinwyr gweinyddol perthnasol	Wedi'i gwblhau: Cafodd polisi llif gwaith ysgrifenedig ei ddatblygu a'i roi ar waith – Mehefin 2026. Sicrwydd parhaus: Caiff cydymffurfiaeth a'r llif gwaith sy'n weddill eu monitro drwy'r trefniadau goruchwyllo gweithredol arferol, a chaiff y polisi ei adolygu a'i ddiweddarau lle bo angen.

				drefn gychwynnol ar gyfer bwrw golwg drosti; • dyrannu a dirprwyo i'r clinigydd priodol neu'r aelod priodol o staff gweinyddol; • cofnodi a chwblhau'r camau gweithredu gofynnol; • uwchgyfeirio gohebiaeth frys, gohebiaeth aneglur neu ohebiaeth nad ymatebwyd iddi; • cyfrifoldebau staff clinigol a gweinyddol; • monitro tasgau llif gwaith heb eu cwblhau. Mae'r polisi ar gael i aelodau perthnasol o'r staff ac mae'n darparu		
--	--	--	--	---	--	--

				fframwaith clir ar gyfer rheoli gohebiaeth sy'n dod i law mewn modd cyson. Bydd y polisi llif gwaith a gaiff ei roi ar waith yn dangos bod y cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau. Sicrwydd parhaus Caiff y polisi ei adolygu drwy drefniadau sefydledig y Practis ar gyfer llywodraethu a rheoli dogfennau a'i ddiweddarau pan fydd systemau, cyfrifoldebau neu brosesau llif gwaith yn newid. Bydd cydymffurfiaeth a'r llif gwaith sy'n weddill yn parhau i gael eu monitro drwy'r trefniadau goruchwyllo gweithredol arferol.		
25	Roedd proses eisoed ar waith gan y practis ar gyfer adolygu	Dylai'r practis atgyfnerthu a dogfennu ei broses bresennol ar gyfer canlyniadau	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) – Diogel,	Y trefniadau presennol Roedd gan y Practis eisoed drefniadau sefydledig ar gyfer nodi	Yr Arweinydd Llywodraethu Clinigol Gyda chymorth: Y	Trefniadau presennol: Roedd trefniadau ar gyfer adalw cleifion a

	canlyniadau profion, rhoi camau gweithredu dilynol ar waith a chysylltu â chleifion lle bo angen. Fodd bynnag, ni welsom broses wedi'i dogfennu o'r dechrau i'r diwedd ar gyfer olrhain profion yr oedd angen eu hailadrodd neu eu haildrefnu hyd at y cam o gael cadarnhad bod y apwyntiad wedi'i drefnu a bod yr ymchwiliad wedi'i gwblhau.	profion a chatau dilynol er mwyn sicrhau y caiff profion y mae angen eu hailadrodd neu eu haildrefnu eu holrhain i sicrhau bod apwyntiadau wedi'u trefnu a bod y broses wedi'i chwblhau, gan uwchgyfeirio achosion lle na fydd cleifion yn ymateb neu'n mynychu mewn ffordd gymesur.	Effeithiol, Amserol, Gwybodaeth.	profion gwaed rheolaidd ac ymchwiliadau eraill a chysylltu â chleifion i drefnu'r apwyntiadau dilynol gofynnol. Camau gweithredu pellach Mae'r broses bresennol yn cael ei hatgyfnerthu i gynnwys proses olrhain wedi'i dogfennu ar gyfer ymchwiliadau rheolaidd. Wrth wneud cais am brawf neu ymchwiliad rheolaidd, bydd y clinigydd yn cofnodi'r amserlen ofynnol a'r trefniadau dilynol priodol, gan ystyried y symptomau clinigol a lefel y risg. Caiff ymchwiliadau rheolaidd heb eu cwblhau eto eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn cadarnhau a yw'r ymchwiliad wedi'i drefnu ac wedyn a gaiff ei gwblhau. Lle y bydd yn dal heb ei gwblhau, bydd	Dirprwy Reolwyr a'r staff clinigol a gweinyddol perthnasol	chysylltu â chleifion ar gyfer profion rheolaidd ar waith cyn yr arolygiad. Yn mynd rhagddo: Mae'r trefniadau tracio ac olrhain seiliedig ar risg a gaiff eu dogfennu wrthi'n cael eu rhoi ar waith fel rhan o'r broses ar gyfer profion rheolaidd. Dyddiad cwblhau targed: Caiff y broses ddiwygiedig ei rhoi ar waith erbyn 30 Medi 2026. Sicrwydd parhaus: Caiff ymchwiliadau rheolaidd sydd heb eu cwblhau eto eu hadolygu yn unol â'r amllder a ddiffinnir yn y broses ddiwygiedig, a chaiff y camau olrhain ac uwchgyfeirio eu dogfennu'n unol â'r risg glinigol.
--	--	---	---	---	--	--

				y clinigydd cyfrifol yn penderfynu a oes angen cysylltu â'r claf eto neu uwchgyfeirio'r mater gan ystyried y risg glinigol, a chaiff y camau gweithredu a'r penderfyniadau clinigol eu cofnodi yng nghofnod y claf. Bydd hyn yn darparu llwybr archwilio clir o adeg y cais am ymchwiliad rheolaidd hyd at ei gwblhau neu wneud penderfyniad clinigol wedi'i ddogfennu'n briodol. Bydd y dystiolaeth yn cynnwys y broses ddiwygiedig ar gyfer profion rheolaidd a chofnodion sy'n dangos bod ymchwiliadau rheolaidd yn cael eu tracio a'u holrhain.		
26	Gwnaethom edrych ar gofnod un claf lle roedd meddyg teulu wedi gofyn am	Dylai'r practis gryfhau'r trefniadau ar gyfer cofnodi atgyfeiriadau am ddelweddu	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) – Diogel,	Y trefniadau presennol Roedd gan y Practis eisoes drefniadau sefydledig ar gyfer	Yr Arweinydd Llywodraethu Clinigol Gyda chymorth: Y	Trefniadau presennol: Roedd trefniadau ar gyfer gwneud

	archwiliad pelydr-X yn dilyn ymgynghoriad o bell heb archwiliad wyneb yn wyneb. Ni nododd y tîm arolygu bryder ynghylch priodolrwydd clinigol y penderfyniad. Fodd bynnag, nid oedd y cofnod yn dogfennu'n glir pam nad ystyriwyd bod angen archwiliad wyneb yn wyneb.	diagnostig sy'n deillio o ymgynghoriadau o bell. Dylai'r cofnodion clinigol ddangos yn glir yr asesiad a gynhaliwyd, y rhesymeg dros yr atgyfeiriad, a pham nad ystyriwyd bod archwiliad wyneb yn wyneb yn angenrheidiol. Bydd hyn yn cefnogi parhad gofal, yn rhoi sicrwydd bod y cleifion yn cael eu hasesu gan ddefnyddio'r dull ymgynghori mwyaf priodol ar gyfer eu cyflwyniad, ac yn sicrhau bod atgyfeiriadau'n cynnwys digon o wybodaeth glinigol i gefnogi cyfiawnhad o dan IR(ME)R	Yn canolbwyntio ar yr unigolyn, Effeithiol. IR(ME)R 2017 – Rheoliad 10	ymgyngoriadau o bell, gyda'r clinigwyr yn penderfynu ar y dull mwyaf priodol ar gyfer yr ymgynghoriad, archwiliadau ac ymchwiliadau yn unol â symptomau ac anghenion clinigol y claf. Roedd y canfyddiad yn ymwneud ag un enghraifft a nodwyd yn ystod yr arolygiad. Trafodwyd yr achos hwn â'r Arolygydd Meddygon Teulu yn ystod yr arolygiad a chytunwyd bod y camau rheoli clinigol a roddwyd ar waith, gan gynnwys y penderfyniad i ofyn am archwiliad delweddu diagnostig yn dilyn yr asesiad o bell, yn briodol o safbwynt clinigol. Roedd y maes a nodwyd i'w wella yn ymwneud â sicrhau bod y rhesymeg glinigol i ategu'r penderfyniad hwnnw yn	Meddygon Teulu sy'n Bartneriaid	penderfyniadau clinigol a chynnal ymgynghoriadau o bell ar waith cyn yr arolygiad. Wedi'i gwblhau: Cafodd clinigwyr eu hatgoffa o'r gofynion o ran dogfennaeth – Gorffennaf 2026. Monitro: Caiff adolygiad sampl o atgyfeiriadau delweddu diagnostig sy'n deillio o ymgynghoriadau o bell ei gwblhau erbyn mis Tachwedd 2026. Sicrwydd parhaus: Caiff y canfyddiadau ac unrhyw wersi i'w dysgu a nodir eu hadolygu drwy drefniadau llywodraethu clinigol y Practis.
--	---	---	--	--	---	--

				ddigon clir yng nghofnod y claf. Sicrwydd ychwanegol yn dilyn yr arolygiad Yn dilyn yr arolygiad, cafodd clinigwyr eu hatgoffa o'r gofynion o ran dogfennaeth ar gyfer atgyfeiriadau delweddu diagnostig yn deillio o ymgynghoriadau o bell. Lle y bo'n berthnasol, bydd y cofnodion yn dogfennu'n glir yr asesiad clinigol a gynhaliwyd, y rhesymeg dros yr ymchwiliad, a pham nad ystyriwyd bod angen archwiliad wyneb yn wyneb. Bydd atgyfeiriadau delweddu hefyd yn cynnwys digon o wybodaeth glinigol berthnasol i gyfiawnhau'r cais am adolygiad a chyfiawnhad gan y gwasanaeth delweddu. Caiff sampl o atgyfeiriadau delweddu diagnostig yn deillio o		
--	--	--	--	--	--	--

				ymgyngoriadau o bell ei hadolygu er mwyn rhoi sicrwydd bod y gofynion hyn o ran dogfennaeth yn cael eu cymhwyso'n gyson.		
27	Prin oedd y dystiolaeth yn y cofnodion a welsom fod dewis iaith y cleifion yn cael ei chofnodi.	Dylai'r practis sicrhau bod dewis iaith y cleifion yn cael ei chofnodi'n gyson er mwyn cefnogi prosesau cyfathrebu effeithiol a chyflawni'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) – Yn canolbwyntio ar yr unigolyn, Teg, Diogel.	Y trefniadau presennol Roedd gan y Practis eisoes drefniadau sefydledig i gefnogi'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg, gan gynnwys Polisi Dewis Iaith, nodi staff sy'n siarad Cymraeg, gwybodaeth ddwyieithog i gleifion a threfniadau ar gyfer casglu gwybodaeth am ddewis iaith cleifion drwy ddogfennaeth gofrestru ar gyfer cleifion newydd. Cam gweithredu wedi'i gwblhau Er mwyn gwella cysondeb y broses o gofnodi dewis iaith cleifion yn y cofnodion clinigol, cyhoeddwyd nodyn atgoffa i'r tîm	Y Dirprwy Reolwr Gyda chymorth: Y Goruchwylydd Gweithredol a'r staff clinigol a gweinyddol perthnasol	Trefniadau presennol: Roedd Polisi Dewis Iaith, trefniadau ar gyfer y Gymraeg ac ar gyfer casglu dewis iaith cleifion drwy'r ffurflenni ar gyfer cofrestru cleifion newydd ar waith cyn yr arolygiad. Wedi'i gwblhau: Anfonwyd nodyn atgoffa at y tîm cyfan ynghylch cofnodi a chodio dewisiadau iaith – 14 Gorffennaf 2026. Yn mynd rhagddo: Mae'r hyfforddiant Mwy na Geiriau yn cael ei fonitro drwy fatrics hyfforddiant y Practis.

				cyfan ar 14 Gorffennaf 2026, yn pwysleisio'r gofyniad i gofnodi a chodio dewis iaith pob claf yn briodol. Mae hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg 'Mwy na Geiriau' hefyd wedi'i gynnwys yn rhaglen hyfforddiant y Practis, a chaiff manylion cwblhau eu cofnodi a'u monitro drwy'r matrices hyfforddiant. Camau gweithredu pellach a sicrwydd parhaus Bydd y broses o gofnodi dewis iaith cleifion yn parhau i gael ei hatgyfnerthu drwy'r camau ar gyfer cofrestru cleifion newydd a gohebiaeth â'r staff. Caiff sampl o gofnodion cleifion ei hadolygu er mwyn rhoi sicrwydd bod gwybodaeth am ddewis iaith cleifion yn cael ei		Monitro: Caiff adolygiad sampl o'r trefniadau ar gyfer cofnodi dewis iaith cleifion ei gwblhau erbyn 31 Hydref 2026. Sicrwydd parhaus: Ymdrinnir ag unrhyw fylchau a nodir a byddwn yn parhau i fonitro'r trefniadau ar gyfer cofnodi dewis iaith cleifion drwy drefniadau ansawdd cofnodion a llywodraethu.
--	--	--	--	--	--	--

				chofnodi a'i chodio mewn modd cyson. Ymdrinnir ag unrhyw fylchau a nodir gyda'r aelodau perthnasol o staff a chânt eu monitro drwy drefniadau ansawdd cofnodion a threfniadau'r Practis. Bydd y dystiolaeth yn cynnwys y ddogfennaeth gofrestru ar gyfer cleifion newydd, gohebiaeth â'r staff, cofnodion hyfforddiant a'r adolygiad o sampl o gofnodion a gwblheir.		
28	Nid oedd gan y practis broses ar waith ar hyn o bryd i adolygu ansawdd cofnodion a chrynodebau achosion.	Dylai'r practis gyflwyno archwiliad rheolaidd o grynodedau cofnodion er mwyn rhoi sicrwydd bod cofnodion yn gywir, yn gyflawn, wedi'u codio'n briodol ac yn cynnwys cyd-destun clinigol digonol.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) – Gwybodaeth, Effeithiol, Diogel, Dysgu, gwella ac ymchwil.	Cam gweithredu wedi'i gwblhau Cyflwynodd y Practis Bolisi Crynhoi a Sicrhau Ansawdd Cofnodion ym mis Gorffennaf 2026, yn nodi'r safonau gofynnol ar gyfer cywirdeb, cyflawnrwydd, codau clinigol priodol, cyd-destun clinigol digonol a	Y Partneriaid Clinigol Gyda chymorth: Y Dirprwy Reolwyr a'r staff codio a chrynhoi perthnasol	Wedi'i gwblhau: Cyflwynwyd y Polisi Crynhoi a Sicrhau Ansawdd Cofnodion a chytunwyd ar y broses ar gyfer cynnal archwiliadau misol – Gorffennaf 2026. Yn mynd rhagddo: Caiff amser gwarchodedig ei neilltuo i'r Partner

				gwybodaeth hanesyddol berthnasol. Lluniwyd proses ar gyfer cynnal archwiliadau sicrhau ansawdd bob mis hefyd. Bydd un o'r Partneriaid Clinigol yn adolygu sampl o gofnodion wedi'u crynhoi a'u codio yn erbyn y safonau yn y polisi. Camau gweithredu pellach a sicrwydd parhaus Bydd yr archwiliadau misol yn dechrau erbyn 3 Medi 2026, a chaiff amser gwarchodedig ei neilltuo i'r Partner Clinigol gynnal yr adolygiadau. Caiff canfyddiadau'r archwiliadau, themâu sy'n ailadrodd ac unrhyw gamau gweithredu gofynnol eu cofnodi a'u hadolygu drwy drefniadau llywodraethu clinigol y Practis. Lle nodir gwelliant, rhoddir		Clinigol gynnal yr archwiliadau. Dyddiad dechrau targed: Cwblhau'r archwiliad sicrhau ansawdd cyntaf erbyn 30 Medi 2026. Sicrwydd parhaus: Caiff archwiliadau misol eu cynnal, a chaiff y canfyddiadau, y themâu a'r camau gweithredu sy'n deillio ohonynt eu dogfennu a'u monitro drwy drefniadau llywodraethu clinigol.
--	--	--	--	--	--	--

				adborth a chymorth i'r aelodau perthnasol o staff, a chynhelir adolygiad pellach lle bo angen. Bydd y dystiolaeth yn gynnwys y Polisi Crynhoi a Sicrhau Ansawdd Cofnodion a'r cofnodion o'r archwiliad misol a gwblheir, gan gynnwys unrhyw gamau gweithredu yn deillio o'r archwiliadau hyn.		
29	Gellid gwella ymwybyddiaeth staff mewn rhai meysydd. Roedd yr ymatebion am gymorth i ofalwyr yn gymysg. Nid oedd tri ymatebydd yn ymwybodol o'r cymorth iechyd galwedigaethol a llesiant a oedd ar gael. Roedd yr ymatebion ynghylch atal a rheoli heintiau yn gadarnhaol ar y cyfan, fodd bynnag	Dylai'r practis wneud y canlynol: • gwella ymwybyddiaeth y staff o'r trefniadau cymorth i ofalwyr • cynyddu ymwybyddiaeth o gymorth iechyd galwedigaethol a llesiant • adolygu'r ffordd y mae'r trefniadau glanhau ar gyfer atal a	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) – Y Gweithlu, Yn canolbwyntio ar yr unigolyn, Diwylliant, Arweinyddiaeth, Dysgu, gwella ac ymchwil.	Y trefniadau presennol Roedd gan y Practis eisoes drefniadau sefydledig ar gyfer cymorth i ofalwyr, llesiant staff ac atal a rheoli heintiau, gan gynnwys Arweinydd Gofalwyr dynodedig, mynediad at wasanaethau iechyd a llesiant galwedigaethol, a threfniadau glanhau drwy gontract yn cynnwys llwybrau i'r staff roi gwybod am bryderon.	Y Dirprwy Reolwyr Gyda chymorth: Yr Arweinydd Gofalwyr, y Goruchwylydd Gweithredol a'r Arweinydd Atal a Rheoli Heintiau	Wedi'i gwblhau: Cafodd y tîm cyfan ei atgoffa o wybodaeth am wasanaethau iechyd a llesiant galwedigaethol – yr wythnos yn dechrau 20 Gorffennaf 2026. Yn mynd rhagddo: Hyfforddiant cymorth i ofalwyr i dîm y dderbynfa – 20 Awst, 15 Medi a 14 Hydref 2026. Wedi'i drefnu: Hyfforddiant Deall

	roedd dau ymatebydd yn anghytuno bod amserlen lanhau effeithiol ar waith.	rheoli heintiau yn cael eu cyfleu i'r staff.		Cam gweithredu wedi'i gwblhau Anfonwyd nodyn atgoffa at y tîm cyfan yn ystod yr wythnos yn dechrau 20 Gorffennaf 2026, yn nodi'r cymorth iechyd a llesiant galwedigaethol sydd ar gael i'r staff a sut y gellir cael gafael arno. Camau gweithredu pellach Er mwyn gwella ymwybyddiaeth y staff a'u hyder wrth roi cymorth i ofalwyr, trefnwyd hyfforddiant allanol penodol ar gymorth i ofalwyr i staff y dderbynfa ar draws tair sesiwn ar 20 Awst, 15 Medi a 14 Hydref 2026, a bydd pob aelod o dîm y dderbynfa yn mynychu un o'r sesiynau hynny. Mae hyfforddiant Deall Anghenion Gofalwyr hefyd wedi'i drefnu i'r Arweinydd Gofalwyr ac uwch-aelodau		Anghenion Gofalwyr i'r Arweinydd Gofalwyr ac uwch-aelodau perthnasol o'r staff – 19 Tachwedd 2026. Dyddiad cwblhau targed: Caiff y staff eu hatgoffa o'r trefniadau glanhau ac atal a rheoli heintiau a'r llwybrau adrodd erbyn 30 Medi 2026. Sicrwydd parhaus: Byddwn yn parhau i atgyfnerthu ymwybyddiaeth o gymorth i ofalwyr, gwasanaethau llesiant staff a'r trefniadau adrodd ar gyfer materion glanhau/atal a rheoli heintiau drwy hyfforddiant sefydlu, gohebiaeth â'r staff a hyfforddiant perthnasol.
--	--	---	--	--	--	--

				perthnasol o'r staff ar 19 Tachwedd 2026. Caiff y staff hefyd eu hatgoffa am drefniadau atal a rheoli heintiau'r Practis, gan gynnwys sut i roi gwybod am unrhyw bryderon glanhau neu atal a rheoli heintiau ac uwchgyfeirio pryderon o'r fath, ac i bwy. Bydd gohebiaeth â'r staff a chofnodion mynychu/cwblhau hyfforddiant gofalmwr yn dangos bod y cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau.		
30	Dywedodd y staff wrthym fod y practis yn ailadrodd gwiriadau DBS bob tair blynedd.	Dylai'r practis ystyried cyflwyno hunanddatganiad DBS dros dro blyneddol fel rhan o'r broses arfarnu, er mwyn rhoi sicrwydd ychwanegol rhwng gwiriadau DBS ffurfiol.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) – Y Gweithlu, Diogel, Arweinyddiaeth.	Y trefniadau presennol Roedd gan y practis eisoes broses sicrwydd DBS sefydledig, ac roedd gwiriadau'r DBS yn cael eu hadnewyddu bob tair blynedd gyda chydymffurfiaeth yn cael ei monitro drwy fatrics DBS canolog wedi'i gadw	Y Rheolwr Adnoddau Dynol Gyda chymorth: Y rheolwyr llinell perthnasol a'r darparwr Adnoddau Dynol allanol	Trefniadau presennol: Roedd trefniadau adnewyddu bob tair blynedd y DBS a threfniadau monitro canolog ar waith cyn yr arolygiad. Wedi'i gwblhau: Cafodd hunanddatganiadau

				gan y Rheolwr Adnoddau Dynol. Caiff dyddiadau adnewyddu eu holrhain a chaiff staff eu hatgoffa ymlaen llaw pan fydd angen cynnal gwiriadau newydd. Cam gweithredu wedi'i gwblhau Er mwyn rhoi sicrwydd ychwanegol rhwng dyddiadau adnewyddu ffurfiol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), cafodd hunanddatganiad DBS interim blynyddol ei gynnwys fel rhan o'r ddogfennaeth arfarnu staff o 11 Mehefin 2026. Mae'r datganiad yn ei gwneud yn ofynnol i'r staff gadarnhau a fu unrhyw newidiadau a allai effeithio ar eu haddasrwydd i ymgymryd â'u rôl, a chaiff unrhyw ddatgeliadau eu		DBS interim blynyddol eu cynnwys fel rhan o'r ddogfennaeth arfarnu staff – 11 Mehefin 2026. Sicrwydd parhaus: Caiff hunanddatganiadau eu cwblhau fel rhan o'r arfarniadau staff blynyddol, a chaiff adnewyddiadau ffurfiol y DBS eu monitro drwy fatrics canolog y DBS o hyd.
--	--	--	--	--	--	---

				hadolygu a'u huwchgyfeirio'n briodol. Bydd y ddogfennaeth arfarnu ddiwygiedig a'r hunanddatganiadau blynyddol a gwblheir yn dangos bod y cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau. Sicrwydd parhaus Bydd hunanddatganiad blynyddol y DBS yn rhan o arfarniad pob aelod o staff yn y dyfodol ochr yn ochr â'r broses adnewyddu bresennol bob tair blynedd a gynhelir gan y DBS. Caiff cyfraddau cwblhau eu monitro drwy'r broses arfarni, a bydd dyddiadau adnewyddu ffurfiol y DBS yn parhau i gael eu monitro drwy'r matrices canolog.		
31	Ni welsom unrhyw dystiolaeth o brofion sgrinio iechyd cyn cyflogi.	Dylai'r practis sicrhau bod profion sgrinio iechyd cyn cyflogi yn cael eu cwblhau ar gyfer pob aelod newydd	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) – Y Gweithlu,	Cam gweithredu wedi'i roi ar waith Yn dilyn yr arolygiad, mae'r Practis wedi	Y Rheolwr Adnoddau Dynol Gyda chymorth: Y	Wedi'i roi ar waith: Cafodd profion sgrinio iechyd cyn cyflogi eu cynnwys yn y broses recriwtio/aelodau

		o staff, a bod asesiadau risg priodol yn cael eu cynnal lle y caiff materion iechyd eu nodi.	Diogel, Arweinyddiaeth.	ffurfioli profion sgrinio iechyd cyn cyflogi fel rhan o'i broses recriwtio. Bydd pob aelod newydd o'r staff yn cwblhau profion sgrinio iechyd cyn cyflogi cyn dechrau gweithio. Lle bydd y wybodaeth a ddarperir yn nodi problem iechyd y gallai fod angen ei hystyried ymhellach, caiff asesiad risg a/neu atgyfeiriad iechyd galwedigaethol priodol ei gynnal cyn i'r cyflogai ddechrau ymgymryd â'i ddyletswyddau perthnasol. Caiff cwblhau'r profion ei gofnodi fel rhan o'r ddogfennaeth recriwtio ar gyfer aelodau newydd o staff er mwyn darparu llwybr archwilio clir. Bydd y dystiolaeth yn cynnwys y ddogfennaeth recriwtio ddiwygiedig/dogfennaeth	rheolwyr llinell perthnasol a'r darparwr Adnoddau Dynol allanol	newydd o'r staff – Mehefin 2026. Sicrwydd parhaus: Caiff profion sgrinio eu cwblhau a'u cofnodi ar gyfer pob aelod newydd o'r staff cyn iddo ddechrau gweithio, gydag asesiadau risg a/neu atgyfeiriadau iechyd galwedigaethol priodol yn cael eu cynnal lle y nodir.
--	--	--	-------------------------	--	---	--

				ddiwygiedig i aelodau newydd o staff a'r cofnodion o'r profion sgrinio iechyd cyn cyflogi a gwblheir. Sicrwydd parhaus Bydd y broses o gwblhau profion sgrinio iechyd cyn cyflogi yn cael ei monitro fel rhan o wiriadau recriwtio a gwiriadau i aelodau newydd o staff y Practis, gydag unrhyw asesiadau risg neu gyngor iechyd galwedigaethol yn cael eu dogfennu a'u gweithredu'n briodol.		
32	Roedd un o'r pum cofnod hyfforddiant staff a welsom yn dangos bod hyfforddiant ar y Ddyletswydd Gonestrwydd wedi cael ei gwblhau.	Dylai'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cwblhau hyfforddiant ar y Ddyletswydd Gonestrwydd sy'n briodol i'w rôl.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) – Y Gweithlu, Diogel, Arweinyddiaeth, Dysgu, gwella ac ymchwil.	Y trefniadau presennol Roedd hyfforddiant ar y Ddyletswydd Gonestrwydd eisoes yn rhan o raglen hyfforddiant staff sefydledig y Practis, ac roedd gofynion cwblhau ac adnewyddu yn cael eu	Y Dirprwy Reolwr Gyda chymorth: Y rheolwyr llinell perthnasol a'r Arweinydd Llywodraethu Clinigol	Trefniadau presennol: Roedd hyfforddiant ar y Ddyletswydd Gonestrwydd yn rhan o'r rhaglen hyfforddiant staff sefydledig cyn yr arolygiad.

				monitro drwy fatrics hyfforddiant y Practis. Sicrwydd ychwanegol yn dilyn yr arolygiad Yn dilyn yr arolygiad, dechreuodd y Practis gynnal rhaglen adnewyddu gydgysylltiedig er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf ar y Ddyletswydd Gonestrwydd sy'n briodol i'w rôl. Ar 29 Gorffennaf 2026, roedd 58% o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf. Mae'r hyfforddiant priodol wedi'i drefnu ar gyfer yr aelodau o staff sy'n weddill, a chaiff cyfraddau cwblhau eu monitro drwy fatrics hyfforddiant y Practis. Camau gweithredu pellach a sicrwydd parhaus		Yn mynd rhagddo: Mae rhaglen adnewyddu gydgysylltiedig yn mynd rhagddi; roedd 58% wedi cwblhau'r hyfforddiant erbyn 29 Gorffennaf 2026. Dyddiad cwblhau targed: Bydd pob aelod o'r staff sy'n weddill yn cwblhau'r hyfforddiant ar y Ddyletswydd Gonestrwydd sy'n briodol i'w rôl erbyn 30 Medi 2026. Sicrwydd parhaus: Caiff y cyfraddau cwblhau a'r gofynion adnewyddu yn y dyfodol eu monitro drwy fatrics hyfforddiant y Practis.
--	--	--	--	---	--	---

				Bydd pob aelod o'r staff sy'n weddill yn cwblhau'r hyfforddiant priodol ar y Ddyletswydd Gonestrwydd erbyn 30 Medi 2026. Bydd cyfraddau cwblhau a gofynion adnewyddu yn y dyfodol yn cael eu monitro o hyd drwy'r matrices hyfforddiant, a chaiff gofynion heb eu bodloni eu trafod gyda'r aelod perthnasol o staff a'i reolwr llinell. Bydd y dystiolaeth yn cynnwys y matrices hyfforddiant diwygiedig a chofnodion/tystysgrifau hyfforddiant y staff.		
33	Ni welsom dystiolaeth o raglen archwilio flynyddol systematig ar gyfer gweithgarwch archwilio clinigol a mewnol ar draws y practis.	Dylai'r practis ystyried datblygu amserlen archwilio flynyddol, ynghyd â phroses glir ar gyfer cofnodi canfyddiadau'r archwiliadau, rhannu'r gwersi a ddysgwyd, a sicrhau bod camau	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) – Dysgu, Gwellu ac Ymchwil, Arweinyddiaeth, Gwybodaeth, Effeithiol, Diogel.	Y trefniadau presennol Roedd y Practis eisoes yn cynnal amrywiaeth o archwiliadau clinigol, gweithredol a llywodraethu drwy gydol y flwyddyn, ac roedd y canfyddiadau a'r camau gweithredu yn deillio ohonynt yn cael eu	Yr Arweinydd Llywodraethu Clinigol a'r Partner Rheoli Gyda chymorth: Y Dirprwy Reolwyr, y Partneriaid Clinigol a'r arweinwyr adrannol perthnasol	Trefniadau presennol: Roedd gweithgareddau archwilio clinigol, gweithredol a llywodraethu yn cael eu cynnal cyn yr arolygiad. Yn mynd rhagddo: Mae amserlen

		gweithredu'n cael eu cwblhau lle bo angen.		hadolygu drwy'r trefniadau clinigol, y trefniadau rheoli a'r trefniadau llywodraethu perthnasol. Camau gweithredu pellach Er mwyn atgyfnerthu'r trefniadau ar gyfer goruchwyllo'r Practis cyfan, caiff gweithgareddau archwilio presennol eu dwyn ynghyd o fewn un rhaglen archwilio flynyddol ac un gofrestr archwilio ganolog. Bydd y gofrestr yn cofnodi'r archwiliad neu'r adolygiad, yr arweinydd cyfrifol, yr amllder arfaethedig neu'r dyddiad cwblhau, canfyddiadau a gwersi i'w dysgu, unrhyw gamau gweithredu yn deillio o hynny a'r amserlenni, a thystiolaeth o waith dilynol a chwblhau.		archwilio flynyddol a chofrestr archwilio ganolog wrthi'n cael eu datblygu. Dyddiad cwblhau targed: Caiff yr amserlen archwilio flynyddol a'r gofrestr ganolog eu cwblhau erbyn 30 Medi 2026, a chânt eu rhoi ar waith yn ffurfiol o fis Hydref 2026. Sicrwydd parhaus: Caiff cynnydd, canfyddiadau, gwersi a chamau gweithredu heb eu cwblhau eu hadolygu drwy'r trefniadau llywodraethu sefydledig, a chaiff y rhaglen ei hadnewyddu bob blwyddyn.
--	--	--	--	--	--	---

				Caiff canfyddiadau archwiliadau a'r gwersi perthnasol eu rhannu drwy drefniadau llywodraethu priodol y Practis. Bydd y camau gweithredu lle mae angen gwaith pellach yn parhau i gael eu cofnodi ar y gofrestr ganolog hyd nes y bydd tystiolaeth eu bod wedi'u cwblhau. Bydd y dystiolaeth yn cynnwys yr amserlen archwilio flynyddol, y gofrestr archwilio ganolog a chofnodion o archwiliadau a gwblheir a'r camau gweithredu yn deillio ohonynt. Sicrwydd parhaus Caiff cynnydd yn erbyn y rhaglen ei adolygu drwy drefniadau llywodraethu sefydledig y Practis. Caiff y rhaglen ei hadolygu a'i diwygio bob blwyddyn i adlewyrchu risgiau a nodir, blaenoriaethau a gofynion sicrwydd.		
--	--	--	--	--	--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Swydd: Dyddiad: